# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 5ED MAI, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd 26/4/16)

## PWYLLGOR ARCHWILIO

### AELODAETH (19)

### Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Charles Wyn Jones
W. Tudor Owen
Sedd Wag

E. Selwyn Griffiths
Dilwyn Morgan
Gethin Glyn Williams

Sian Gwenllian
Michael Sol Owen
John Wyn Williams

### Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Trevor Edwards
John Brynmor Hughes
Angela Russell

Thomas G. Ellis
John Pughe Roberts

### Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies

Aeron M. Jones

### Llafur (1)

Y Cynghorydd

Sion W. Jones

### Aelod Lleyg (1)

John Pollard

### Aelod Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

**(A) 21 IONAWR 2016 (CYFARFOD ARBENNIG)** 1 - 3

**(B) 11 CHWEFROR 2016** 4 - 9

**5. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - CYNLLUN ARCHWILIO 2016 CYNGOR GWYNEDD** 10 - 31

Cyflwyno adroddiad yr archwiliwr allanol.

**6. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** 32 - 40

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Gweithgor ar 7 Ebrill 2016.

**7. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 1/2/16 - 31/3/16** 41 - 91

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** 92 - 105

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

**9. HAWLIADAU YSWIRIANT YN ERBYN Y CYNGOR** 106 - 112

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**10. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** 113 - 116

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**11. HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU** 117 - 119

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO ARBENNIG 21/1/16

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Tom Ellis, Aled Ll. Evans, Sian Gwenllian, John B. Hughes, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, W. Tudor Owen, Angela Russell, Gethin Glyn Williams a John Wyn Williams.

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad – ar gyfer Eitem 4 ar y rhaglen), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni – ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen J. Davies, Trevor Edwards ac E. Selwyn Griffiths.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Gohiriwyd trafod yr adroddiad yma yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor ar 1 Rhagfyr, 2015, oherwydd swmp y wybodaeth i alluogi'r aelodau i roi sylw priodol i'r adroddiad.

Gosododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y cyd-destun, gan nodi y sefydlir trefn fwy trylwyr i alluogi'r Pwyllgor i fodloni ei hun bod y camau gweithredu i ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilwyr allanol wedi eu gweithredu.

Nodwyd y cyflwynir adroddiad o ran archwiliadau allanol bob 6 mis i'r Pwyllgor. Eglurwyd mai'r bwriad o dan y drefn newydd yw ystyried pob cynnig/argymhelliad yn unigol a pan fo'r Pwyllgor yn fodlon fod cynnig/argymhelliad wedi ei gwblhau neu nad yw bellach yn berthnasol gellir ei dynnu o'r rhestr.

Mewn ymateb i bryderon aelodau o ran cael sicrwydd gwirioneddol bod y camau gweithredu i gynigion gwella wedi eu gweithredu, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod rhaid ymddiried yng ngwaith y Penaethiaid Adran a'r swyddogion ond os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen eglurhad pellach gellir galw Aelodau Cabinet neu swyddogion gerbron.

Nododd y Prif Weithredwr mai rôl y Pwyllgor fel y rhai oedd yn gyfrifol am lywodraethu oedd cadw trac ar y camau gweithredu gan benderfynu os yw'n fodlon eu bod wedi eu cwblhau neu gyda'r cynnydd hyd yn hyn ac nid ail-wneud gwaith y Pwyllgorau Craffu.

Tywysodd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad yr aelodau drwy'r atodiad a oedd yn nodi'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol yn ystod y tair blynedd diwethaf ynghyd a'u cynigion ar gyfer gwella, y cynlluniau gweithredu i ymateb i'r cynigion gan yr archwilwyr ynghyd â'r cynnydd hyd yn hyn. Rhoddwyd sylw yn benodol i'r argymhellion lle nodwyd eu bod wedi eu cwblhau.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod rhai sylwadau yn hirfaith felly gofynnir am wybodaeth fwy cryno ar gyfer y dyfodol gan gyfeirio at brosiect yng nghynllun strategol y Cyngor pan fo'n berthnasol e.e. Arolwg Estyn;
- Y dylid ystyried cynnwys dolenni i'r adroddiadau yn y tabl;
- **Tudalen 15 1.2.1 4i. Sicrhau bod gwasanaeth yn hybu annibyniaeth i bobl hyn** - angen derbyn cadarnhad mai ond yng nghyswllt teleofal y cwblhawyd y gwaith;
- **Tudalen 20 1.2.2 ii. Cynllunio strategol gyda BIPBC yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)** – angen derbyn cadarnhad bod monitro'r gwasanaeth therapiwtig ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n cael eu lleoli tu allan i ardal yr awdurdod yn digwydd;
- Bod angen eglurdeb o ran arweinydd/cyfrifoldeb lle na nodir;
- **Tudalen 21 1.2.2 iii. Ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth** – y dylid derbyn mwy o wybodaeth gan nad yw'r sylwadau yn cadarnhau bod cysondeb yn ansawdd y cynlluniau gofal;
- **Tudalen 23 1.2.2 iia. Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (Llety)** - y dylid derbyn cadarnhad o ran bwriadau'r Adran Plant a Theuluoedd yng nghyswllt ymateb i'r diffyg amrediad lleoliadau sydd ar gael i rai sydd hefo anghenion cymhleth;
- **Tudalen 26 1.2.2 i. Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a gweithredu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau** – y dylid derbyn cadarnhad pam fod ceisiadau DoLS wedi cynyddu o 7 yn 2013-14 i 365 yn 2014-15;
- **Tudalen 58 2.2 Adolygiad Gwasanaeth Gofal Cartref Pobl Hyn Gwynedd gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC)** – nodir fel cynnydd 'Ar waith (parhaus)', byddai'n fwy synhwyrol nodi ei fod wedi ei gwblhau ar ddyddiad penodol gan ddweud ei fod yn waith parhaus. Nodwyd y gofynnir am gadarnhad o'r sefyllfa;
- **Tudalen 59 a 60 2.3 Adolygiad Cenedlaethol o DoLS yng Nghymru 2014 – Awdurdod Lleol Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – AGGCC** – nodir yn y golofn cynnydd bod camau penodol yn y cynllun gweithredu wedi eu gwireddu ond ddim yr argymhelliad i gyd. Dylid nodi un cynnydd sef 'Ar waith';
- **Tudalen 64 2.5 C3 Sicrhau nad yw'r broses o drosglwyddo gweithgareddau hyrwyddo budd-dal o'r Cyngor i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) yn cael effaith negyddol ar y broses o ymgysylltu a dinasyddion** - Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed cytundeb blynyddol gyda CAB yn dod i ben 31 Mawrth 2016, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y byddai cytundeb blynyddol newydd ar gyfer y flwyddyn 2016-17.

Nododd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad y byddai adroddiadau cenedlaethol archwilwyr allanol yn cael eu cynnwys pan gyflwynir y rhestr i'r Pwyllgor ymhen 6 mis ynghyd â'r rhai sydd yn benodol i Wynedd. Ychwanegodd y Prif Weithredwr pan ystyrir adroddiadau cenedlaethol y dylai'r Pwyllgor fodloni ei hun o ran y rhesymeg peidio gweithredu yn unol â rhai argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) Tynnu o'r rhestr yr argymhellion sydd wedi eu cwblhau heblaw am y rhai y gofynnir am eglurhad/gwybodaeth bellach, sef:**

- **Tudalen 15 1.2.1 4i. Sicrhau bod gwasanaeth yn hybu annibyniaeth i bobl hŷn;**
- **Tudalen 20 1.2.2 ii. Cynllunio strategol gyda BIPBC yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS);**
- **Tudalen 21 1.2.2 iii. Ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth;**
- **Tudalen 23 1.2.2 iia. Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (Llety).**

**(ii) Gofyn am eglurhad/gwybodaeth bellach o ran yr argymhellion isod lle nodir eu bod 'Ar waith':**
- **Tudalen 26 1.2.2 i. Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a gweithredu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau;**
- **Tudalen 58 2.2 Adolygiad Gwasanaeth Gofal Cartref Pobl Hyn Gwynedd gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC).**

**(iii) Cymeradwyo'r drefn hon fel trefn ar gyfer y dyfodol i'r Pwyllgor fod yn fodlon ar weithrediad y Cyngor i ymateb i adroddiadau archwilwyr allanol, gan gynnwys adroddiadau cenedlaethol.**

## 3. TREFNIADAU CRAFFU'R CYNGOR

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni yr adroddiad gan nodi yn dilyn trafod y mater yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Rhagfyr, 2015, y derbyniwyd fersiwn derfynol o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a oedd wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

Tywysodd yr aelodau drwy Atodiad 2 a oedd yn nodi'r argymhellion gyda rhai ystyriaethau i'r Pwyllgor ei ystyried wrth lunio cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion gan dynnu sylw y gofynnir i'r Pwyllgor ethol aelodau ar Is-grŵp a fyddai'n cynnwys yn ogystal aelodau o'r Fforwm Craffu a'r Dirprwy Arweinydd. Eglurwyd y byddai'r Is-grŵp yn llunio argymhellion i'w hystyried cyn i'r Cyngor gychwyn ar ei flwyddyn newydd yn Mai 2016.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:
- Bod craffu yn ei ffurf bresennol yn aneffeithiol;
- Bod rhai aelodau ers newid i'r drefn Gabinet yn amharod i gymryd rhan mewn craffu a'r angen i ddelio â hyn;
- Un gwendid yn y drefn bresennol yw bod gormod o eitemau yn cael eu hystyried oherwydd ni herir pam ystyrir mater yn ddigonol ac o ganlyniad lleihad yn ansawdd y craffu;
- Ei fod yn anodd cadw momentwm gwaith ymchwiliadau craffu;
- Bod angen sicrwydd o ran pwrpas craffu;
- Y gall craffu ychwanegu gwerth i'r broses os ail-lunnir y drefn graffu;
- Bod hyfforddi aelodau yn holl bwysig;
- Y dylid ystyried sefydlu trefn lle bod Pwyllgor Craffu yn gallu dethol o holl aelodau'r Cyngor (heblaw Aelodau Cabinet) o ran eu harbenigedd i gymryd rhan mewn ymchwiliad craffu;
- Croesawir yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) Cymeradwyo'r pwyntiau gweithredu'r drafft;**
**(ii) Ethol y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Cynghorydd John Wyn Williams ar yr Is-grŵp.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.45pm

______________________________

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR ARCHWILIO 11/2/16

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Trevor Edwards (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen J. Davies, Tom Ellis, E. Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, John B. Hughes, Aeron M. Jones, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, W. Tudor Owen, Angela Russell, Gethin Glyn Williams, John Wyn Williams a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitem 8 ar y rhaglen), Bethan Griffith (Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant – ar gyfer Eitem 9 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Aled Ll. Evans a Mr John Pollard.

**1. TEYRNGED**

Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd i'r diweddar gyn-Gynghorydd Eddie Dogan, a chydymdeimlwyd â'i deulu yn eu profedigaeth.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2015, fel rhai cywir.

**4. CYLLIDEB REFENIW 2015/16 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

Cyflwynwyd adroddiad monitro'r Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr Cyllid ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a gyflwynir i'r Cabinet ar 16 Chwefror.

Gosododd yr Aelod Cabinet Adnoddau y cyd-destun ac ymhelaethodd yr Uwch Reolwr Cyllid ar gynnwys yr adroddiad. Cyfeiriwyd at sefyllfa gorwariant tebygol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a nodwyd bod gostyngiad sylweddol o'r lefel gorwariant a ragwelwyd ar ddiwedd yr ail chwarter. Nodwyd bod rhaglen arbedion effeithlonrwydd yr Adran wedi llithro ac y byddai oddeutu £725k heb ei gyflawni eleni. Ymhelaethwyd y bydd rhaid i'r arbediad gael ei wireddu maes o law, ond yn y cyfamser bod angen trefniadau pontio priodol yn eu lle.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed gorwariant yr Adran, nodwyd bod camau ariannol a rheolaethol da wedi eu cymryd a bod y sefyllfa yn fwy derbyniol erbyn hyn.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau; ac argymell i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion.**

**5. RHAGLEN GYFALAF 2015/16 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y rhaglen ddiwygiedig a'r ffynonellau ariannu perthnasol.

Gosododd yr Uwch Reolwr Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet ar 16 Chwefror.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- O ran gwariant isel Tai hyd yn hyn, bod gwariant megis grantiau ardaloedd adnewyddu yn ddibynnol ar nifer o ffactorau ac nad oedd y sefyllfa yn peri pryder;
- Yr anfonir neges i'r Adran bod angen hyrwyddo'r benthyciadau/grantiau tai sydd ar gael i'r cyhoedd;
- Bod y Cyngor yn blaen gynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl y rhaglen Ysgolion Ganrif 21 presennol, gyda'r Adran Addysg yn cychwyn ar y broses o flaenoriaethu a fyddai'n bwydo i Gynllun Asedau nesaf y Cyngor a fydd yn weithredol o 2019-20 ymlaen.

**PENDERFYNWYD nodi sefyllfa rhaglen gyfalaf y Cyngor; ac argymell i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion.**

**6. MATERION CYLLIDEBOL**

**(A) STRATEGAETH ARIANNOL 2016/17 – 2019/20 A CHYLLIDEB 2016/17**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau ar y gyllideb er mwyn rhoddi cyfle i'r Pwyllgor Archwilio graffu'r wybodaeth o ran ei briodoldeb ariannol cyn i'r adroddiad fynd gerbron y Cabinet ar 16 Chwefror.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau. Nododd bod Llywodraeth Cymru ar 10 Chwefror 2016 wedi hysbysu byddai grant y Cyngor yn llai o £39,440, ac felly bod argymhelliad 1 a roddir gerbron y Cabinet wedi ei ddiwygio fel a ganlyn, cyn ystyried yr eitem 'Toriadau i Gyfarch y Bwlch Ariannol':

"Sefydlu cyllideb o £226,954,990 ar gyfer 2016/17, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £166,950,760 a £60,004,230 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.5%."

Manylodd y Pennaeth Cyllid ar gynnwys yr adroddiad gan nodi yr adolygir cronfeydd y Cyngor erbyn Mehefin 2016, gan symud unrhyw adnoddau a ryddheir i gwrdd â'r anghenion am adnodd i bontio tua £2 miliwn o doriadau ni ellir cyflawni ar unwaith o Ebrill 2016.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Bod yr hyn a argymhellir yn rhesymol;
- Yn gweld y rhesymeg tu ôl cynyddu Treth y Cyngor ar gyfer 2016/17 ond ei fod yn effeithio unigolion nad yw eu cyflogau'n cynyddu a dylid ystyried yr effaith ar unigolion pan fo gwasanaethau'n lleihau.

**(B) TORIADAU I GYFARCH Y BWLCH ARIANNOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr, nododd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus Her Gwynedd ar y toriadau yn ystod yr Hydref, y cynhaliwyd cyfres o weithdai i holl aelodau'r Cyngor i graffu'r farn a fynegwyd gan y cyhoedd. Nodwyd bod yr hyn a argymhellir i'r Cabinet yn cymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan yr aelodau yn y gweithdai.

Tynnwyd sylw yr argymhellir cynnydd o 3.97% yn Nhreth y Cyngor yn 2016/17, uwchben y 3.5% cynlluniedig, er mwyn osgoi gwireddu'r toriadau ym Mand 5.

Eglurwyd mai priodoldeb ariannol y cynigion oedd angen derbyn sylw'r Pwyllgor ac y byddai cyfle i'r holl aelodau roi eu barn o ran cynlluniau unigol yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2016 lle gosodir y gyllideb ar gyfer 2016/17.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- Bod rhaid i'r gyllideb fod yn gytbwys felly os ni chynyddir Treth y Cyngor 3.97% y byddai'n rhaid cynnwys cynlluniau o fandiau 6-10;
- Bod y cynnydd yr argymhellir yn Nhreth y Cyngor yn agos at gyfartaledd cynnydd mewn Treth Cyngor cynghorau eraill yng Nghymru;
- Yr argymhellir cynnwys yn y toriadau cynllun 20 'Cadw'r Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) ond dileu'r adnodd sy'n cadw golwg parhaus arno' ac y dylid ceisio gwireddu'r arbediad drwy leihau cyfraniad y Cyngor a gwneud unrhyw newidiadau gweithredu y gellid eu gwneud heb amharu ar effeithioldeb y gyfundrefn;
- Gan fod y Cyngor wedi gweithredu'r gyfundrefn cofrestru awtomatig yng nghyswllt pensiynau, ers rhai blynyddoedd, na fyddai cost ychwanegol i'r Cyngor.

**(C) ARGYMHELLIAD I'R CABINET - CYLLIDEB A THRETH CYNGOR 2016/17**

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cabinet y dylid:**

**(i) Sefydlu cyllideb o £227,227,120 ar gyfer 2016/17, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £166,950,760 a £60,276,360 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.97%;**

**(ii) Sefydlu rhaglen gyfalaf o £22.141m yn 2016/17 a £12.286m yn 2017/18 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.4 o'r atodiad;**

**(iii) Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, i drefnu i ariannu swm addasedig o gronfeydd, fel bo angen, er mwyn amddiffyn penderfyniadau'r Cyngor ar y gyllideb a'r dreth pe bai newidiadau ymylol mewn grant Llywodraeth, yn dilyn penderfyniadau Llywodraeth Cymru, fydd yn arwain at ddatgan setliad grant terfynol ar gyfer llywodraeth leol ar 2 Mawrth, a phleidlais yn y Cynulliad ar 9 Mawrth 2016 i'w gadarnhau.**

## 7. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2016/17

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor argymell i'r Cyngor Llawn ar 3 Mawrth fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2016/17, y Dangosyddion Darbodus, y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.

Gosododd y Rheolwr Buddsoddi y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad. Tynnwyd sylw y byddai 'Tabl 1: Crynodeb Mantolen a'r Rhagolwg' ar dudalen 3 Atodiad A yn cael ei ddiwygio i nodi £177,006 yn y golofn 'Benthyca CFR' o dan '31.3.19 Amcangyfrif £'000' pan cyflwynir yr adroddiad gerbron y Cyngor Llawn.

Nodwyd gwerthfawrogiad o'r cyfarfod briffio a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2016 i aelodau'r Pwyllgor gydag ymgynghorydd arbenigol o gwmni Arlingclose ac ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Llawn ar 3 Mawrth fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2016/17 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B), y Datganiad Darpariaeth**

**Lleiafswm Refeniw (Atodiad C) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

## 8. HAWLIADAU YSWIRIANT YN ERBYN Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg a oedd yn manylu ar drefniadau'r Cyngor o ran delio â hawliadau yswiriant. Tynnwyd sylw at yr atodiad a oedd yn rhoi darlun llawn o'r holl hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr a setlwyd yn ystod 2013-14 a 2014-15

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- Bod y Gronfa Yswiriant Fewnol yn cyfarch cost rhedeg y gwasanaeth ac os yw maint y gronfa yn cynyddu i lefel uwch nag sydd ei angen ym marn y swyddogion, yna fe ddychwelir yr arian yn ôl i falansau'r Cyngor;
- Gan fod 'excesses' polisiau Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr yn cynyddu i £50,000 o fis Ebrill 2016 ymlaen, y gallai olygu fwy o alw ar y Gronfa Yswiriant Fewnol ac fe asesir y sefyllfa yn rheolaidd;
- Y rhoddir cyngor i'r adrannau o ran eu cofrestrau risg er mwyn ceisio lliniaru'r risgiau a allai godi o ganlyniad i'r toriadau;
- O ran talu costau hawlydd, ers 2013 dim ond costau sefydlog y gellir eu hawlio;
- Os gwelir patrwm cynyddol yn y math o hawliadau a wneir yn erbyn adrannau fe adroddir yn ôl a rhoddir argymhellion o ran gwersi i'w dysgu;
- Yr edrychir ar drefn bosib o wobrwyo neu gosbi adrannau o ran eu cyfraniad i'r Gronfa Yswiriant Fewnol er mwyn gyrru ymddygiad;
- Er bod nifer uchel o hawliadau yn cael eu gwneud yn erbyn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, fe amddiffynnwyd llawer o'r hawliadau oherwydd trefniadau da o ran arolygu ffyrdd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) DRAFFT – YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yng nghyswllt ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft 2015 a ddisgwylir i ddod yn Ddeddf yn 2017.

Gwahoddwyd sylwadau'r pwyllgor ar:

- Rhan 1 (Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir), Pennod 3 (Sefydlu'r Cynghorau ar Gyfer y Siroedd Newydd), Adran 16 (ac Atodlen 3) sy'n ymwneud a Chynghorau Newydd: Cyllid;
- Rhan 5 (Cynghorau Sir: Llywodraethu yn Well), Pennod 7 sy'n ymwneud a Phwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.

**PENDERFYNWYD cyflwyno'r sylwadau a ganlyn, i'w hystyried fel rhan o baratoi ymateb corfforaethol i'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft 2015:**

**(i) Cynnig Atodiad 1 fel ymateb i gwestiynau 1.7, 1.8, 1.9 a 1.10;**

**(ii) Cynnig sylwadau yn seiliedig ar baragraffau 3.5 a 3.6 fel ymateb i gwestiwn 1.12;**

**(iii) Cadarnhau bod y pwyllgor yn cytuno â'r sylwadau aeth gerbron y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 4 Chwefror fel ymateb i gwestiwn 5.4 gan ychwanegu'r sylwadau a ganlyn:**

**"Barn bendant Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd yw bod cael traean o aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn aelodau lleyg yn ormodol. Barn y Pwyllgor yw bod hyn yn erbyn egwyddorion democrataidd, a bod cynghorwyr presennol yn**

**meddu ar y ddealltwriaeth ac adnabyddiaeth o'r Cyngor na all aelodau lleyg eu cynnig. Mae Cynghorwyr hefyd yn cynrychioli traws doriad eang o gymdeithas ac ystod o sgiliau. Nodwyd hefyd nad oes aelodau lleyg ar bwyllgorau'r Cynulliad.**

**Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn gwrthwynebu'r egwyddor fod rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod yn aelod lleyg, gan nad oes rhesymeg amlwg y tu ôl i'r cynnig yma."**

## 10. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2016 i ystyried archwiliad ymatebol a gynhaliwyd ar Ganolfan y Gwystl ynghyd a tri archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 14 Medi 2015 a 31 Hydref 2015 sef -

a) Canolfan Hamdden Plas Ffrancon
b) Cefn Rodyn, Dolgellau
c) Trafnidiaeth Gyhoeddus

Gwahoddwyd swyddogion i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nododd aelod o'r gweithgor ei fod yn arferiad i wahodd Uwch Reolwyr i drafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau ond bod aelodau'r gweithgor wedi gweld budd mewn gwahodd swyddogion oedd yn gweithredu o ddydd i ddydd wrth drafod archwiliad Canolfan Hamdden Plas Ffrancon.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed archwiliadau Canolfannau Hamdden yn derbyn categori barn C yn rheolaidd, nododd y Rheolwr Archwilio bod canllawiau a llawlyfr gan yr Adran Economi a Chymuned i gynorthwyo swyddogion y canolfannau ond bod angen newid diwylliant yn y Canolfannau Hamdden. Nodwyd bod y Gwasanaeth Archwilio yn fwy na bodlon i gynorthwyo swyddogion ac i gynnig cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 11. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2015 a 31 Ionawr 2016. Nodwyd bod 15 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod, 6 adolygiad grant a 3 archwiliad dilyniant.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol.

**PENDERFYNWYD:**

**(a) derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2015 i 31 Ionawr 2016 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**
**(b) bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr E. Selwyn Griffiths, Aeron M. Jones ac W. Tudor Owen i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C'.**
**(c) mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.**

**12. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2015/16.

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hyd at 31 Ionawr 2016 wedi cwblhau 56.76% o'r cynllun gyda 42 o'r 74 archwiliad unigol wedi eu rhyddhau yn derfynol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2015/16.**

**13. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2016/17**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi manylion am gynllun drafft o waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2016/17 er sylwadaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor. Nodwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal eisoes gyda'r Penaethiaid Adran a rheolwyr perthnasol gyda'u hawgrymiadau yn seiliedig ar yr hyn yn eu tyb hwy sydd yn risg uchel wedi eu hymgorffori yn y cynllun.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017.**

**14. HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yng nghyswllt adolygiad y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2015.

Amlygwyd newidiadau i benawdau a sgoriau effeithiolrwydd rhai elfennau o'r fframwaith llywodraethu ers yr hunanasesiad diwethaf, a wnaed gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, yn Mai 2015.

Adroddwyd bod y Grŵp Rheoli Corfforaethol wedi ystyried yr adroddiad ac wedi gwneud y sylwadau canlynol:

- y dylid gwella sgôr effeithiolrwydd 'Diwylliant y Cyngor' i 5 a'i roi yn yr oren;
- y dylid rhoi sgôr effeithiolrwydd o 4 i 'Y Drefn Craffu' a'i roi yn yr oren;
- y dylid newid y pennawd 'Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog' i Gydberthynas Aelodau a Swyddogion.

Nododd aelod bod gwell dealltwriaeth yn y Cyngor o roi'r person yn y canol a bod y diwylliant yma yn dechrau gwreiddio.

Nododd aelod er bod y Cyngor wedi derbyn adroddiad beirniadol gan Swyddfa Archwilio Cymru, nad oedd tystiolaeth mewn gwirionedd fod 'Y Drefn Craffu' wedi gwaethygu, gan fod elfennau da yn y drefn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r asesiad o drefniadau llywodraethu yn ddarostyngedig i'w addasu yn unol â sylwadau'r Grŵp Rheoli Corfforaethol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.35am a daeth i ben am 1.00pm

__________________________

**CADEIRYDD**

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllun Archwilio 2016

# **Cyngor Gwynedd**

**Blwyddyn archwilio:** 2015-16
**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2016
**Cyfeirnod y ddogfen:** 319A2016

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.

Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Deloitte LLP a Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynllun Archwilio 2016 | |
| Crynodeb | 4 |
| Archwilio ariannol | 4 |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 9 |
| Gwaith arall a wnaed | 9 |
| Archwilio perfformiad | 10 |
| Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen | 12 |
| Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio | 15 |
| Atodiadau | |
| Priod gyfrifoldebau | 16 |
| Gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sydd ar waith o hyd | 18 |
| Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol | 19 |

# Cynllun Archwilio 2016


## Crynodeb

1. Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol a'm rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:
   - archwilio eich datganiadau ariannol ac ardystio pa un a ydynt yn ‘gywir a theg’;
   - asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau;
   - archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni eich dyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur; a
   - chynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.
2. Diben y cynllun hwn yw nodi’r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgymerir ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.
3. Ni chyfyngwyd arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.
4. Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau’r rheolwyr a’r rheiny sy’n gyfrifol am lywodraethu, yn Atodiad 1.

## Archwilio ariannol

5. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'cywirdeb a'u tegwch’.
6. Rwyf hefyd yn ystyried a yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ac yn adrodd drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion.
7. Mae Atodiad 1 yn nodi fy nghyfrifoldebau yn llawn.
8. Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Fy null archwilio




**9.** Nodir y risgiau o gamddatganiadau perthnasol yr ystyriaf eu bod yn sylweddol mewn perthynas â Chyngor Gwynedd ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn Arddangosyn 2 ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef i ymdrin â hwy.

Arddangosyn 2: Risgiau archwilio ariannol

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Rheolwyr yn diystyru rheolaethau**<br>Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd annisgwyl y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, mae'n cael ei ystyried fel risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dulliau dadansoddi data uwch i ddadansoddi'r boblogaeth gyfan o gyfnodolion ar gyfer nodweddion o ddiddordeb;<br>• profi sut mae rheolaethau yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith mewn perthynas â chofnodion cyfnodolion i'r cyfriflyfr ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i fusnes arferol, gan gynnwys y rhai gyda phartïon perthnasol. |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Cyflawnrwydd incwm grant a'r gydnabyddiaeth ohono**<br>Rydym wedi nodi cyflawnrwydd incwm grant a'r gydnabyddiaeth ohono fel risg sylweddol gan fod angen i reolwyr ddefnyddio doethineb wrth gydnabod incwm grant, gan gynnwys pennu a oes gan grant amodau ac a yw'r amodau hynny wedi'u cyflawni er mwyn caniatáu cydnabyddiaeth.<br>Yn ein barn ni, mae yna ddau fath o incwm grant sy'n berthnasol i'r risg hon, sef grantiau refeniw penodol a grantiau cyfalaf a chyfraniadau. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi incwm grant fel y risg incwm benodol i'r datganiadau ariannol i sicrhau bod y gydnabyddiaeth o incwm yn adlewyrchu rheolau'r cynllun grant, bod yr hawl yn cyfateb i'r hawliad grant drafft neu derfynol a bod balans cyfrif rheoli'r grant wedi'i gysoni'n gywir;<br>• adolygu gohebiaeth sy'n gysylltiedig â grantiau penodol a'i chymharu â thriniaeth gyfrifyddu'r Cyngor; a<br>• phrofi sut mae rheolaethau yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth o incwm grant. |
| **Rhwymedigaeth Pensiwn**<br>Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor rwymedigaeth net materol mewn perthynas â'i rwymedigaethau pensiwn ar y fantolen sy'n cael ei chyfrifo yn seiliedig ar gyfres o ddyfarniadau actiwaraidd. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• cael y prisiad IAS19 ar 31 Mawrth 2016, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i helpu gyda'n hadolygiad o briodoldeb seiliau prisio, rhagdybiaethau a datgeliadau datganiadau ariannol IAS19. |
| **Cyfrif Darpariaethau**<br>Yn 2014-15, darparodd y Cyngor £490,000 i dalu am golledion yn y dyfodol mewn perthynas ag adenillion y Dreth Gyngor gan berchentywyr sydd ag ail eiddo a ddefnyddir yn fasnachol ac sy'n bodloni'r gofynion i fod yn gymwys i drosglwyddo i dalu Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR). Wrth drosglwyddo'r eiddo hyn i NNDR, gall y perchentywr hawlio'r gwahaniaeth rhwng NNDR a'r Dreth Gyngor a delir ar yr eiddo wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2010.<br><br>Yn ogystal, darparodd y Cyngor £335,000 yn ei ddatganiad o gyfrifon 2014-15 i gyfrannu at gyfran y Cyngor o'r diffyg pensiwn presennol yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd, ond roedd yr atebolrwydd eisoes wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifon trwy gofnodion Safon Cyfrifyddu Genedlaethol 19 – Budd-daliadau Cyflogeion (IAS 19).<br><br>O ganlyniad, yn 2015-16 gwnaed ailddosbarthiad mewn perthynas â'r darpariaethau hyn er mwyn ailddosbarthu'r darpariaethau fel cronfeydd wrth gefn. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu'r driniaeth gyfrifyddu briodol a ddefnyddir mewn perthynas ag ailddosbarthu darpariaeth pensiwn a'r Dreth Gyngor 2014-15; a<br>• phrofi priodoldeb darpariaethau eraill yn natganiad o gyfrifon 2015-16 a chyfrifiadau ategol yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol. |

**10.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar gywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

**11.** At ddibenion adrodd, rydym wedi rhagweld perthnasedd o £3.2 miliwn, yn seiliedig ar amcangyfrif o wariant net o £202.9 miliwn (yr ôl Adroddiad Ariannol a Monitro Cyfalaf y trydydd chwarter). Bydd y perthnasedd yn cael ei ddiweddaru ar ddiwedd y flwyddyn yn unol â'r gwariant gros diwedd blwyddyn a byddwn yn rhoi gwybod i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw newidiadau. Byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel 'ddibwys' (pump y cant o berthnasedd neu £100,000, pa un bynnag sydd isaf) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt. Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- bod y wybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r ansawdd disgwyliedig a'i bod wedi'i hadolygu at ddibenion sicrhau ansawdd;
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith gennych i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf; a
- bod rhaglen waith arfaethedig y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

**12.** Yn ogystal â'm cyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol statudol y Cyngor a nodwyd uchod, mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio datganiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am y Cyngor i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

**13.** Rwy'n gyfrifol hefyd am archwilio cyfrifon cronfa bensiwn Cyngor Gwynedd. Hoffwn dynnu'ch sylw at y meysydd risg canlynol rwyf wedi'u nodi mewn perthynas â'r Gronfa Bensiwn sydd uwchlaw'r rhai a gafodd fandad gan ISA 240:

Arddangosyn 3: Risgiau archwilio ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Cywirdeb data aelodaeth**<br>Yn dilyn mater a nodwyd ac a godwyd dros y blynyddoedd diwethaf, mae yna risg nad yw data aelodaeth a ddarparwyd i'r actiwari i'w ddefnyddio i baratoi'r datgeliadau blynyddol o dan Safon Cyfrifyddu Genedlaethol 19 (Budd-daliadau Cyflogeion) yn ddigon cadarn. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r broses a ddefnyddir gan y staff gweinyddu pensiynau i weithio gyda Chyrff Derbyniedig i sicrhau bod data'n gywir ac i ystyried a allwn ni gael sicrwydd o'i gywirdeb. |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Cyflawnrwydd a chywirdeb cyfraniadau**<br>Yn wahanol i'r sefyllfa yn y sector preifat, nid yw'n ofynnol i ni gyhoeddi datganiad ar wahân ar gyfraniadau i'r Gronfa. Er hynny, o ystyried y cymhlethdod sy'n codi yn sgil cyfranogiad gwahanol gyflogwyr yn y Gronfa, rydym wedi cynnwys y gwaith o nodi, cyfrifo a thalu cyfraniadau fel maes risg sylweddol. | Bydd fy nhîm archwilio yn cynnal y profion canlynol i fynd i'r afael â'r risg sylweddol mewn perthynas â chyfraniadau:<br>• byddwn yn profi sut mae rheolaethau yn y Gronfa yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith i sicrhau bod cyfraniadau gan bob Corff Cofrestredig a Derbyniedig yn cael eu nodi a'u cyfrifo'n gywir; a<br>• byddwn yn samplu profion o fanylion i bennu a gafodd pob ffrwd incwm faterol ei chyfrifo yn unol â'r prisiad actiwaraidd a'r rhestr o gyfraddau. |
| **Prisio buddsoddiadau**<br>Mae'r Gronfa'n gwneud rhyw ddefnydd o fuddsoddiadau mewn cyfryngau buddsoddi megis cronfeydd ecwiti preifat.<br>Mae anwadalrwydd y farchnad yn codi cwestiynau ynglŷn â sut i brisio cronfeydd ecwiti preifat. Fel arfer, byddai disgwyl i resymoldeb prisiad rheolwyr y Gronfa gael ei asesu trwy ei gymharu â'r archwiliad o gyfrifon diweddaraf y cronfeydd, wedi'u haddasu ar gyfer symudiadau arian parod dilynol (buddsoddiadau a dosraniadau) rhwng y cyfrwng buddsoddiad cyfunol a'r buddsoddwyr. Fodd bynnag, mae anwadalrwydd y farchnad yn golygu efallai y bydd cymhariaeth o'r fath yn amhriodol, yn enwedig os oes llawer o amser rhwng archwilio'r cyfrifon diweddaraf a diwedd blwyddyn y Gronfa. | Bydd fy nhîm archwilio yn cynnal y profion canlynol i fynd i'r afael â'r risg sylweddol mewn perthynas â buddsoddiadau:<br>• byddwn yn profi sut mae rheolaethau yn y Gronfa yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith i sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu prisio'n gywir;<br>• byddwn yn adolygu'r adroddiadau rheoli mewnol i gael dealltwriaeth o'r amgylchedd rheoli wrth i'r rheolwyr buddsoddi a'r rheolwyr adolygu ystyried yr adroddiadau hyn;<br>• byddwn yn cael cadarnhad gan drydydd partïon o falansau buddsoddi ar 31 Mawrth 2016;<br>• byddwn yn dewis sampl o fuddsoddiadau ac yn ystyried y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd yn y prisiadau i asesu eu priodoldeb, gan gyfeirio at brisiadau annibynnol; a<br>• byddwn yn ymgysylltu â'n harbenigwyr offerynnau ariannol i sicrhau bod ein dull profi yn briodol o ystyried strategaeth fuddsoddi a phortffolio penodol y Gronfa. |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
| --- | --- |
| **Cywirdeb cyfrifiadau budd-daliadau**<br>Ym mis Ebrill 2008, gwnaed newidiadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gyflwyno cymhlethdodau i'r gwaith o gyfrifo budd-daliadau ar ôl ymddeol a budd-daliadau salwch a marwolaeth, sy'n ychwanegol at y cynnydd blynyddol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rheoleiddio a Phensiynau (Cynnydd) 1971.<br>Y risg a nodwyd oedd y gallai budd-daliadau taladwy gael eu cofnodi'n anghywir ac y gallai taliadau anawdurdodedig gael eu gwneud i aelodau nad ydynt yn bodoli. | Bydd fy nhîm archwilio yn cynnal y profion canlynol i fynd i'r afael â'r risg sylweddol mewn perthynas â budd-daliadau:<br>• Byddwn yn profi sut mae rheolaethau yn y Gronfa yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith i sicrhau cywirdeb, cyflawnrwydd a dilysrwydd budd-daliadau trwy drafodaeth â'r tîm pensiynau, a byddwn yn gwirio a oedd rheolaethau ar waith yn ystod blwyddyn yr adolygiad.<br>• Byddwn yn cael rhestr o fudd-daliadau a dalwyd ac yn dewis sampl o fudd-daliadau ar gyfer profion manwl. Bydd y sampl yn cael ei phrofi trwy weld a ydynt yn cyd-fynd â ddogfennau ategol a byddwn yn adolygu'r cyfrifiad trwy gyfeirio at y gwasanaeth cymhwyso, rheolau'r Gronfa a dewisiadau budd-daliadau a wnaed gan yr aelod.<br>• Byddwn yn cael sicrwydd ychwanegol ynghylch y balans trwy ddatblygu disgwyliad yn seiliedig ar falans y flwyddyn flaenorol a'i addasu ar gyfer newidiadau yn nifer yr aelodau a chynnydd mewn pensiynau er mwyn adolygu'r budd-daliadau pensiwn a dalwyd y flwyddyn honno mewn ffordd ddadansoddol. |

# Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

**14.** Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant Cyngor Gwynedd.

**15.** Nodir fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 6.

# Gwaith arall a wnaed

**16.** Rwyf hefyd yn gyfrifol am archwilio tri Chydbwyllgor y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel eu Hawdurdod Derbyn, sef Cydbwyllgor GwE, y Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a'r Cydbwyllgor Polisi Cynllunio. Yn ogystal, rwy'n gyfrifol am y pedwar harbwr, sef Pwllheli, Abermo, Porthmadog ac Aberdyfi, y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel eu Hawdurdod Harbwr. Hoffwn dynnu'ch sylw at y maes risg canlynol rwyf wedi'i nodi mewn perthynas â'r cydbwyllgorau sydd uwchlaw'r rhai a gafodd fandad gan ISA 240.

Arddangosyn 4: Risgiau archwilio ariannol Cydbwyllgor GwE

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Incwm grant a gwariant**<br>Mae'r Pwyllgor yn derbyn cyllid grant sylweddol, gyda'r rhan fwyaf ohono'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae yna risg bod y datganiadau ariannol yn cynnwys neu'n hepgor y cyllid grant hwn yn amhriodol gan y bydd angen i'r Pwyllgor asesu a yw'n gweithredu fel asiant neu brif gorff. | Mae fy nhîm archwilio yn deall polisi cydnabyddiaeth y Pwyllgor ar gyfer incwm grant a gwariant a fydd yn cynnwys adolygiad o a yw'r Pwyllgor yn gweithredu fel prif gorff neu asiant. Byddwn yn profi'r manylion i gadarnhau a yw'r meini prawf cydnabyddiaeth wedi'u bodloni. |

**17.** Nid oes unrhyw risgiau archwilio ariannol ychwanegol yr hoffwn dynnu'ch sylw atynt mewn perthynas â'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig, y Cydbwyllgor Polisi Cynllunio neu'r Awdurdod Harbwr.

**18.** Nodir fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 7.

# Archwilio perfformiad

**19.** Nodir elfennau fy ngwaith archwilio perfformiad yn Arddangosyn 5 ac fe'u cynlluniwyd er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion lefel uchel strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2013-2016.

Arddangosyn 5: Elfennau o'm gwaith archwilio perfformiad



**20.** Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn mynd drwy gyfnod o newid na welwyd mo'i debyg o'r blaen. Mae effeithiau caledi yn amlwg o hyd, bydd yn ofynnol i gyrff a archwilir fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fis Ebrill 2016, ac mae Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft yn cynnig llai o gynghorau a fframwaith perfformiad newydd. Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi datgan yn gyhoeddus yr hoffai weld cyfundrefn archwilio newydd cyn cyflwyno'r amserlen ddeddfwriaethol gyda'r bwriad o gefnogi newid. Ym mis Ionawr eleni, fe'm hysbyswyd gan y gweinidog y byddai gostyngiad sylweddol yn y grant sy'n darparu cymhorthdal ar gyfer fy ngwaith archwilio perfformiad llywodraeth leol o dan y Mesur.

**21.** Rwyf wedi ystyried y ffaith y bydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn bodoli ac y bydd gan gynghorau rwymedigaeth i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fis Ebrill 2016, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**22.** Er bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn dal i fod yn berthnasol i gynghorau yn 2016-17, bydd angen i mi fodloni gofynion archwilio o dan adran 17. Byddaf yn gwneud hyn trwy archwiliad sylfaenol o gyhoeddiadau awdurdodau lleol, a byddaf yn darparu tystysgrif o gydymffurfiaeth.

**23.** Fodd bynnag, gan fod Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft yn nodi na fydd Mesur 2009 yn berthnasol i gynghorau mwyach, yr her i mi yn y cyfnod ansicr hwn yw sicrhau cydbwysedd rhwng fy nyletswyddau statudol presennol, newydd ac arfaethedig a'r angen i barhau i gynnal archwiliadau ac asesiadau ystyrlon a chymesur sy'n seiliedig ar risg. Felly, rwy'n bwriadu lleihau'r gwaith sy'n canolbwyntio ar y broses o gynllunio ar gyfer gwella o blaid gwaith sy'n canolbwyntio ar allu cynghorau i sicrhau newid a chynnal llywodraethu da yr un pryd.

**24.** O ran fy ngofynion asesu adran 18, byddaf yn cyflawni'r ddyletswydd hon trwy gynnal tri adolygiad thematig ym mhob cyngor gyda'r nod o ddarparu sicrwydd a mewnwelediad ynghylch sut y gall trefniadau gefnogi gwelliant a newid, gan ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn ogystal ag adrodd i bob cyngor ar ei drefniadau ei hun, byddaf hefyd yn cyhoeddi adroddiadau cryno cenedlaethol, a ariennir gan y grant WPI, a fydd yn darparu crynodebau Cymru gyfan ac yn cyfeirio at arfer da a dysgu ar y cyd. Yn ogystal ag ymateb i'r amgylchedd llywodraeth leol sy'n newid yn gyflym, mae fy newis o adolygiadau thematig wedi'i ddylanwadu gan ymatebion i'm hymgynghoriad ar astudiaethau llywodraeth leol. Yn gryno, mae'r tri adolygiad thematig rwyf wedi penderfynu arnynt fel a ganlyn, a byddaf yn darparu briff prosiect manwl i gynghorau maes o law.

Arddangosyn 6: Adolygiadau Thematig Archwilio Perfformiad

| Thema | |
|---|---|
| **Adolygiad gwydnwch ariannol** | Mae cynghorau'n parhau i ymdrin â chaledi a dyfodol ansicr. Bydd yr adolygiad hwn yn ceisio darparu sicrwydd bod trefniadau'n canolbwyntio ar gynnal gwydnwch dros y tymor canolig a'r tymor hir. |
| **Adolygiad llywodraethu** | Gyda chyflwyniad fframwaith diwygiedig CIPFA ar 'Delivering good governance in local government', a'r gofyniad ar gynghorau i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fis Ebrill 2016, bydd yr adolygiad hwn yn darparu llinell sylfaen i gynghorau allu cynllunio gwelliannau i lywodraethu. |
| **Adolygiad trawsnewidiad** | Bydd yr adolygiad llinell sylfaen hwn yn archwilio sut mae cynghorau'n mynd ati i gynnig 'newid trawsnewidiol', yn enwedig sut mae swyddogaethau galluogi corfforaethol allweddol yn gweithio mewn ffordd integredig i gefnogi rhaglenni newid. |

**25.** Rwy'n bwriadu gadael rhywfaint o le yn y strwythur ffioedd i gytuno ar waith lleol seiliedig ar risg yn dilyn trafodaeth gyda phob cyngor. Gan y bydd pob un o'r adolygiadau thematig yn arwain at adroddiad lleol, a bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng llythyr blynyddol sy'n darparu'r prif bwyntiau cryno ac yn cysylltu ag adroddiadau lleol.

**26.** Ym mis Mawrth 2016, byddaf yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad gyda chyrff gwasanaeth cyhoeddus i drafod y ffordd orau o gyflawni fy amrywiol ddyletswyddau tra'n sicrhau'r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth drwy:

- roi sicrwydd o ran y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu llywodraethu a'u gwarchod;
- rhoi cipolwg defnyddiol o'r graddau y defnyddir adnoddau yn ddoeth i ddiwallu anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

**27.** Mae'r prosiectau archwilio perfformiad a gafodd eu cynnwys yng Nghynllun Archwilio y llynedd, sydd naill ai ar waith neu wedi'u hamnewid am brosiectau eraill mewn cytundeb â chi, wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3.

# Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

## Ffi

**28.** Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni chaiff y ffioedd a godir fod yn uwch na'r gost lawn sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth y codir y ffi amdani. Pennir y cyfraddau ffioedd er mwyn adennill y gost honno'n llawn. Ni fu unrhyw newid yn fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2016 a bydd fy nhimau archwilio yn parhau i geisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn eu harchwiliadau ac maent yn awyddus i weithio gyda chi mewn modd adeiladol yn hyn o beth.

29. Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2016 yn Arddangosyn 7. Nid yw'r ffigur hwn yn cynrychioli unrhyw newid o gymharu â'r ffi a nodwyd yng nghynllun archwilio 2015.

Arddangosyn 7: Ffi archwilio

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Y ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| **Gwaith archwilio ariannol[1]** | **£180,450** | **£180,450** |
| **Gwaith archwilio perfformiad:[2]** | | |
| • Gwaith archwilio ac asesu ar gyfer gwella a gwaith dilynol | £99,036 | £99,198 |
| **Cyfanswm y ffi** | **£279,486** | **£279,648** |
| **Gwaith archwilio ariannol arall[3]** | | |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd | £32,594 | £32,594 |
| Cydbwyllgor GwE | £7,590 | £7,590 |
| Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig | £920 | £920 |
| Cydbwyllgor Polisi Cynllunio | £920 | £920 |
| Awdurdodau Harbwr | £650 | £650 |
| **Cyfanswm ffioedd ar gyfer gwaith archwilio arall** | **£42,674** | **£42,674** |
| **Gwaith ardystio grantiau[4]** | **£110,000 - £125,000** | **£110,000 - £125,000** |

Nodiadau:

[1] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Hydref 2016.

[2] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017.

[3] Yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud – bydd y ffi yn seiliedig ar ddealltwriaeth bresennol o drosiant y cyrff yn unol â'n system sicrwydd cyfyngedig.

[4] Yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud ac yn amodol ar lefel y profi sy'n ofynnol.

30. Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, y ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.

31. Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r broses o bennu ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

---

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, gan na chodir TAW arnoch mwyach.

## Tîm archwilio

**32.** Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 8.

Arddangosyn 8: Fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Ian Howse | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 029 2026 4319 | ihowse@deloitte.co.uk |
| Clare Edge | Rheolwr Archwilio Ariannol | 029 2026 4341 | cedge@deloitte.co.uk |
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 029 2032 0651 | Derwyn.Owen@audit.wales |
| Jane Holownia | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Perfformiad | 029 2032 0565 | Jane.Holownia@audit.wales |
| Jeremy Evans | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 07825 052861 | Jeremy.Evans@audit.wales |
| Nigel Griffiths | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 07798 503065 | Nigel.Griffiths@audit.wales |

**33.** Gallaf gadarnhau bod holl aelodau fy nhîm yn annibynnol ar Gyngor Gwynedd a'ch swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

**34.** Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i Gyngor Gwynedd sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 9.

Arddangosyn 9: Amserlen

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio 2016 | Mawrth – Ebrill 2016 | Ebrill 2016 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf – Medi 2016 | Medi 2016 |

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Gwaith perfformiad:** | | |
| • Archwiliad o'r Cynllun Gwella | Pan fydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi | Chwe wythnos ar ôl ei gyhoeddi |
| • Archwiliad o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol | Tachwedd 2016 | Chwe wythnos ar ôl ei gyhoeddi |
| • Gwaith Perfformiad lleol | Mai 2016 - Mawrth 2017 | Ar ôl cwblhau'r prosiectau mewn ymgynghoriad â'r Cyngor |
| • Astudiaethau Thematig | | |
| – Adolygiad o Wydnwch Ariannol | Mehefin - Rhagfyr 2016 | Rhagfyr 2016 |
| – Adolygiad Llywodraethu | Medi - Rhagfyr 2016 | Ionawr 2017 |
| – Adolygiad Trawsnewidiad | Rhagfyr 2016 - Chwefror 2017 | Mawrth 2017 |
| • Llythyr Gwella Blynyddol | Crynodeb o'r gwaith a wnaed | Mawrth 2017 |
| Cynllun Archwilio 2017 | Hydref – Rhagfyr 2017 | Chwefror 2017 |

## Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio

**35.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliad o bob un o'r cyrff cyhoeddus a ddynodir yn y Ddeddf a darparu adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 2020.

**36.** Fel y nodir ym mharagraff 23, byddaf yn ymgynghori ar fy ymateb arfaethedig i'r Ddeddf yn ystod gwanwyn 2016. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys ymrwymiad i ymgysylltu a chydweithio â chyrff cyhoeddus i ddatblygu dull archwilio sy'n drylwyr, yn ystyrlon ac yn gymesur. Bwriadaf ddefnyddio 2016-17 fel blwyddyn drosiannol lle y bydd fy nhimau yn gweithio gyda nifer gyfyngedig o gyrff cyhoeddus i ddatblygu a phrofi fy null.

**37.** Wrth i ni gadarnhau ein dulliau archwilio ac ymateb i ymgynghori parhaus gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn siarad â chyrff a archwilir am y goblygiadau i'w ffioedd o 2017-18 ymlaen ac yn ystyried modelau ariannu amgen â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol nesaf.

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

### Archwilio ariannol

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- Eu 'cywirdeb a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- Cysondeb y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi asesu a yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriaf y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiadau o hawliadau a ffurflenni ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol y Cyngor a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi hefyd ystyried pa un a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a

- sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau.

Mae’r rheolwyr yn cytuno i roi’r canlynol i mi:

- mynediad i’r holl wybodaeth y mae’r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy’n berthnasol i’r gwaith o baratoi’r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i unigolion o fewn y Cyngor y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i’r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau’r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi’r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi’i gofnodi ac wedi’i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod y wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy’n berthnasol i’r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny’n angenrheidiol neu os yw’n ofynnol o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Archwilio perfformiad

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal archwiliadau i nodi pa un a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwella, cynllunio ac adrodd.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

# Atodiad 2

## Gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sydd ar waith o hyd

| Prosiect archwilio perfformiad | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adolygiad AD | Gwaith maes | Cwblhau'r sail dystiolaeth cyn drafftio'r adroddiad |
| Adolygiad Rheoli Asedau | Wedi'i ohirio | I'w ddarparu ym mis Mai 2016 |
| Adolygiad TGCh | Wedi'i ohirio | I'w ddarparu ym mis Mai 2016 |
| Agwedd strategol cynghorau at gynhyrchu incwm a chodi ffi am wasanaethau. | Gwaith maes wedi'i gwblhau | Adroddiad Cenedlaethol i'w gyhoeddi yn ystod haf 2016 |
| Effeithiolrwydd partneriaethau cymunedol lleol | Gwaith maes wedi'i gwblhau ac adroddiad cenedlaethol yn cael ei ddrafftio | Adroddiad Cenedlaethol i'w gyhoeddi yn ystod haf 2016 |
| Y cyngor i ariannu gwasanaethau trydydd sector. | Gwaith maes wedi dechrau ond heb ei gwblhau ar bob safle | Adroddiad Cenedlaethol i'w gyhoeddi yn ystod haf 2016 |
| Adolygiad lleol o i ba raddau mae gwasanaeth addysg y Cyngor mewn sefyllfa dda i gyflawni ei rôl o fewn amgylchedd mewnol ac allanol sy'n newid o hyd | Adroddiad drafft wedi'i gyflwyno i'r Cyngor yn ystod mis Mawrth 2016 | Adroddiad lleol i'w gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2016 |

# Atodiad 3

## Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Efallai y bydd gan Gyngor Gwynedd hefyd ddiddordeb yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a gynhelir gennyf, y bydd rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i lywodraeth leol, ac efallai'n cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Ariennir yr astudiaethau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynir adroddiadau i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i graffu ar wariant cyhoeddus ac o bosibl i hwyluso trefniadau craffu pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r tabl isod yn cwmpasu'r holl waith mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys crynodebau Cymru gyfan o'r gwaith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Yn ogystal â'r gwaith a amlinellir isod, mae'n bosibl y byddaf yn penderfynu paratoi adroddiadau cenedlaethol eraill yn ystod y flwyddyn a fydd yn crynhoi gwaith archwilio lleol neu a fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau archwiliadau ymatebol.

Cyflwynir adroddiadau diweddaru pellach ar fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian i chi o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a baratoir gan fy nhîm.

| Pwnc | Amserlen gyhoeddi ddisgwyliedig |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru yn caffael a pherchnogi Maes Awyr Caerdydd | Diwedd Ionawr 2016 |
| Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru | Dechrau Chwefror 2016 |
| Theatrau llawdriniaethau | Chwefror 2016 |
| Effaith ymarfer preifat ar ddarpariaeth y GIG | Chwefror 2016 |
| Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru | Mawrth 2016 |
| Ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio (memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus) | Gwanwyn 2016 |
| Rheoli’r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol | Gwanwyn 2016 |
| Gwasanaethau rheilffyrdd | Gwanwyn 2016 |
| Llywodraethu Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Gwanwyn 2016 |
| Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth sefydliadau addysg bellach | Hydref 2016 |
| Caffael cyhoeddus (gan gynnwys datblygu’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol) | Gaeaf 2016 |

| Pwnc | Amserlen gyhoeddi ddisgwyliedig |
|---|---|
| Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad | Gwanwyn/haf 2017[2] |
| Ymyriadau Llywodraeth Cymru mewn llywodraeth leol | I'w gadarnhau[3] |

Yn ystod y misoedd diwethaf, bûm yn ystyried cynnwys nifer o astudiaethau newydd ar y canlynol fel rhan o'm rhaglen:

- Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion (rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif) a lleoedd ysgol
- cyllid addysg bellach
- rheoli gwastraff
- rhaglen Cefnogi Pobl
- gallu pobl nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith a'r rheini a all fod o dan anfantais ac na allant fanteisio ar wasanaethau cyfieithu ar y pryd arbenigol i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus

Ac eithrio'r astudiaeth addysg bellach y cyfeirir ati yn y tabl uchod, ni chadarnhawyd cynlluniau pendant ar gyfer yr astudiaethau newydd hyn, er bod gwaith pennu cwmpas cychwynnol yn mynd rhagddo.

[2] Mae fy rhaglen o waith arfer da yn cynnwys prosiect a fydd yn ceisio ystyried yr amrywiaeth o waith newid ymddygiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chyfleoedd i wella ymarfer, cyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion a sicrhau gwell gwerth am arian. Bydd y prosiect yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu a threfniadau ar gyfer datblygu cymuned ymarfer i rannu dysgu a phrofiad. Rwyf yn rhagweld y bydd y wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir drwy'r gwaith hwn yn ategu'r broses o lunio adroddiad ar y pwnc, er nad yw'r adroddiad hwn yn debygol o fod ar ffurf adroddiad archwilio traddodiadol ac nad yw'n debygol o gael ei baratoi tan hanner cyntaf 2017.

[3] Bu'r cynlluniau ar gyfer y gwaith hwn yn cael eu hailystyried yn dilyn yr adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o ymyriadau Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag Ynys Môn, ac er mwyn ystyried goblygiadau'r cynlluniau i ddiwygio llywodraeth leol ar gyfer y gwaith.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **5 MAI 2016** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 EBRILL 2016** |
| AWDUR | **JOHN PUGHE ROBERTS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 15 o adroddiadau i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2016, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Tachwedd 2015 hyd at 31 Ionawr 2016. Derbyniodd 4 o'r adroddiadau hyn farn 'C'.

## 2. CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 7 Ebrill 2016 gyda Chadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Angela Russell a Tom Ellis, Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio a Mair Williams, Uwch Archwiliwr yn bresennol.

2.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN |
|---|---|---|---|
| Canolfan Hamdden Arfon | Economi a Chymuned | Hamdden | C |
| Cartref Plas y Don | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C |
| Cartref Plas Hedd | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C |
| Cynnal a Chadw Adeiladau a Safleoedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Fflyd | C |

2.3 Mynychodd swyddogion perthnasol i drafod yr adroddiadau unigol.

## 2.4 Canolfan Hamdden Arfon

2.4.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Cadarnhaodd y Rheolwr ar Ddyletswydd eu bod yn cynhyrchu adroddiadau misol perthnasol ar gyfer y ganolfan. Gwelwyd bod adroddiadau "Point of sales Transactions - Cancelled" wedi eu cynhyrchu yn ogystal ag adroddiadau "Record Refunded". Wrth archwilio sampl o dri mis ar draws y flwyddyn ariannol 2014/ 15 gwelwyd bod adroddiadau mis Chwefror a Gorffennaf 2015 ar gael, ond nid oedd modd darganfod rhai 2014 ar ddiwrnod yr archwiliad.*

*Archwiliwyd sampl o bedwar 'Cais i Logi Cyfleusterau' yn y Ganolfan. Wrth archwilio'r ceisiadau gwelwyd nad oedd rhif anfoneb na dyddiad wedi eu nodi ar y ceisiadau ac oherwydd hyn roedd yn anodd darganfod yr anfoneb gywir i gyd fynd â'r 'Cais i logi Cyfleusterau'.*

*Derbyniwyd manylion dyledwyr y Ganolfan gan y Gwasanaeth Refeniw a gwelwyd bod cyfanswm y dyledion yn £19,637.10 ar 08/06/2015. Mae'r cyfanswm yma yn deillio o nifer o ddyledwyr unigol (35).*

*Bydd gwybodaeth a thelerau debyd uniongyrchol cwsmeriaid yn cael eu cadw mewn ffeil yn y Ganolfan. Nid yw'r wybodaeth yma yn cael ei gadw dan glo, ond yn hytrach fe'i cedwir ar silff yn ystafell gefn sydd tu ôl i'r dderbynfa. Golyga hyn bod yna risg y gall gwybodaeth bersonol fynd i'r dwylo anghywir wrth beidio cadw'r wybodaeth yn ddiogel.*

*Caiff offer ei farcio yn y Ganolfan yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oes cofnod ffurfiol o ba offer sydd wedi eu marcio na gyda pha gyfeirnod mae'r offer wedi eu marcio. Dylid ystyried rhoi'r wybodaeth yma ar restr eiddo'r Ganolfan fel ei bod yn bosibl dilyn trywydd yr offer pe bai unrhyw beth yn cael ei ddwyn.*

*Mae yna drefniadau anwytho staff mewn bodolaeth yn y Ganolfan. Bydd y wybodaeth yma yn cael ei cadw ar gynllun hyfforddiant personol yr unigolyn yn swyddfa'r Rheolwr Ardal. Wrth archwilio sampl o becynnau anwytho staff gwelwyd ei bod yn orfodol i staff ddarllen a deall y polisi iechyd a diogelwch sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn anwytho. Fodd bynnag, yn y sampl o ddau becyn anwytho staff archwiliwyd gwelwyd nad oeddynt wedi arwyddo a dyddio i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisi.*

*Nid oedd cofnod ffurfiol o wiriadau ar lefel stoc y nwyddau cymorth cyntaf ar gael fel tystiolaeth ar gyfer yr archwiliad. Mynegodd y Rheolwr ar Ddyletswydd eu bod am gynhyrchu ffurflen newydd ar gyfer cynnal gwiriadau lefel stoc cymorth cyntaf. Yn dilyn yr archwiliad derbyniodd yr archwiliwr gopi o'r ffurflen newydd a gynhyrchwyd ym mis Medi 2015. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd wedi ei harwyddo yn briodol.*

*Mae'r Ganolfan yn cadw adroddiadau digwyddiad ar gyfer cofnodi manylion damweiniau a ddigwyddir yn y Ganolfan yn ogystal â chwblhau ffurflenni HS11 ar gyfer damweiniau difrifol. Ni chedwir yr adroddiadau digwyddiad na'r ffurflenni HS11 dan glo. Golyga hyn bod risg i wybodaeth bersonol am unigolion gyrraedd y dwylo anghywir.*

*Gwelwyd bod sylweddau niweidiol yn cael eu cadw yn y "Plant Room" yn y Ganolfan. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd yr ystafell hon yn cael ei chloi yn ystod y dydd ond gyda'r nos. Golyga hyn bod risg i unigolion/aelodau o'r cyhoedd yn cael eu niweidio petaent yn mynd i'r ystafell.*

*Mae taflenni COSHH yn bresennol yn y "Plant Room" lle cedwir y sylweddau ar gyfer y pwll nofio ac fe'i cedwir mewn ffeil. Cwblhawyd yr asesiad diwethaf yn 2013 ac fe nodir ar y dogfennau COSHH yn y Ganolfan nad yw'r asesiad nesaf i gymryd lle hyd Rhagfyr 2018. Ymddengys bod hyn yn gyfnod hir heb asesiad.*

2.4.2 Croesawyd Guto Williams, Rheolwr Ardal Caernarfon/Nantlle a David Wood, Rheolwr Busnes ac Ansawdd i'r cyfarfod i drafod archwiliad Canolfan Hamdden Arfon.

2.4.3 Cyflwynwyd crynodeb o ddarganfyddiadau'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio. Amlinellodd y prif feysydd o wendidau sef diffyg i gofnodi manylion cyflawn ar y ffurflenni 'Cais i Logi Cyfleusterau'; lefel y dyledion; trefniadau storio stoc peiriannau arlwyo a'r risg gyda dogfennaeth a'r posibilrwydd o wybodaeth bersonol am unigolion gyrraedd y dwylo anghywir.

2.4.4 Eglurodd Rheolwr Ardal Caernarfon/Nantlle ei fod yn newydd i'r swydd ar adeg yr archwiliad a'i fod yn cytuno gyda nifer helaeth o'r argymhellion a bod yr adroddiad wedi bod o gymorth iddo wybod beth oedd angen ei wneud ac i sefydlu trefniadau newydd.

2.4.5 Mynegodd o safbwynt y dyledion, bod oddeutu gwerth £10k yn ymwneud â'r caffi a thu hwnt i reolaeth y Ganolfan ond bod tîm o ddau erbyn hyn yn gyfrifol am olrhain dyledion y ganolfan. Ymholodd aelod a oedd trefniant i atal y rhai sydd â dyledion rhag defnyddio cyfleusterau'r Ganolfan. Eglurodd y Rheolwr Ardal nad ydynt yn caniatáu defnydd i'r rhai sydd mewn dyled a bod y swyddogion yn wybyddus o bwy yw'r dyledwyr.

2.4.6 Mynegodd y Rheolwr Ardal Caernarfon/Nantlle o safbwynt y diffyg i gadw gwybodaeth dan glo fel yr amlygwyd yn yr adroddiad, bod mynediad i'r swyddfa y tu hwnt i'r dderbynfa yn gyfyngedig i staff y dderbynfa, y Rheolwr a'r Rheolwr ar Ddyletswydd yn unig.

2.4.7 O safbwynt stoc y peiriannau arlwyo, dywedodd y Rheolwr Ardal Caernarfon/Nantlle bod trefniadau wedi eu sefydlu a bellach mewn lle.

2.4.8 Eglurodd y Rheolwr Archwilio y bydd archwiliad dilyniant yn cael ei gynnal yn y chwe mis nesaf ac mai ymweliad dirybudd y bydd bryd hynny a fyddai yn rhoi gwir ddarlun o'r sefyllfa. Croesawyd hyn gan y swyddogion.

2.4.9 Mynegodd Aelod bwysigrwydd bod yr holl staff, ac yn benodol y rheolwyr ar ddyletswydd yn ymwybodol o'r trefniadau ac ymhle y cedwir yr amrywiol ddogfennau/ffurflenni.

2.4.10 **Diolchwyd i'r Rheolwr Ardal Caernarfon/Nantlle a'r Rheolwr Busnes ac Ansawdd am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r camau gweithredol sydd wedi eu cymryd ers rhyddhau'r adroddiad i liniaru'r risgiau a adnabuwyd.**

**2.5 Plas y Don, Pwllheli**

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Yn ystod yr archwiliad darganfuwyd enghreifftiau o ymarfer da mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac o ganlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.*

*Mae'n ofynnol bod y taflenni 'Cofnod o Arian Preswylydd' yn cael eu llofnodi gan ddau berson ar gyfer pob gwariant o arian poced y preswylwyr. Roedd dau achos ble mai ond un person oedd wedi arwyddo'r daflen. Ni welwyd derbynebau i gefnogi pob gwariant oedd wedi ei gofnodi ar y cardiau. Nid oedd y balans rhedegol yn gywir ar ddau allan o 5 o'r taflenni 'Cofnod o Arian Preswylydd'.*

*Cymerwyd sampl o daflenni 'eitemau personol' o Gynlluniau Gofal 3 o'r preswylwyr a'u gwirio. Nid oedd y ffurflenni wedi eu dyddio na'u llofnodi i gadarnhau eu cynnwys.*

*Gwiriwyd cyfrif imprest y cartref ar gyfer 2014/15 a gwelwyd bod ceisiadau am ad-daliad wedi eu gwneud ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2014 ac ym mis Ionawr 2015 a gwelwyd ar y tri achlysur eu bod dros y lefel gwariant a ragbennwyd.*

*Mae'r cartref yn cofnodi ar daflen pryd a phwy sydd wedi archebu'r feddyginiaeth, gwirio presgripsiwn a gwirio'r feddyginiaeth a dderbynnir. Nid oedd cofnod cyflawn ar gyfer y feddyginiaeth a archebwyd ym mis Mawrth ac Ebrill 2015.*

*Mae'n ofynnol bod dau aelod o staff yn cofnodi eu bod wedi derbyn y feddyginiaeth ar y daflen MAR (Medication Administration Record). Gwiriwyd sampl o 5 taflen MAR a gwelwyd bod dau lofnod derbyn ar gyfer meddyginiaeth ar 4 o'r taflenni yma.*

*Eglurwyd fel rhan o reoli sicrwydd ansawdd y cartref, mae swyddog annibynnol yn ymweld â'r cartref yn gyfnodol i wirio trefniadau meddyginiaeth y Cartref. Ar adeg yr archwiliad nid oedd trefniadau'r cartref yn dderbyniol, gyda phwyntiau gweithredu wedi eu nodi fel materion brys. Mae trefniadau ar gyfer ail ymweld â'r Cartref i gynnal adolygiad annibynnol pellach wedi ei gynllunio er mwyn sicrhau bod trefniadau yn gwella.*

2.5.2 Croesawyd Meinir Jones, Rheolwr Plas y Don ac Elen Jones, Rheolwr Ardal Meirionnydd, o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i'r cyfarfod.

2.5.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio yn sgil y penderfyniad i archwilio'r cartrefi preswyl mewn cylch o dair blynedd. Dywedodd bod y trefniadau ariannol o safbwynt gweithdrefnau archebu a phrosesau gweinyddol meddyginiaeth yn broblemus ond pwysleisiodd nad oedd derbyn barn “C” ar y trefniadau hyn yn golygu o reidrwydd bod ansawdd y gofal yn wael.

2.5.4 Mynegodd Rheolwr Ardal Meirionnydd, bod Meinir Jones, Rheolwr Plas y Don yn reolwr newydd a bod llawer o faterion angen eu cyfarch yn y Cartref pan gychwynnodd yn y swydd ond ei bod wedi rhoi sylw i nifer ohonynt ar unwaith.

2.5.5 Eglurodd Rheolwr Plas y Don bod llawer o broblemau wedi bodoli o safbwynt gweinyddu meddyginiaeth a bod adolygiad wedi ei gynnwys ar sail fisol hyd y gwelwyd bod y trefniadau wedi gwella. Eglurwyd bod Dirprwy Reolwr Plas Hafan wedi cynorthwyo ym Mhlas y Don am gyfnod o dri mis. Ymholodd Aelod faint o staff sydd yn gymwys i ddyroddi meddyginiaeth. Atebodd Rheolwr Plas y Don bod oddeutu 12-15 o staff (yn cynnwys y staff nos) yn gymwys ar hyn o bryd.

2.5.6 Mynegodd y Rheolwr Ardal bod gorwariant ar gyllideb ‘Gweithwyr’ a bod hynny o ganlyniad i ymddeoliadau cynnar. Hefyd, ategodd nad oedd darpariaeth briodol yn y gyllideb ar gyfer gwasanaethu'r gwelyau, cadeiriau olwyn, teclynnau codi a.y.b. sydd yn ofynnol yn unol â gofynion Iechyd a Diogelwch. Eglurodd hefyd y gall yr elfen gwasanaethu ar gyfer rhai offer fod ynghlwm â’r pryniant. Eglurodd hefyd bod gwaredu gwastraff clinigol yn gostus.

2.5.7 Pwysleisiodd y Rheolwr Archwilio ei bod yn hanfodol bod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cofnodi eitemau personol y preswylwyr ynghyd â sicrhau bod derbynneb i gefnogi unrhyw wariant o’u harian personol. Eglurodd y Rheolwr Ardal bod Rheolwr Plas y Don wedi ail-edrych ar y cynlluniau gofal oedd mewn lle ac erbyn hyn fod gan pob preswylydd Weithiwr Allweddol sy’n gyfrifol am gadw rhestr eiddo personol, a thynnu a chadw lluniau o’r eitemau.

2.5.8 Ymholodd aelod beth wnaethpwyd yn sgil yr argymhelliad i wella’r trefniadau ar gyfer cadw allweddi’r ystafell feddyginiaeth. Mynegodd Rheolwr Plas y Don bod y mater wedi derbyn sylw’n syth yn dilyn rhyddhau’r adroddiad drafft a bod mynediad at feddyginiaeth bellach wedi ei gyfyngu.

2.5.9 Dywedodd Rheolwr Ardal Meirionnydd ei bod yn gwerthfawrogi’r cydweithio gydag Archwilio Mewnol a bod hynny yn bositif iawn.

2.5.10 Esboniodd y Rheolwr Archwilio bod y rhaglen archwilio ar gyfer cartrefi preswyl wedi ei haddasu ac y caiff ei dilyn ar gyfer archwiliadau a gynhelir yn 2016/17. Dywedodd y bydd llai o bwyslais ar elfennau megis rhestri stoc a chynnal gwiriadau stoc er mwyn gallu rhoi mwy o sylw i faterion megis hyfforddiant perthnasol a gweinyddiaeth meddyginiaeth.

**2.5.11 Diolchwyd i Reolwr Plas y Don a Rheolwr Ardal Meirionnydd am egluro’r sefyllfa gyfredol, y r trefniadau sydd eisoes yn weithredol a’r rhai sydd ar y gweill i wella gweithdrefnau.**

## 2.6 Plas Hedd, Bangor

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau’r archwiliad oedd:

*Yn ystod yr archwiliad darganfuwyd enghreifftiau o ymarfer da mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac o ganlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.*

*Roedd gwariant y cartref yn fwy na'r gyllideb a osodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15 yn y meysydd canlynol: gweithwyr; eiddo; trafnidiaeth; a gwasanaethau a chyflenwadau oherwydd rhesymau amrywiol megis salwch a gwyliau staff cytundebol yn arwain i orfu cyflogi staff achlysurol.*

*Detholwyd sampl o bymtheg anfoneb ac nid oedd archeb ynghlwm â 6 ohonynt. Nid oedd cost amcangyfrif wedi ei nodi ar yr archebion arhosol yn y sampl.*

*Cymerwyd sampl o daflenni 'eitemau personol' o Gynlluniau Gofal 4 o'r preswylwyr a'u gwirio yn erbyn rhestr y Rheolwr o eitemau personol y preswylwyr. Nid oeddynt yn cyd-fynd. Nid oedd y ffurflenni yn y Cynlluniau Gofal wedi eu dyddio na’u llofnodi i gadarnhau eu cynnwys.*

*Nid oedd cofnodion cyfrif mwynderau’r cartref yn gyflawn. Roedd rhai o’r archebion wedi eu cwblhau ar yr un diwrnod y derbyniwyd yr anfoneb. Oni bai am achosion brys, dylid sicrhau bod archeb yn cael ei pharatoi a’i hawdurdodi’n briodol i sicrhau bod trywydd archwilio digonol yn bodoli. Nid oedd y rhestr eiddo yn hollol gyfredol gan fod rhai eitemau wedi cael eu symud o'r ystafelloedd. Nid oedd y Cartref yn defnyddio trefn o farcio'r offer/dodrefn a brynwyd ychwaith.*

*Gwelwyd bod côd anghywir wedi ei gofnodi ar gais ad-daliad imprest (TR24). Nid oedd pob un o'r ffurflenni taleb arian mân (TR24b) a ddefnyddir ar gyfer gwariant heb dderbynneb swyddogol wedi eu hawdurdodi.*

*Nid oedd oriau gwyliau staff wedi eu cyfrifo'n gywir ym mhob achos ac o ganlyniad roedd sawl aelod o staff yn deilwng i fwy o oriau gwyliau nag oeddynt yn eu cael. Amlygwyd dau achos lle nad oedd y gwyliau wedi eu cofnodi’n gywir.*

*Mae'r cartref yn cofnodi ar daflen, pryd a phwy sydd wedi archebu meddyginiaeth, gwirio’r presgripsiwn a gwirio'r feddyginiaeth wrth ei dderbyn. Nid oedd y daflen wedi ei llofnodi ym mhob achos. Gwiriwyd y cofnod stoc (wythnosol) yn erbyn y taflenni 'non blisterpack medication' - nid oeddynt yn cyd-fynd. Roedd y nifer o feddyginiaeth yn weddill wedi ei gyfrifo'n anghywir. Gwelwyd bod y staff sydd yn cynnal y gwiriad stoc yn ymwybodol o hyn gan eu bod wedi nodi '9 missing' ar 26/07/2015.*

*Mae allweddi sbâr y cartref yn cael eu cadw yn y swyddfa, ond mae gan bob aelod o staff fynediad i’r swyddfa drwy fysellbad, sydd yn gwanhau'r rheolaeth dros yr allweddi yma.*

2.6.2 Croesawyd Carys Owen, Rheolwr Plas Hedd a Gwen Hughes, Rheolwr Ardal Arfon, o’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i’r cyfarfod.

2.6.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio yn sgil y penderfyniad i archwilio'r cartrefi preswyl mewn cylch o dair blynedd. Dywedodd bod y trefniadau ariannol o safbwynt gweithdrefnau archebu a thalu am nwyddau ynghyd â phrosesau gweinyddol meddyginiaeth gan gynnwys monitro tymheredd yr oergell yn broblemus ond pwysleisiodd nad oedd derbyn barn “C” ar y trefniadau hyn yn golygu o reidrwydd bod ansawdd y gofal yn wael.

2.6.4 Eglurodd y Rheolwr Ardal nad oedd cyllid ar gyfer hyfforddiant i staff serch y ffaith ei bod yn ofynnol bod pob aelod o staff yn mynychu 5 diwrnod o hyfforddiant yn flynyddol. I oresgyn y broblem hon, mae’r Uned Hyfforddi, Dysgu a Datblygu wedi cytuno i fynychu’r cartrefi i gynnal hyfforddiant a hefyd defnyddio mwy ar e-ddysgu a fydd hefyd yn gymorth i leihau ar y gyllideb costau teithio.

2.6.5 Mynegodd y Rheolwr Ardal bod Rheolwr Plas Hedd yn gefnogol iawn o’r staff. Eglurodd bod materion megis salwch tymor hir yn cael effaith ar y gyllideb a bod gorwariant ar gyfer 2015/16 yn oddeutu £6k.

2.6.6 Ymholodd Aelod pa gamau oedd wedi eu cymryd i warchod eitemau personol y preswylwyr. Eglurodd y swyddogion eu bod bellach wedi llunio rhestr ar gyfer pob preswylydd ac yn defnyddio llechen i dynnu llun yr eitem a bod y gweithwyr allweddol yn cadw golwg ar y sefyllfa.

2.6.7 Eglurwyd gan y swyddogion bod staff y cartref yn derbyn hyfforddiant ar feddyginiaeth gan fferyllydd a bod y staff yn cael eu monitro’n gyson ynghyd â gofyniad eu bod yn arwyddo i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y Polisi Meddyginiaeth. Eglurwyd hefyd bod oergell newydd wedi ei phrynu a bod y cyfrifoldeb am wirio bod y tymheredd yn gywir wedi ei ddynodi i’r staff nos.

2.6.8 Mynegodd y Rheolwr Ardal ei bod yn gwerthfawrogi gwaith Archwilio Mewnol a bod yr adroddiadau yn gymorth i wella’r gwsanaeth a bod presenoldeb y Rheolwr Cofrestredig yn y Gweithgor yn sicrhau perchnogaeth ar weithrediad.

**2.6.9 Diolchwyd i Reolwr Plas Hedd a Rheolwr Ardal Arfon am egluro’r sefyllfa gyfredol a’r trefniadau sydd ar y gweill i wella gweithdrefnau.**

## 2.7 Cynnal a Chadw Adeiladau a Safleoedd Priffyrdd

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Mae Cyngor Gwynedd yn berchen ar yr achrediadau System Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol a System Rheoli Amgylcheddol, 'BS OHSAS 18001' ac 'ISO 14001'.*

*Mae'r Uned Iechyd a Diogelwch yn ymweld â'r adeiladau/safleoedd ar sail reolaidd i gynnal archwiliadau i sicrhau bod yr adeiladau/safleoedd yn cydymffurfio gyda gofynion yr achrediadau. Mae'r Uned yn dilyn rhaglen archwilio sydd yn berthnasol i'w gofynion. Mae trefniadau wedi eu sefydlu er mwyn hysbysu'r swyddogion perthnasol o'r gwendidau a amlygwyd yn ystod yr archwiliad a threfniadau ar gyfer sicrhau bod gweithred yn digwydd i wella'r gwendidau. Caiff yr ardal lle cafodd y gwendid ei adnabod sylw yn yr archwiliad nesaf er mwyn sicrhau bod y weithred wedi bod yn llwyddiannus.*

*Yn ogystal â threfniadau'r uned mae archwilwyr allanol BSi yn ymweld â'r Adran ddwywaith y flwyddyn ac yn cynnal archwiliad cyfunol o safonau 'OHSAS 18001' ac 'ISO 14001'. Caiff adroddiad ei baratoi ar ôl pob ymweliad. Mae hyn yn rhan o archwiliad parhaol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r achrediadau.*

*Mae Rheolwyr Safle wedi eu penodi ar gyfer pob adeilad/safle sydd yn rhan o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Detholwyd sampl o safleoedd i'w harchwilio ar gyfer yr archwiliad a gwiriwyd y ffeiliau lleoliadau ar eu cyfer. Amlygwyd elfennau o ddyblygu yng ngwaith y Rheolwyr Safle mewn perthynas â'r ffeiliau lleoliadau e.e. nodwyd bod angen cwblhau'r ffurflen 'Arolwg Cylchol Cydymffurfiaeth Statudol' â'r 'Rhestr Wirio Archwiliadau Misol Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol' sydd yn cynnwys profion yn ymwneud â threfniadau tân. Yn ogystal, mae angen cwblhau dogfennau megis y Llyfr Log Tân.*

*Gwiriwyd archwiliadau misol a gaiff eu cwblhau ym mhob safle:- 'Rhestr Wirio Archwiliadau Misol Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol'. Mae'r rhestr wedi ei llunio er mwyn galluogi'r Rheolwyr Safle i adnabod unrhyw broblemau neu wendidau a gwneud newidiadau i'w gwella. Nid oedd un o'r safleoedd wedi bod yn cwblhau'r archwiliadau yn fisol fel yr angen oherwydd diffyg adnoddau staff am sawl mis. Fodd bynnag, ar adeg yr archwiliad roedd pob safle yn y sampl yn defnyddio'r rhestrau.*

*Nid oedd taflenni 'Arolwg Cylchol Cydymffurfiaeth Statudol' yn cael eu cwblhau ym mhob safle er bod y Rheolwr Safle yn ymwybodol ohonynt. Nododd un Rheolwr Safle bod rhai o'r profion yn cael eu cwblhau'n wythnosol ond nad oedd yn diweddaru'r daflen i gyd-fynd gyda hyn.*

*Mae posibilrwydd y gall gwendidau fel y rhai yma arwain at golli achrediad BSi a golygu goblygiadau difrifol i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol mewn perthynas â chontractau. Mae'r archwiliadau hyn yn rai statudol ac felly mae unrhyw ddiffyg neu fethiant i gydymffurfio gyda gofynion yn dor-cyfraith.*

2.7.2 Croesawyd Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol a John Edwards, Uwch Reolwr Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i'r cyfarfod.

2.7.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi ei gynnwys yng nghynllun archwilio 2015-16 ar gais y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol oherwydd bod yr Adran wedi adnabod yn eu hasesiadau risg bod hwn yn faes o risg uchel oherwydd yr effaith andwyol y buasai colli'r achrediadau yn ei gael ar y gwasanaeth.

2.7.4 Rhoddwyd cefndir i achrediadau'r BSI - British Standard Institution gan y swyddogion. Eglurwyd bod ennill yr achrediadau sicrwydd ansawdd am safon gwaith, materion amgylcheddol ac iechyd a diogelwch wedi cymryd llawer o amser dros y blynyddoedd.

2.7.5 Eglurwyd y cynhelir archwiliadau allanol gan y BSI oddeutu pob 6 mis ynghyd ag archwiliadau mewnol gan y Gwasanaeth Priffyrdd. Dywedodd yr Uwch Reolwr bod un archwiliad gan y BSI wedi darganfod "major non-conformance" o ganlyniad i archwiliad trydanol. Bu i archwilydd y BSI ail-ymweld ychydig dros fis yn ddiweddarach ac yn fodlon i gau'r "non-Conformance".

2.7.6 Eglurodd y swyddogion bod tîm mewnol o dan arweiniad y Peiriannydd Cynorthwyol Sicrwydd Ansawdd Amgylcheddol yn cynnal archwiliad yn fisol ar un safle ar sail fisol a bod rhaglen tair blynedd wedi ei sefydlu - ond nad oedd yr archwiliadau yn cynnwys tân, asbestos na legionella oherwydd mai cyfrifoldeb y Gwasanaeth Eiddo yw'r elfennau hyn.

2.7.7 Ymholodd Aelod sawl safle oedd ym mherchnogaeth yr Adran. Atebodd y swyddogion drwy egluro bod sawl safle ar draws y sir gyda nifer o safleoedd llai eu maint yn ardal Meirionnydd ond hefyd bod ganddynt safle yn Ynys Môn oherwydd mai Cyngor Gwynedd sydd â chytundeb yr A55 o Landygai i Gaergybi.

2.7.8 Eglurodd y swyddogion eu bod yn defnyddio rhestr wirio statudol ar gyfer cynnal yr archwiliadau mewnol ond nad oedd pob elfen yn berthnasol ar gyfer pob safle.

2.7.9 Dywedodd Aelodau'r Gweithgor eu bod wedi mwynhau derbyn y cefndir i ennill yr achrediadau a'r pwysigrwydd i gynnal y safonau. Hefyd mynegwyd nad oedd digon o glod a chanmoliaeth yn cael ei roi i'r Adran a'r Cyngor ar eu llwyddiant.

**2.7.10 Diolchwyd i Bennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd am fynychu'r gweithgor ac am amlinellu pwysigrwydd yr achrediadau ynghyd â'r datblygiadau ers rhyddhau'r adroddiad archwilio.**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **5 MAI 2016** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2016** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2016 hyd at 31 Mawrth 2016.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2016:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 26 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |
| Archwiliadau Ymatebol | 2 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2016, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Diogelu – Ymwybyddiaeth Staff o'r Polisi | Corfforaethol | | B | Atodiad 1 |
| Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion – Gwasanaethau Risg Uchel | Corfforaethol | | B | Atodiad 2 |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol – Defnydd o Lungopiwyr mewn Ysgolion | Corfforaethol | | D/B | Atodiad 3 |
| Telerau Contractau - Trefniadau Diogelu | Corfforaethol | | B | Atodiad 4 |
| Llywodraethu Gwybodaeth – Deddf Diogelu Data | Corfforaethol | | B | Atodiad 5 |
| Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 6 |
| Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd – Ysgol Ardudwy | Addysg | Arlwyo | C | Atodiad 7 |
| Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd – Ysgol y Gader | Addysg | Arlwyo | C | Atodiad 8 |
| Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd – Ysgol y Moelwyn | Addysg | Arlwyo | B | Atodiad 9 |
| Modelu'r Gweithlu – Ysgol Llangybi | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 10 |
| Modelu'r Gweithlu – Ysgol Llanbedr | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 11 |
| Hyfforddi a Datblygu Aelodau | Cefnogaeth Gorfforaethol | Democratiaeth | B | Atodiad 12 |
| Ysgolion – Iechyd a Diogelwch Ymweliadau Addysgol | Cefnogaeth Gorfforaethol | Iechyd a Diogelwch | B | Atodiad 13 |
| System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 14 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| System Taliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 15 |
| Cysoni Banc – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 16 |
| System Gyflogau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 17 |
| Cronfa Bensiwn – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | B | Atodiad 18 |
| Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 19 |
| Treth Cyngor – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 20 |
| Trethi Busnes – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 21 |
| Seiberddiogelwch (Cybersecurity) | Cyllid | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 22 |
| Trefniadau Wrth Gefn a Phrosesau Adfer TG | Cyllid | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 23 |
| Rhaglenni Hyfforddiant – Gweithwyr Gofal | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Ar draws yr Adran | B | Atodiad 24 |
| Arolygiadau | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | B | Atodiad 25 |
| Incwm Meysydd Parcio | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | B | Atodiad 26 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

**2.3 Archwiliadau Dilyniant**

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Diogelwch – Gweithio'n Unig Swyddi | Corfforaethol | - | Derbyniol |
| Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | Economi a Chymuned | Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau | Rhagorol |
| Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Gofal Cymunedol | Rhagorol |

2.3.2 Gosodir gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** - pob un o'r argymhellion wedi ei gweithredu yn unol â'r disgwyl.
**Derbyniol** - y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.
**Anfoddhaol** - nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.
**Annerbyniol** - y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb ei gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2016**
Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi
Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG
Trafnidiaeth Gyhoeddus
Taliadau Cymorth Cyntaf

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2016**
Canolfan Hamdden Plas Ffrancon
Cefn Rodyn

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2016**
Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd – Ysgol Ardudwy
Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd – Ysgol y Gader

**2.4 Archwiliadau Ymatebol**

2.4.1 **Cyfrifon Imprest – Tai gyda Chefnogaeth** – Cynhaliwyd archwiliad ymatebol ar gyfrifon imprest dau o'r tai â chefnogaeth yn sgil methiant i gyflwyno ceisiadau am ad-daliad yn amserol sydd yn groes i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor. Ar adeg yr archwiliad, darganfuwyd bod y ceisiadau olaf a wnaethpwyd am ad-daliadau wedi eu cyflwyno ym mis Rhagfyr 2014 ond bod ceisiadau hyd Rhagfyr 2015 wedi eu paratoi ond heb eu hardystio na'u cyflwyno ar adeg yr archwiliad. Golyga hyn fod balansau y cyfrifon imprest hyn wedi mynd i'r 'coch' yn sylweddol. Ni ddarganfuwyd colledion/twyll yn deillio o'r gwendid rheolaeth hyn.

2.4.2 **Digwyddiad yn Storiel** - Adroddwyd i Archwilio Mewnol ym mis Mawrth bod arian wedi mynd ar goll o sefydliad Storiel (Amgueddfa ac Oriel Gwynedd). Ymwelwyd â Storiel i wirio eu trefniadau gweinyddu a diogelu incwm. Gwelwyd nad oedd trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer bancio yr incwm ac na gedwir yr arian mewn diogell ar bob achlysur. Yn ogystal, gwelwyd bod y bysellbad yn cael ei gadw ar "latch" yn hytrach na'i gloi, sy'n golygu y gall rhywun gael mynediad i'r swyddfa. Mae Archwilio Mewnol eisoes wedi ail-ymweld â Storiel i gynorthwyo'r swyddogion i sefydlu trefniadau ar gyfer derbyn, cadw a bancio incwm.

**3. GWAITH AR Y GWEILL**

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Ebrill 2016.

- Modelu'r Gweithlu – Ysgol Llanllechid – cytunwyd i oedi'r archwiliad ar gais y Pennaeth oherwydd ymweliad arolygwyr Estyn â'r ysgol ym mis Mawrth.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2016 hyd at 31 Mawrth 2016, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

Atodiad 1

**TREFNIADAU DIOGELU - YMWYBYDDIAETH STAFF AC AELODAU O'R POLISI**
**Corfforaethol**

Cefndir

Un o brif flaenoriaethau Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn diogelu plant ac oedolion. Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb i bawb sy'n cynrychioli neu'n gweithio ar ran y Cyngor, ac felly disgwylir i bob Cynghorydd, pob aelod o staff, pob gwirfoddolwr a phob darparwr gwasanaeth ar gytundeb i weithredu'n briodol os oes amheuaeth neu os mynegir pryder fod cam-drin yn digwydd. Mae'r "Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus" a'i atodiadau yn ddatganiad clir o'r ymrwymiad i sicrhau bod cefnogaeth a chynhaliaeth briodol yn ei le er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw.

Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth gweithwyr ac Aelodau'r Cyngor am y Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, drwy ddylunio a dosbarthu holiaduron i weithwyr ac Aelodau'r Cyngor, yn ogystal â chynnal trafodaethau gyda gweithwyr maes.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd y ffaith bod ymwybyddiaeth gweithwyr ac Aelodau'r Cyngor o'r Polisi yn uchel. Calonogol oedd derbyn ymateb cryf i'r holiadur, ac roedd hyn ar y cyd â natur yr ymatebion yn adlewyrchu ymroddiad y Cyngor tuag at ddiogelu plant ac oedolion bregus. Fodd bynnag, darganfuwyd hefyd fod lle i gryfhau ymwybyddiaeth ymhellach yn enwedig sicrhau bod Rheolwyr Dynodedig yr Adrannau yn glir i bawb.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ymwybyddiaeth o Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau diogelu, yn enwedig ymysg gweithwyr maes.**

Atodiad 2

**RHODDION A LLETYGARWCH SWYDDOGION**
**Corfforaethol**

Cefndir

Cynhaliwyd archwiliad 'Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion' ym mis Awst 2014 er mwyn sicrhau bod swyddogion yn cydymffurfio â Pholisi Rhoddion a Lletygarwch y Cyngor drwy gofrestru pob cynnig, os derbynnir neu os gwrthodir ef (heblaw ble nodir eithriad penodol yn y polisi) a bod trefniadau mewnol priodol yn bodoli dros gynnal a diweddaru'r gofrestr. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad archwilio yma yng nghyfarfod y Gweithgor Gwella Rheolaethau a gynhaliwyd ar y 14 Tachwedd 2014 a "*nodwyd y gallai gofal cartref (fod) yn faes o risg, fydd angen sylw yn y dyfodol o bosib*".

Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod swyddogion o wasanaeth risg uchel yn cydymffurfio â Pholisi Rhoddion a Lletygarwch y Cyngor drwy gofrestru pob cynnig, os derbynnir neu os gwrthodir ef, (heblaw ble nodir eithriad penodol yn y Polisi), a bod trefniadau mewnol priodol yn bodoli dros gynnal a diweddaru'r gofrestr. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal trafodaethau gyda sampl o weithwyr Gofal Cymunedol, er mwyn darganfod eu hymwybyddiaeth o'r polisi ac egwyddor Rhoddion a Lletygarwch.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae trefniant hanesyddol o fewn gwasanaethau'r cyn-Adran Darparu a Hamdden i weithwyr arwyddo eu bod wedi darllen a derbyn y Polisi Rhoddion a Lletygarwch. Mae modd i weithwyr swyddfa'r Cyngor wneud hyn yn electroneg drwy'r Ganolfan Bolisi (er yn ôl yr ystadegau, dim ond 10 sydd wedi gwneud hynny). Gan fod Gofalwyr Cymunedol am fabwysiadu PDAs (Personal Digital Assistant) yn y dyfodol agos, buasai'n fuddiol petai ganddynt fynediad at bolisïau perthnasol drwy'r ddyfais e.e. drwy'r Ganolfan Bolisi neu e-bost y Cyngor.

Oni bai am y posibilrwydd o ddangos ffafriaeth i'r cleientiaid sy'n cynnig rhodd i'r Gofalwyr, nid oes risg sylweddol o rodd yn arwain at ddylanwadu penderfyniadau'r Gofalwyr, ond er gwaethaf diniweidrwydd rhoddion o ddiolch mae cyhuddiadau o gamymddwyn yn bosib iawn gan ystyried pa mor fregus gall y cleientiaid fod a'r argraff gall gymryd rhodd ganddynt, yn enwedig arian, ei roi ar deulu neu'r cyhoedd.

Wrth gynnal trafodaethau gyda'r Gofalwyr, darganfuwyd eu bod yn unfrydol ymwybodol o egwyddor a'r goblygiadau sydd ynghlwm i dderbyn rhodd gan gleient. Dangoswyd dealltwriaeth y gallai dderbyn rhodd, yn enwedig rhodd ariannol gan unigolyn bregus, arwain at y posibilrwydd o ymddangos yn amhriodol. O'r Gofalwyr ymholwyd, mynegodd oddeutu hanner ohonynt nad ydynt erioed wedi cael cynnig rhodd gan gleient. Mynegodd y gweddill eu bod wedi cael cynnig rhodd, e.e. siocled neu swm bach o arian, a hynny fel rheol amser y Nadolig. Mae'r polisi yn nodi:

*"Cynigir rhoddion bychan (yn aml yn dymhorol) megis beiros, dyddiaduron a chalendrau gan gwmnïau fel arfer. Gellir derbyn y rhain heb ofyn caniatâd uwch swyddog na'u cofrestru. Nid oes rhaid dod o hyd i union werth rhodd o'r fath ond os yw'n yn ymddangos yn werth mwy na £10 yna dylid ei wrthod."*

Wrth holi petai rhodd o siocled wedi ei dderbyn, atebion cymysg a dderbyniwyd. Roedd rhai o'r farn bod angen gwrthod ymhob achos ac eraill, gan ystyried gwerth isel y rhodd, yn penderfynu ei dderbyn, a hynny rhag ofn y buasai gwrthod yn creu drwg deimlad. Ymhob achos, mynegwyd yr hysbyswyd eu Goruchwyliwr. O ran cynnig rhodd o arian, mynegodd pob Gofalwr eu bod wedi gwrthod, oni bai petai y rhodd wedi dod gan deulu'r cleient, sef unigolion sydd ddim yn 'fregus'.

Trafodwyd trefniadau cartrefi preswyl yng nghyfarfod y Gweithgor Gwella Rheolaethau yn ogystal, a mynegir bod y cartrefi yn cadw cofrestrau rhoddion eu hunain. Wrth ymweld â sampl o gartrefi (fel rhan o archwiliadau amserol), gwelwyd bod amryw o'r cofrestrau yn wag. Nid oes modd cadarnhau os ydi'r cartrefi yn dilyn y drefn gywir gan fod y posibilrwydd nad oes rhoddion wedi eu cynnig. Fodd bynnag, dengys cofrestrau hanesyddol y cartrefi (fel rhan o gofnodion Rhoddion a Lletygarwch y Cyngor) bod tueddiad i weithwyr cartrefi dderbyn rhoddion, sy'n awgrymu nad yw'r trefniadau cofnodi mor gadarn â'r hyn oeddynt yn y gorffennol.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau cofnodi Rhoddion a Lletygarwch gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried dulliau o gylchredeg polisïau yn electroneg i'r Gofalwyr drwy'r PDAs.**
- **Dylid sicrhau bod cofrestrau Rhoddion a Lletygarwch Cartrefi Preswyl yn cael eu cyflwyno i'r Swyddog Monitro.**

**GWAITH ATAL TWYLL AC ATAL LLYGREDIGAETH RHAGWEITHIOL**
**DEFNYDD O LUNGOPIWYR MEWN YSGOLION**
**Corfforaethol**

Cefndir

Yn dilyn cyflwyno argraffyddion amlbwrpas newydd ym mhrif swyddfeydd y Cyngor, penderfynwyd cynnal arolygiad i wirio a chymharu lefelau gwariant argraffu o fewn Ysgolion Gwynedd.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd gwirio a chymharu lefelau gwariant argraffu Ysgolion Gwynedd yn ystod blwyddyn Ysgol 2014-15.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r cyfriflyfr am wariant Ysgolion Gwynedd ar argraffu o fewn yr Ysgol, megis taliadau ar gyfer lesu peiriannau argraffu, taliadau cynnal a chadw peiriannau argraffu, deunyddiau megis inc a phapur a darlleniadau mesurydd ayyb.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwiriwyd y cyfriflyfr am holl wariant Ysgolion Gwynedd ar godau gwariant argraffu rhwng mis Medi 2014 a Awst 2015 ac yna cyfrifwyd gwariant pob Ysgol unigol fesul disgybl (ar sail cyfrifiad blynyddol Ysgolion mis Medi 2014). Gwelwyd bod amrediad eang o gostau y pen ymysg yr Ysgolion. Gan fod costau sefydlog peiriannau argraffu yn gallu bod yn uchel (megis costau llesu, cynnal a chadw ayyb), wrth reswm, bydd Ysgolion gyda niferoedd uchel o blant yn elwa o 'economies of scale' o gymharu ag Ysgolion llai. Mae pob Ysgol yn gorfod ariannu'r costau sefydlog, felly bydd cost y pen yn llai i'r Ysgolion gyda mwy o blant. Gwelwyd mai costau lesu sy'n gwneud i fyny y rhan helaeth o gostau argraffu'r Ysgolion, ond gan nad oes modd gwahaniaethu rhwng costau sefydlog a costau amrywiol heb archwilio'r cannoedd o anfonebau a broseswyd, nid tasg hawdd yw dadansoddi'r defnydd dydd i ddydd a wneir o'r argraffyddion.

Yn gyffredinol, gwelwyd fod yr Ysgolion yn cydnabod yr angen i adolygu eu trefniadau llungopïo ar gyfer lleihau costau yn y dyfodol, a bod rhai o'r Ysgolion wedi bod yn ymwybodol o'u costau uchel cyn yr archwiliad hwn ac wedi cynnal ymchwiliadau rhagweithiol i ddarganfod y rhesymau dros hynny. Fodd bynnag, ymddengys mai'r prif broblem oedd y ffaith bod yr Ysgolion wedi ymrwymo i gytundebau hirdymor gyda'r cwmnïau lesu, heb werthfawrogi yn llawn y costau a'r telerau ynghlwm iddynt, boed un ai wrth ymestyn cytundeb neu wrth drosglwyddo o un cwmni i'r llall. Derbyniwyd enghreifftiau o Ysgolion yn talu biliau oedd yn gorgyffwrdd â biliau eraill, yn ogystal ag am offer oedd wedi eu dychwelyd. Mynegodd yr Ysgolion eu bod wedi cael trafferth hawlio'r arian yn ôl gan y cwmniau ym mhob achos.

Mae gan yr Ysgolion drefniadau a chytundebau llungopïo eu hunain, ac oherwydd bod y gyllideb a'r cyfrifoldeb wedi ei ddatganoli i'r Ysgolion, ni ellir ystyried canoli'r drefn drwy benodi un darparwr ar draws y Cyngor a defnyddio arbenigwyr caffael i reoli'r cytundeb.

Fodd bynnag, buasai'n fuddiol codi ymwybyddiaeth y Penaethiaid a'r Cyrff Llywodraethol o'r camau y dylid eu cymryd, a'r agweddau i'w hystyried, cyn ymrwymo i gytundeb hirdymor a chostus megis les llungopïo. Darganfuwyd fod ymarferiad o'r fath wedi ei gynnal peth amser yn ôl ble darparwyd taflen wybodaeth i'r Penaethiaid, a chytunodd swyddogion yr Adran Addysg ei fod bellach yn amserol i'w ail gyflwyno, a hynny ar ben cynnal trafodaethau yn y Cyfarfodydd Busnes Ardal ar y mater. Bydd yr ymarferiad yma yn berthnasol i bob Ysgol, nid yn unig y rhai amlygwyd fel y mwyaf costus y pen, oherwydd mae posibilrwydd bod Penaethiaid newydd neu aelodau Corff Llywodraethol wedi eu penodi ers arwyddo'r les diwethaf, yn ogystal â'r ffaith y gall cam-godio anfonebau arwain at fethiant i amlygu'r Ysgol  fel un costus, boed yn yr adroddiad yma, neu mewn adroddiadau cyllidebol. Mae prif argymhellion yr archwiliad fel a ganlyn:

- **Dylid codi ymwybyddiaeth Ysgolion o'r agweddau i'w hystyried cyn ymrwymo i gytundeb les llungopïo drwy ddarparu taflen gwybodaeth a chynnal sesiwn penodol yn y Cyfarfodydd Busnes Ardal.**
- **Dylid annog yr Ysgol i gysylltu â Swyddogion penodol o fewn y Cyngor petai ganddynt bryder am eu cytundebau neu ddarparwr.**
- **Buasai'n ymarfer da i annog yr Ysgolion i wirio eu hanfonebau yn drylwyr, gan gynnwys dyddiadau, costau a'r offer y telir amdanynt, yn ogystal â monitro eu costau llungopïo yn barhaus er mwyn adnabod unrhyw broblemau.**
- **Yn sgil costau sefydlog sylweddol megis taliadau les, dylai Ysgolion ystyried pe bai'n fuddiol lleihau'r nifer o lungopiwyr sydd yn yr Ysgol, os oes ganddynt fwy nag un.**

Atodiad 4

**TELERAU CONTRACTAU – TREFNIADAU DIOGELU**
**Corfforaethol**

Cefndir

Diweddarwyd y Llawlyfr Caffael ym mis Mai 2015 mewn perthnasedd â threfniadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Caiff contractau eu rhannu yn ddau gategori sef, contractau ar gyfer Gweithgareddau Rheoledig a chontractau nad ydynt yn ymwneud â Gweithgareddau Rheoledig. Mae 'Gweithgaredd Reoledig' mewn perthynas â phlant yn weithgaredd sydd yn cael ei gynnal yn rheolaidd, mae'n *"derm a ddiffinnir mewn cyfraith ag a ddefnyddir i ddisgrifio gweithgaredd sy'n ymwneud â gweithio hefo plant, bo hynny mewn capasiti gyda thal neu'n ddi-dâl."* (1.6 Polisi Datgelu Troseddau a Gwirio Cofnodion Troseddol).

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod trefniadau cytundebol cadarn ar waith lle mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu neu'n rheoleiddio gwaith gyda phlant / phobl ifanc ac oedolion bregus oddi wrth asiantaeth / cyrff eraill.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd sampl o wasanaethau lle mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu neu'n rheoleiddio gwaith gyda phlant / phobl ifanc ac oedolion bregus oddi wrth asiantaethau / cyrff eraill a gwirio bod trefniadau a chanllawiau ynglŷn â chynnal gwiriadau DBS yn gadarn ac yn weithredol ganddynt.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn dilyn diweddariad y Llawlyfr Caffael ym mis Mai 2015 mewn perthnasedd â threfniadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, mynegodd mwyafrif o Uwch Reolwr a Rheolwyr a ymholwyd eu bod yn ymwybodol o'r diweddariad, ond nad oedd pob un ohonynt wedi cael achos i'w defnyddio. Fodd bynnag, dim ond 29% o’r Uwch Reolwyr/Rheolwyr a wnaeth ymateb i'r ymholiad, ac felly nid oedd modd cael darlun cyflawn o ymwybyddiaeth swyddogion.

Yn yr un modd ymholwyd swyddogion perthnasol ym mha fath o gytundebau y disgwylir bod gwiriadau DBS yn cael eu cynnal ar staff. Eto roedd yr ymatebion yn amrywio, ond yn gyffredinol roedd ymwybyddiaeth o’r angen, ac o ble i gael gwybodaeth bellach.

Pwysleisir yn y Llawlyfr Caffael bod angen nodi'n glir y goblygiadau o beidio cydymffurfio gyda chael gwiriadau DBS. Gwelwyd bod cymalau perthnasol wedi eu cynnwys yng nghytundebau’r sampl a ddetholwyd o ran trefniadau recriwtio, ond nid oedd trefniadau ar gyfer derbyn tystiolaeth ym mhob achos. Gwelwyd bod gwaith monitro yn cael ei gynnal ar gyfer y sampl ond bod y trefniadau yma’n amrywio, e.e. mae gan y gwasanaeth oedolion raglen eang ar gyfer monitro cytundebau gofal cartref a chartrefi gofal nyrsio sydd yn cael ei weithredu’n flynyddol a derbynnir adroddiadau monitro hanner blwyddyn ar gyfer cytundebau trydydd parti.

Mae’r gwasanaeth cludiant yn gwobrwyo cytundebau yn seiliedig ar y wybodaeth mae’r darparwyr yn ei gyflwyno. Caiff yr elfennau yma eu monitro yn ogystal â gwiriadau DBS. Mae system bwrpasol mewn lle ar gyfer cofnodi ceisiadau a gwiriadau DBS sydd yn cael eu cydlofnodi gan swyddogion y Cyngor.

Gwiriwyd cytundebau'r sampl am amod fod y darparwyr yn hysbysu'r Cyngor yn amserol am unrhyw newidiadau a gwelwyd bod y cymalau wedi eu cynnwys. Nid oedd cymal tebyg yn un o'r cytundebau yn y sampl, ond gwelwyd bod trefniadau ar y gweill i ddiweddaru contractau'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y cymal perthnasol yn cael ei gynnwys.

Ar gyfer y sampl o gytundebau a wiriwyd nid yw'r Cyngor yn derbyn rhestr reolaidd o staff y darparwyr. Nodir yn y Llawlyfr Caffael gydag unrhyw gontract sy'n ymwneud â gweithgaredd rheoledig dylai Rheolwr y Contract hwnnw fod yn gadarn fod ganddo'r wybodaeth am unrhyw newid yn y personél sy'n darparu'r contract.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Nhelerau Contractau – Trefniadau Diogelu gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel y ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod holl swyddogion perthnasol y Cyngor yn ymwybodol o'r canllawiau sydd wedi eu darparu ynglŷn â pha gytundebau ddylai gynnwys yr angen i ofyn am wiriadau DBS ar staff y darparwyr.**
- **Dylid cynnwys cymal perthnasol yn y cytundebau lle bo'r angen i esbonio'r goblygiadau o beidio cydymffurfio gyda chael gwiriadau DBS.**
- **Dylid ystyried cael trefn gorfforaethol sy'n rhoi cysondeb i drefniadau monitro cytundebau gyda darparwyr, ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys trefniadau recriwtio, gwiriadau DBS a thystiolaeth o fynychu hyfforddiant diogelu.**
- **Dylid ystyried dderbyn rhestr o'r gweithwyr sy'n ymgymryd â'r gwaith perthnasol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn gywir.**

Atodiad 5

## LLYWODRAETHU GWYBODAETH - DEDDF DIOGELU DATA
## Corfforaethol

Cefndir

Mae'r Cyngor yn gwneud cryn ddefnydd o wybodaeth bersonol yn ei holl feysydd gwaith. Fel rhan o Ddeddf Diogelu Data 1998, mae dyletswydd ar y Cyngor, yn fras, i:

- Gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel
- Sicrhau fod y wybodaeth y cael ei defnyddio mewn ffordd briodol
- Sicrhau fod yr unigolyn yn gwybod beth mae sefydliadau yn ei wneud a'i wybodaeth bersonol
- Sicrhau caniatâd yr unigolyn ac eithrio mewn achosion arbennig
- Sicrhau cywirdeb
- Gorfodi set o egwyddorion ar gyfer prosesu gwybodaeth o'r fath.

Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar yr unigolyn yn ogystal â'r Awdurdod. Mae'n bosibl i aelod unigol o staff gael ei erlyn am fethu cydymffurfio â'r Ddeddf. Fel rhan o'i gyflogaeth gyda Chyngor Gwynedd, mae disgwyl i bob aelod o staff fod yn gyfarwydd â'i gyfrifoldebau Diogelu Data ac ymdrin â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf.

Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yw gwirio cydymffurfiaeth y Cyngor gyda gofynion deddfau diogelu gwybodaeth drwy ymweld â sampl o ystafelloedd ar draws y Cyngor gan wirio eu trefniadau llywodraethu gwybodaeth sydd ar bapur ac yn electroneg ynghyd â mynediad at ffeiliau, ystafelloedd a.y.b.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae'r archwiliad o'r farn bod y Cyngor wedi cymryd camau priodol i godi ymwybyddiaeth swyddogion o'r angen i ddiogelu gwybodaeth. Gwelwyd fod polisïau wedi eu llunio a bod hyfforddiant mewnol 'Rheoli Gwybodaeth' ar gael i holl swyddogion y Cyngor, gan gynnwys modiwlau ar safle e-ddysgu a'r Ganolfan Bolisi. Fodd bynnag, wrth wirio'r ystadegau o'r Ganolfan Bolisi, darganfuwyd bod y niferoedd sydd wedi darllen a derbyn y Polisïau perthnasol yn isel iawn**.** Gwelwyd yn ogystal fod posteri wedi eu gosod o gwmpas y prif swyddfeydd i atgoffa swyddogion am eu dyletswyddau mewn perthynas â diogelu data.

Fodd bynnag, er bod y trefniadau yma'n ymddangos yn briodol, mae gwir effeithiolrwydd y trefniadau yn ddibynnol ar ba mor llwyddiannus mae negeseuon yr Uned Wybodaeth yn cyrraedd y swyddogion fel eu bod yn rhan o'u meddylfryd ac felly sut maent yn gweithredu arnynt o ddydd i ddydd. Er mwyn gwirio cydymffurfiad swyddogion â gofynion y ddeddf, ymwelwyd â nifer o swyddfeydd wedi'r hwyr ble mae gwybodaeth sensitif yn cael ei gadw. Gwelwyd nifer o esiamplau o ymarfer da ble mae camau priodol wedi eu cymryd i ddiogelu gwybodaeth. Yn anffodus, nid oedd modd profi rhai agweddau, megis y rheolaeth dros ddiogelu data wrth drafod gwybodaeth ar lafar, yn ogystal â diogelwch a'r defnydd a wneir o ddyfeisiadau symudol sydd yn berchen y Cyngor (megis iPads), ond gwelwyd bod yr Uned TG wedi mabwysiadu trefniadau priodol i liniaru'r risgiau.

Wrth ymweld â'r swyddfeydd, gwelwyd sawl enghraifft ble mae swyddogion yn cadw eitemau ar eu desgiau dros nos. Mae'r rhain yn cynnwys gliniaduron (gwelwyd un ohonynt gyda'r cyfrinair wedi ei ysgrifennu arno), ffon symudol, cardiau adnabod a dogfennau (gan gynnwys manylion defnyddwyr gwasanaeth cymdeithasol).

Mae gwendidau yn nhrefniadau gwaredu gwastraff cyfrinachol eisoes wedi eu hadnabod o fewn y Cyngor. Disgwylir i wastraff cyfrinachol gael eu cadw mewn sachau coch penodol, a rheiny wedi eu cadw dan glo yn y swyddfeydd hyd nes iddynt gael eu gwaredu gan gwmni allanol.

Yn ystod misoedd yr Haf 2015, lleihawyd y nifer o argraffwyr yn swyddfeydd y Cyngor gan gynnwys cyfnewid yr argraffwyr oedd yn weddill gyda rhai newydd. Fodd bynnag, roedd sawl achlysur wedi dod i'r amlwg yn nyddiau cynnar yr argraffwyr ble argraffwyd dogfennau mewn swyddfa wahanol (gan gynnwys yn swyddfa Archwilio Mewnol) i'r swyddogion sydd eu perchen. Ymddengys felly bod rhai swyddogion o swyddfeydd eraill wedi anfon dogfennau i argraffwr anghywir heb yn wybyddus iddynt, a heb gyflwyno eu bathodynnau adnabod. Yn sgil y ffaith nad oes achos o hyn wedi digwydd ers peth amser bellach, derbynnir bod gweithrediad wedi bod ar y mater. Yn ogystal, wrth wirio sampl o argraffwyr ym Mhencadlys am ddogfennau argraffwyd ond heb eu hawlio, ni welwyd dim.

O safbwynt gwybodaeth electroneg, gwelwyd bod y Cyngor wedi cymryd camau priodol i ddiogelu gwybodaeth. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Cyngor dderbyn *IT Health Check* blynyddol gan gwmni annibynnol, er mwyn parhau i fod yn rhan o rwydwaith y sector cyhoeddus. Amcan y prawf iechyd yma yw ceisio darganfod gwendidau sy'n galluogi hacio'i mewn i systemau'r Cyngor a dwyn gwybodaeth. Gwelwyd bod y Cyngor wedi llwyddo yn y prawf iechyd yma.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor gan fod rheolaethau mewn lle i godi ymwybyddiaeth gweithwyr, ond nad yw hyn wedi atal rhai digwyddiadau sy'n peryglu diogelwch gwybodaeth rhag codi. Mae rhai agweddau angen sylw pellach yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod negeseuon yr Uned Gwybodaeth yn cyrraedd y gweithwyr ac yn cael eu gweithredu, gan gynnwys cynnal trafodaethau gyda staff ac ymweliadau i sefydliadau tu allan i brif swyddfeydd y Cyngor er mwyn gwirio eu dealltwriaeth. Bydd elfen ymwybyddiaeth staff swyddfa o ofynion y ddeddf yn cael ei ymgorffori fel rhan o gynllun archwilio 2016/17. Nid yw'n ymarferol cynnig argymhellion ar bob gwendid a ddarganfuwyd gan mai meddylfryd anghywir sydd wrth ei graidd. Fodd bynnag, mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth swyddogion o'r angen i ddiogelu gwybodaeth.**
- **Dylid annog mwy o weithwyr i ddarllen y Polisïau perthnasol ar y Ganolfan Bolisi.**
- **Ystyried cyflwyno system diogelwch ar ddrws blaen adeilad Plas Llanwnda er mwyn sicrhau mai dim ond swyddogion awdurdodedig a gaiff fynediad.**

**GRANT GWELLA ADDYSG AR GYFER YSGOLION**

**Addysg**

Cefndir

Ar 1af Ebrill 2015 bu i Lywodraeth Cymru gyfuno'r grantiau canlynol mewn un prif grant, a elwir yn Grant Gwella Addysg (GGA):

- Cyfnod Sylfaen
- Llwybrau Dysgu 14-19
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY)
- Grant y Gymraeg mewn Addysg
- Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr
- Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso
- Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch
- Ysgolion Arweiniol a Datblygol
- Cefnogaeth i Brofion Darllen a Rhifedd
- Cyllid i Ysgolion Band 4 a 5

Egwyddor craidd y grant yw bod y mwyafrif helaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth rheng flaen gydag amodau a thelerau'r grant 2015/16 yn nodi bod disgwyliad isafswm o gyfanswm y cyllid gros y grant o 80% yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu Grant Gwella Addysg 2015/16, er mwyn lliniaru risgiau yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

Cwmpas yr Archwiliad

Dethol sampl o daliadau ar ffurf anfonebau, siwrnalau a chyflogau a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant a sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Cadarnhau fod y canran priodol o'r cyllid gros wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod yr ysgolion yn cynnwys dadansoddiad o'u cyfanswm dyraniad GGA yng nghynlluniau datblygu'r ysgolion. Bod y swm priodol o'r arian grant wedi ei ddargadw ar gyfer pwrpas gweinyddiaeth, bod y cyfraniad arian cyfatebol priodol wedi ei wneud a bod trefniadau priodol ar gyfer hawlio cyllid y grant gan Lywodraeth Cymru.

Prif Ddarganfyddiadau

Ymddengys bod trefniadau da yn bodoli ar gyfer gweinyddu'r GGA. Gwelwyd bod y canran priodol o'r cyllid gros wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion, bod y canran priodol o'r arian grant wedi ei ddargadw ar gyfer pwrpas gweinyddiaeth a bod trefniadau priodol ar gyfer hawlio'r cyllid yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

Wrth archwilio samplau o daliadau yn ymwneud â'r grant a drefnwyd gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd a gan GwE, daethpwyd ar draws rhaid achosion lle nad oedd defnydd pob amser yn cael ei wneud o'r slipiau pinc (TR252b) ar gyfer talu anfonebau. Fel rheol mae disgwyliad bod y Cyngor yn cadw anfonebau neu unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â grantiau Llywodraeth Cymru hyd y bydd

Llywodraeth Cymru wedi eu hysbysu y gellir eu dinistrio, oherwydd hyn byddai'n well atodi slip codio pinc ar bob anfoneb sy'n ymwneud â'r GGA rhag ofn i'r anfonebau gael eu dinistrio cyn bo caniatâd wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i'w dinistrio.

Dylai bod dadansoddiad o gyfanswm dyraniad GGA yr ysgolion gael eu cynnwys yng nghynlluniau datblygu'r ysgolion. Archwiliwyd sampl o gynlluniau datblygu ysgolion uwchradd a chynradd Gwynedd i weld os oedd dadansoddiad ar ffurf cynlluniau gwariant ar gyfer y GGA wedi eu cynnwys ynddynt. Gwelwyd o'r sampl archwiliwyd bod trefn dda gan rhai ysgolion o gynnwys dadansoddiad manwl o'u cynlluniau gwariant GGA yn eu cynlluniau datblygu. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd pob un ysgol archwiliwyd wedi nodi dadansoddiad o gyfanswm eu dyraniad GGA yn eu cynlluniau datblygu, er hynny derbyniwyd cadarnhad bod yr ysgolion hynny wedi cyflwyno cynllun gwariant ar gyfer GGA i GwE ar ffurf templed pwrpasol.

Bu i GwE ddarparu templed pwrpasol ar gyfer ysgolion a oedd yn rhestru'r ystod o amcanion y GGA, er mwyn galluogi'r ysgolion i ddarparu dadansoddiad o holl ddyraniad eu GGA, ond bu ychydig o drafferth derbyn y rhain yn ôl gyda nifer o ysgolion Gwynedd ddim yn eu dychwelyd wedi eu cwblhau. Canlyniad hyn oedd bu raid i GwE anfon llythyr atgoffa allan yn hysbysu'r ysgolion os na fyddai'r templedi wedi eu cyflwyno i'r Ymgynghorwyr Her erbyn 12/02/16 yna byddai'n ofynnol i'r ysgolion ddarparu dadansoddiad llawn gan dracio gwariant presennol ar gyfer pob agwedd o'r grant. Os byddai unrhyw elfen ble nad oeddent yn medru profi gwariant yna byddai rhaid tynnu arian yn ôl oddi ar yr ysgolion. Deëllir na dderbyniwyd pob templed yn ôl erbyn 12/02/16 ychwaith, ond bellach yn dilyn ymyrraeth gan swyddogion Cyllid Cyngor Gwynedd a swyddogion GwE, mae bod pob un o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno eu cynllun gwariant GGA erbyn hyn.

Gwelwyd tystiolaeth bod GwE yn darparu arweiniad da i ysgolion Gwynedd ynghylch y GGA.

Mae cytundebau indemniad yn bodoli ar gyfer y 6 Awdurdod Gogledd Cymru ac wedi eu harwyddo gan uwch swyddogion priodol o bob un o'r Awdurdodau.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth y Grant Gwella Addysg gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod gwariant sydd yn ymwneud â'r grant drwy gyfrwng anfonebau yn cael ei fonitro yn briodol drwy ddefnyddio slipiau codio pinc (TR252b), er mwyn sicrhau bod tystiolaeth o'r gwariant yn cael ei gadw am y cyfnodau priodol.**
- **Dylid sicrhau bod pob ysgol yn darparu dadansoddiad o gyfanswm eu GGA yng Nghynllun Datblygu'r ysgol.**

Atodiad 7

**ARLWYAETH YSGOLION UWCHRADD - YSGOL ARDUDWY**
**Addysg**

Cefndir

Mae Ysgol Ardudwy yn ysgol uwchradd sirol sy'n darparu addysg i ddisgyblion 11-16 mlwydd oed. Lleolir yr ysgol yn nhref Harlech, gyda 279 o ddisgyblion ar y gofrestr ym Medi 2015. Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am reolaeth y gwasanaeth arlwyo ers Ebrill 2000.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gwerth am arian, safonau ansawdd ac atebolrwydd digonol yn cael eu cyflawni gan ysgolion uwchradd mewn perthynas â'u gwasanaeth arlwyo.

Cwmpas yr Archwiliad

Ymweld â'r ysgolion uwchradd sydd ddim yn rhan o gytundeb arlwyo safonol yr Adran Addysg, er mwyn gwirio trefniadau'r ysgolion parthed cydymffurfio â gofynion statudol, Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, rheolau iechyd a diogelwch a pholisïau perthnasol. Derbyn sicrwydd bod trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer diogelu staff a chwsmeriaid y gegin, a bod cyllidebau'n cael eu rheoli'n briodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod ymarferion da wedi eu sefydlu fel rhan o reolaeth y gwasanaeth arlwyo. Ymhlith y rhain y mae bodolaeth y fwydlen safonol, ynghyd â'r asesiad maeth Blas am Oes a gynhaliwyd fel rhan o'r broses o greu'r fwydlen honno. Gwelwyd hefyd fod llawlyfr pwrpasol wedi ei lunio ar gyfer staff y gegin, sy'n cynnwys canllawiau ar gyfer ymgymryd â'r gwahanol dasgau sydd yn rhan o'u dyletswyddau, ac mae ymwybyddiaeth dda i'w weld gan yr aelodau o staff perthnasol o safonau maeth y Llywodraeth ac egwyddorion rheoli cyllidebol a gwerth am arian.

Un o'r risgiau a adnabuwyd yw'r posibilrwydd na fyddai modd i'r ysgol olrhain i'r union fwyd a weinir pe byddai'r angen yn codi. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith nad oes log yn cael ei gadw o'r bwyd a weinir yn ddyddiol. Ystyrir bod y ffurflenni ble cofnodir tymereddau'r bwydydd sydd wedi eu coginio ac sydd â risg uchel iddynt yn rhywfaint o gofnod o'r hyn a weinir, ond byddai cadw cofnod llawn yn gwarchod yr ysgol pe byddai achos o wenwyn bwyd yn codi. Byddai hefyd yn rhoi tystiolaeth bod yr ysgol yn cadw at y fwydlen, a allai warchod yr ysgol ymhellach mewn achosion o'r fath. Gwelwyd hefyd nad oedd ryseitiau ar gael i gyd-fynd â'r bwydydd sydd yn cael eu paratoi a'u gweini. Y risg o ganlyniad yw na fyddai'r ysgol yn medru olrhain cynhwysion a diogelu disgyblion mewn perthynas ag alergeddau ac anoddefiad bwyd.

Gwelwyd bod labeli pwrpasol ar gael yn y gegin ar gyfer labelu bwydydd, ond cafwyd gwybod ar ddiwrnod yr archwiliad nad oeddynt wedi eu defnyddio'r diwrnod hwnnw. Y risg yma yw nad oes rheolaeth dros ba mor hir y cedwir gwahanol fwydydd, yn arbennig yr hyn a gedwir yn yr oergell, ac y gallai hynny arwain at achosion o wenwyn bwyd.

O ran cyflenwyr bwyd a diod, gwelwyd bod yr ysgol wedi eu dewis yn unol â rhestr contractau'r Cyngor, oni bai am un cyflenwr dŵr yfed a dau gyflenwr bwyd lleol. Os yw'r ysgol yn penderfynu defnyddio cyflenwr sydd ddim ar restr contractau'r Cyngor, yna rhaid derbyn sicrwydd gan y cyflenwr o'r gallu i wirio yn ôl i darddiad y bwyd, er mwyn sicrhau bod y bwyd yn ddiogel a hylan yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian.

Un pryder a amlygodd yn ystod yr archwiliad oedd mai dim ond ar gyfer un aelod o staff y gegin y cafwyd hyd i gontract cyflogaeth ar ei chyfer. Ers i'r ysgol ddewis peidio ag ymrwymo i gytundeb arlwyo'r Adran Addysg, cyfrifoldeb yr Adran honno oedd cynhyrchu a diwygio unrhyw gontractau gwaith. Mae hwn yn fater sydd wedi ei drafod ag aelodau o'r gwasanaeth perthnasol ac angen sylw brys. Fodd bynnag, derbyniwyd cadarnhad fod gwiriadau DBS wedi eu cynnal ar gyfer y staff.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Arlwyaeth Ysgolion – Ysgol Ardudwy gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried cadw cofnod o'r holl fwydydd y gweinir yn ddyddiol, ynghyd â chofnod o'u tymheredd wedi iddynt gael eu coginio.**
- **Dylid ystyried llunio llyfr ryseitiau ar gyfer y prydau a nodir ar y fwydlen.**
- **Dylid ystyried rhoi arweiniad ffurfiol i staff y gegin ar faterion sy'n ymwneud ag alergeddau bwyd, ac sydd wedi ei seilio ar reoliadau'r Llywodraeth.**
- **Dylid ystyried cadw cofnodion mwy ffurfiol ar gyfer monitro stoc y gegin, ble bo'n ymarferol, er mwyn medru adnabod unrhyw achosion o golli stoc.**
- **Dylid ystyried clustnodi'r tasgau glanhau a nodir yn llawlyfr y gwasanaeth arlwyo i aelodau penodol o staff.**
- **Dylid sicrhau bod bwydydd sydd wedi eu paratoi ac yn cael eu cadw (e.e. yn yr oergell) yn cael eu labelu'n briodol ar bob achlysur.**
- **Dylai'r Adran Addysg fod yn llunio contractau ar gyfer pob aelod o staff y gwasanaeth arlwyo yn dilyn eu penodiad, yn ogystal â sicrhau bod rhai wedi eu creu ar gyfer y staff cyfredol.**
- **Dylid adolygu'r asesiadau risg yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod parhau i fod yn addas, a'r cynnwys yn gyfredol.**
- **Dylid ystyried cadw nwyddau glanhau mewn ystorfa ar wahân i'r gegin.**

**ARLWYAETH YSGOLION UWCHRADD - YSGOL Y GADER**
**Addysg**

Cefndir
Mae Ysgol y Gader yn ysgol uwchradd sirol sy’n darparu addysg i ddisgyblion 11-16 mlwydd oed. Lleolir yr ysgol yn Nolgellau, gyda 346 disgybl ar y gofrestr ym Medi 2015. Corff Llywodraethol yr ysgol sy’n gyfrifol am reolaeth y gwasanaeth arlwyo ers Ebrill 2012, pan benodwyd Rheolwr Arlwyo i arwain ar y gwaith o reoli’r gwasanaeth.

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gwerth am arian, safonau ansawdd ac atebolrwydd digonol yn cael eu cyflawni gan ysgolion uwchradd mewn perthynas â’u gwasanaeth arlwyo.

Cwmpas yr Archwiliad
Ymweld â’r ysgolion uwchradd sydd ddim yn rhan o gytundeb arlwyo safonol yr Adran Addysg, er mwyn gwirio trefniadau'r ysgolion parthed cydymffurfio â gofynion statudol, Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, rheolau iechyd a diogelwch a pholisïau perthnasol. Derbyn sicrwydd bod trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer diogelu staff a chwsmeriaid y gegin, a bod cyllidebau’n cael eu rheoli yn briodol.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod arferion da yn cael eu cynnal fel rhan o reolaeth y gwasanaeth arlwyo, ond teimlir y gellir tynhau ar y trefniadau mewn rhai meysydd; er mwyn cryfhau’r rheolaethau sydd yn bodoli eisoes, ac i sefydlu rhai ychwanegol er mwyn rhoi sicrwydd bod yr ysgol a’r disgyblion yn cael eu gwarchod ac i sicrhau effeithiolrwydd y gwasanaeth.

Un o’r prif risgiau a adnabuwyd yn ystod yr archwiliad yw’r posibilrwydd na fyddai modd i’r ysgol olrhain i'r union fwyd a weinir pe byddai'r angen yn codi. Mae hyn o ganlyniad i’r ffaith nad oes log yn cael ei gadw o'r bwyd a weinir yn ddyddiol, ac na weinwyd y prydau a nodir ar y fwydlen ar ddiwrnod yr archwiliad. Nid yw’r bwydlenni ychwaith yn gyflawn gan nad oes pwdinau wedi eu cynnwys arnynt. Ystyrir bod y ffurflenni ble cofnodir tymereddau’r bwydydd sydd wedi eu coginio ac sydd â risg uchel iddynt yn rhywfaint o gofnod o'r hyn a weinir, ond y byddai cadw cofnod llawn yn gwarchod yr ysgol pe byddai achos o wenwyn bwyd yn codi. Byddai hefyd yn rhoi tystiolaeth bod yr ysgol yn cadw at y fwydlen, a allai warchod yr ysgol ymhellach mewn achosion o’r fath. O’r sampl o’r ffurflenni a archwiliwyd ble cofnodir y tymereddau, gwelwyd nad oeddent yn cyd-fynd â’r prydau a nodir ar y fwydlen. Roedd camgymeriad hefyd wedi ei wneud wrth gofnodi’r tymereddau, ble nad oedd y dyddiadau wedi eu cofnodi’n gywir ar gyfer 1 wythnos o fewn y sampl. O ganlyniad, cafwyd cymhlethdodau wrth geisio olrhain yr hyn a weinwyd ar y gwahanol ddyddiau. Gwelwyd fod camgymeriadau yn ogystal wrth gofnodi tymereddau’r rhewgelloedd, ble roedd y tymereddau’n ymddangos yn llawer iawn oerach na’r disgwyl, a allai roi’r argraff fod y rhewgell yn ddiffygiol.

Derbyniwyd cadarnhad fod bwydlen wedi ei gwirio o ran safonau maeth yn gymharol ddiweddar. Serch hynny, ni welir fod y bwydydd sydd wedi eu nodi ar y gwiriad yn cyfateb i'r hyn sydd wedi ei nodi ar y bwydlenni y derbyniwyd yn ystod yr archwiliad.

Nid yw mwyafrif y cyflenwyr bwyd a diod a ddefnyddir gan yr ysgol yn unol â rhestr contractau'r Cyngor. Os yw'r ysgol yn penderfynu defnyddio cyflenwr sydd ddim ar restr contractau'r Cyngor, dylid derbyn sicrwydd gan y cyflenwr o'r gallu i wirio yn ôl i darddiad y bwyd, er mwyn sicrhau bod y bwyd yn ddiogel a hylan yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian

Pryder arall a amlygwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd yn bosibl dod o hyd i gontractau cyflogaeth ar gyfer staff y gegin. Ers i'r ysgol ddewis peidio ag ymrwymo i gytundeb arlwyo'r Adran Addysg, cyfrifoldeb yr Adran honno oedd cynhyrchu a diwygio unrhyw gontractau gwaith. Mae hwn yn fater sydd wedi ei drafod ag aelodau o'r gwasanaeth perthnasol ac angen sylw brys.

Derbyniwyd copi o bolisi iechyd a diogelwch y gwasanaeth arlwyo. Mae'r polisi wedi ei ddyddio Mawrth 2010 ac felly teimlir y dylai hwn bellach gael ei adolygu

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Arlwyaeth Ysgolion – Ysgol y Gader gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau sydd yn bodoli, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau mai prydau o'r fwydlen yn unig a weinir, oni bai am eithriadau megis diwrnodau thema. Byddai'n ymarfer da i lunio bwydlen gyda phrydau sydd wedi eu dewis yn unol â chynnwys y gwiriadau maeth ac anghenion alergeddau'r disgyblion.**
- **Dylid ystyried cadw cofnod o'r holl fwydydd y gweinir yn ddyddiol, ynghyd â chofnod llawn o'u tymheredd wedi iddynt gael eu coginio.**
- **Byddai'n ymarfer da i ymchwilio i achosion pan fo tymheredd yr oergell neu'r rhewgell yn sylweddol wahanol i'r disgwyl, gan gadw cofnod o'r darganfyddiadau a'r camau y dilynir o ganlyniad.**
- **Dylid sicrhau bod y fwydlen / llyfr ryseitiau'n cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol e.e. am ba mor hir y dylid coginio'r prydau.**
- **Dylid cadw cofnod o fanylion unrhyw hyfforddiant a ddarperir i staff, boed hwnnw'n fewnol neu'n allanol.**
- **Dylid ystyried sefydlu meini prawf penodol ar gyfer gwerthuso'r cyflenwyr bwyd a diod wrth benderfynu pa rai i'w defnyddio.**
- **Byddai'n ymarfer da i sefydlu trefniant ffurfiol ar gyfer cynnwys y Rheolwr Arlwyo yn y broses o fonitro cyllideb y gegin, ac yn unrhyw faterion cyllidol perthnasol eraill.**
- **Dylid ystyried cofnodi dyddiad derbyn, er enghraifft drwy gyfrwng stamp derbyn, ar bob anfoneb a dderbynnir er mwyn sicrhau cywirdeb cofnodion rheoli perfformiad y Cyngor.**
- **Dylid ystyried cadw cofnodion ffurfiol ar gyfer monitro stoc y gegin, ble bo'n ymarferol, er mwyn medru adnabod unrhyw achosion o golli stoc.**
- **Dylai'r Adran Addysg fod yn llunio contractau ar gyfer pob aelod o staff y gwasanaeth arlwyo yn dilyn eu penodiad, yn ogystal â sicrhau bod rhai wedi eu creu ar gyfer y staff cyfredol.**
- **Dylid adolygu Polisi Iechyd a Diogelwch gwasanaeth arlwyo'r ysgol er mwyn cadarnhau fod ei gynnwys yn gyfredol.**
- **Dylid sicrhau bod y taflenni COSHH ar gyfer y sylweddau a ddefnyddir yn y gegin yn rhai cyfredol.**
- **Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, dylai fod Corff Llywodraethol yr ysgol yn cynnwys gwybodaeth yn eu hadroddiad blynyddol am y camau a gymerwyd i annog disgyblion yr ysgol i fwyta ac yfed yn iach.**

**ARLWYAETH YSGOLION UWCHRADD - YSGOL Y MOELWYN**
**Addysg**

Cefndir

Mae Ysgol y Moelwyn yn ysgol uwchradd sirol sy'n darparu addysg i ddisgyblion 11-16 mlwydd oed. Lleolir yr ysgol ym Mlaenau Ffestiniog, gyda 310 o ddisgyblion ar y gofrestr ym Medi 2015. Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am reolaeth y gwasanaeth arlwyo ers Ebrill 2010, ac mae'r ysgol y gyntaf yn y sir i ddefnyddio system talu heb arian yn y ffreutur. Mae'r system honno'n weithredol ers Tachwedd 2014.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gwerth am arian, safonau ansawdd ac atebolrwydd digonol yn cael eu cyflawni gan ysgolion uwchradd mewn perthynas â'u gwasanaeth arlwyo.

Cwmpas yr Archwiliad

Ymweld â'r ysgolion uwchradd sydd ddim yn rhan o gytundeb arlwyo safonol yr Adran Addysg, er mwyn gwirio trefniadau'r ysgolion parthed cydymffurfio â gofynion statudol, Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, rheolau iechyd a diogelwch a pholisïau perthnasol. Derbyn sicrwydd bod trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer diogelu staff a chwsmeriaid y gegin, a bod cyllidebau'n cael eu rheoli yn briodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod rheolaeth gadarn dros y gwasanaeth arlwyo yn gyffredinol, gyda mewnbwn a chefnogaeth yn cael ei gynnig gan wahanol gynrychiolaethau o'r ysgol – yn cynnwys y Tîm Rheoli, y Llywodraethwyr, staff yr ysgol gan gynnwys staff y gegin a'r disgyblion.

Mae bwydlenni safonol wedi eu creu, gyda ryseitiau i gyd-fynd â'r bwydydd sydd yn cael eu paratoi a'u gweini, a gwelwyd fod ymwybyddiaeth dda gan yr aelodau o staff perthnasol o'r canllawiau statudol a'r safonau disgwyliedig o ran maeth. Ymddengys o'r dystiolaeth a dderbyniwyd bod cryn dipyn o waith wedi ei wneud gan yr ysgol i weithio tuag at gyrraedd y safonau maeth. Mae trefn gadarn wedi ei sefydlu er mwyn darparu prydau ar gyfer un o ddisgyblion yr ysgol sydd ag alergedd penodol, ble mae bwydlen bwrpasol wedi ei llunio ar ei gyfer. Mae gwybodaeth eang ar alergeddau ac anoddefiad bwyd ar gael yn y gegin i staff gyfeirio atynt, fodd bynnag nid oes hyfforddiant nac arweiniad ffurfiol wedi ei dderbyn gan staff y gegin yn y maes.

Er bod yr ysgol yn defnyddio'r cyflenwr ffrwythau a llysiau a nodir ar restr contractau'r Cyngor, cafwyd gwybod gan staff yr ysgol nad yw'r cyflenwr hwnnw'n diwallu anghenion yr ysgol yn llawn, gan mai dim ond ar ddydd Mercher y gwnânt ddanfon nwyddau i ysgolion ardal Blaenau Ffestiniog. Golyga hyn bod dyddiau Sadwrn a Sul yn syrthio ynghanol yr wythnos, ac nad yw'r ffrwythau a'r llysiau yn para tan ddiwedd yr wythnos (sef dyddiau Llun a Mawrth yn yr achos yma). Cafwyd gwybod gan yr ysgol bod cwmni ganddynt dan sylw a allai ddiwallu eu hanghenion yn well. Os yw'r ysgol yn penderfynu defnyddio cyflenwr sydd ddim ar restr contractau'r Cyngor, yna rhaid derbyn sicrwydd gan y cyflenwr o'r gallu i wirio yn ôl i darddiad y bwyd, er mwyn sicrhau bod y bwyd yn ddiogel a hylan yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian.

Un pryder a amlygodd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd yn bosibl dod o hyd i gontractau cyflogaeth ar gyfer staff y gegin. Ers i'r ysgol ddewis peidio ag ymrwymo i gytundeb arlwyo'r Adran Addysg, cyfrifoldeb yr Adran honno oedd cynhyrchu a diwygio unrhyw gontractau gwaith. Mae hwn yn fater sydd wedi ei drafod ag aelodau o'r gwasanaeth perthnasol ac angen sylw brys.

Cafwyd gwybod bod hyfforddiant mewnol yn cael ei ddarparu gan yr ysgol er mwyn rhoi arweiniad i staff newydd ar sut i ddefnyddio offer y gegin yn ddiogel. Fodd bynnag nid oes tystiolaeth ar gael o'r hyn a ddarperir gan nad yw'r manylion wedi eu cofnodi. Er mwyn gwarchod yr ysgol a'i staff, teimlir y byddai'n arfer dda i gadw cofnod o fanylion yr hyfforddiant, gan sicrhau bod y staff yn arwyddo i gadarnhau eu bod wedi ei dderbyn a'i ddeall.

Gwelwyd fod asesiadau risg wedi eu cynhyrchu ar gyfer y gegin a chafwyd gwybod bod y rhain yn gyfredol. Byddai'n ymarfer da i gynnwys dyddiad ac arwyddiant ar yr asesiadau.

Teimlir fod yr ysgol yn rhagweithiol iawn wrth annog disgyblion i fyw yn iach, ac i gymryd prydau ysgol. Ymysg llwyddiannau'r ysgol mae iddi statws Ysgol Iach Cam 6, fel rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd, sy'n Wobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yn nhrefniadau Arlwyaeth Ysgolion – Ysgol y Moelwyn gan fod rheolaethau yn bodoli, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried rhoi arweiniad ffurfiol i staff y gegin ar faterion sy'n ymwneud ag alergeddau bwyd, ac sydd wedi ei seilio ar reoliadau'r Llywodraeth.**
- **Dylid ystyried cofnodi dyddiad derbyn, er enghraifft drwy gyfrwng stamp derbyn, ar bob anfoneb a dderbynnir er mwyn sicrhau cywirdeb cofnodion rheoli perfformiad y Cyngor.**
- **Dylai'r Adran Addysg fod yn llunio contractau ar gyfer pob aelod o staff y gwasanaeth arlwyo yn dilyn eu penodiad, yn ogystal â sicrhau bod rhai wedi eu creu ar gyfer y staff cyfredol.**
- **Dylid cadw cofnod o fanylion unrhyw hyfforddiant mewnol a ddarperir i staff sy'n ymwneud â rhoi arweiniad iddynt ar sut i ddefnyddio offer y gegin.**
- **Dylid sicrhau y tro nesaf yr adolygir yr asesiadau risg eu bod yn cael eu dyddio a'u harwyddo.**

Atodiad 10

**MODELU'R GWEITHLU - YSGOL LLANGYBI**
**Addysg**

Cefndir
Corff Llywodraethol ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol a dylid fod wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw. Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am bennu gweithdrefnau i weinyddu gweithgareddau personél, gan gynnwys penodiadau, terfyniadau a dyrchafiadau.

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer modelu'r gweithlu mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd, er mwyn lliniaru risgiau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Cwmpas yr Archwiliad
Dethol sampl o ysgolion cynradd o wahanol faint ac o wahanol ardaloedd yng Ngwynedd gan ymweld â hwy i'w harchwilio ar gyfer yr archwiliad.

Prif Ddarganfyddiadau
Ymddengys bod trefniadau boddhaol ar gyfer modelu'r gweithlu yn Ysgol Llangybi gydag athrawon yn derbyn amser CPA priodol, amser y Pennaeth yn cael ei neilltuo'n briodol ar gyfer amser rheoli ac arwain, cyflogau athrawon yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bod rheolaeth gyllidebol dda yn bodoli.

Derbyniwyd copïau o swydd ddisgrifiadau ar gyfer gweithiwyr yr ysgol, fodd bynnag nid oedd y copïau oedd ar gael yn yr ysgol ar ddiwrnod yr archwiliad wedi eu dyddio na'u harwyddo. Golyga hyn nad oedd yn bosibl cadarnhau dyddiad yr adolygwyd y swydd ddisgrifiadau diwethaf ac os oedd y gweithwyr wedi eu derbyn gan nad oedd eu llofnod arnynt.

Gwelwyd nad oedd swydd ddisgrifiadau'r Cymhorthyddion Cefnogaeth Dysgu yn cynnwys manylion eu horiau gweithio/nifer y diwrnodau gweithio a deellir bod newid wedi bod yn eu telerau gwaith ers Medi 2015 gyda'u horiau gwaith wedi gostwng.

Roedd swydd ddisgrifiad yr athrawes yn cynnwys manylion megis dyletswyddau gwaith a chyfrifoldebau penodol yn unol â'r disgwyl, fodd bynnag pan gymharwyd y swydd ddisgrifiadau i'r copi generig o swydd ddisgrifiad ar gyfer athro/athrawes sy'n bodoli gan yr Adran Addysg gwelwyd bod lle i ychwanegu mwy o gymalau perthnasol i swydd ddisgrifiad yr athrawes. Gellir dweud yr un fath pan gymharwyd swydd ddisgrifiad cyfredol y Pennaeth a'r Dirprwy i swydd ddisgrifiadau generig sydd gan yr Adran Addysg ar gyfer Penaethiaid a Dirprwyon. Byddai'n ymarfer da cymharu swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth, Dirprwy ac athrawes yr ysgol yn erbyn y swydd ddisgrifiadau generig, er mwyn canfod os oes budd ychwanegu rhai cymalau newydd i swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth, Dirprwy a'r athrawes.

Gwelwyd yn ôl y fformiwla cyllido ysgolion cynradd ar gyfer 2015/16 y byddai hawl gan Ysgol Llangybi i gyllideb o £4,396 ar gyfer Staff Ategol: Clerigol. Defnyddir £534 o'r gyllideb i gyflogi Clerc Llywodraethol, ond fe drosglwyddir gweddill y gyllideb i benawdau cyllidol eraill er mwyn ei ddefnyddio i gynorthwyo i gyflogi staff dysgu a chymhorthyddion. Mynegodd y Pennaeth ei bod yn gwneud rhan fwyaf o'r gwaith clercio ei hun.

Fe gyflogir Dirprwy yn Ysgol Llangybi ac mae'r drefn yma yn bodoli ers rhai blynyddoedd bellach ac yn deillio o bryd oedd niferoedd y disgyblion yn yr ysgol dros 75. Os yw Dirprwy mewn swydd a niferoedd y disgyblion yn gostwng o dan 75, mae'r swydd a'r gyflogaeth yn parhau tra bod y Dirprwy yn y swydd honno ac mae gan yr ysgol yr hawl i'r gyllideb ychwanegol.

Yn ystod yr archwiliad daethpwyd i sylw'r archwiliwr nad yw'r Pennaeth yn rhannu adroddiadau monitro cyllideb gyda'r Corff Llywodraethol, ond yn hytrach yn adrodd ar lafar i'r corff ar sefyllfa ariannol yr ysgol.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau modelu'r gweithlu yn Ysgol Llangybi gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod swydd ddisgrifiadau'r gweithwyr yn cael eu cadw ar ffeil yn yr ysgol a'u bod wedi eu harwyddo a'u dyddio'n briodol ac fe ddylid eu hadolygu o dro i dro.**
- **Dylid sicrhau bod swydd ddisgrifiadau'r Cymhorthyddion Cefnogaeth Dysgu yn cynnwys manylion eu horiau gweithio/nifer diwrnodau y maent yn ei weithio.**
- **Dylid ystyried rhannu'r adroddiadau monitro cyllideb gyda'r Corff Llywodraethol, er mwyn i'r Llywodraethwyr dderbyn fwy o fanylder ar faterion cyllidol yr ysgol.**

Atodiad 11

# MODELU'R GWEITHLU - YSGOL LLANBEDR
## Addysg

Cefndir

Corff Llywodraethol ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol a dylid fod wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw. Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am bennu gweithdrefnau i weinyddu gweithgareddau personél, gan gynnwys penodiadau, terfyniadau a dyrchafiadau.

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer modelu'r gweithlu mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd, er mwyn lliniaru risgiau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Cwmpas yr Archwiliad

Dethol sampl o ysgolion cynradd o wahanol faint ac o wahanol ardaloedd yng Ngwynedd gan ymweld â hwy i'w harchwilio ar gyfer yr archwiliad.

Prif Ddarganfyddiadau

Ymddengys bod trefniadau da ar y cyfan ar gyfer modelu'r gweithlu yn Ysgol Llanbedr gyda swydd ddisgrifiadau cyfredol yn bodoli ar gyfer staff, ffurflenni arolwg cyflog yn cael eu cwblhau'n flynyddol, athrawon yn derbyn amser CPA priodol a bod rheolaeth gyllidebol dda yn bodoli.

Roedd swydd ddisgrifiadau'r athrawon yn cynnwys manylion megis dyletswyddau cyffredinol, dyletswyddau dysgu a dyletswyddau eraill megis i ba bynciau oeddent yn cydlynwyr. Fodd bynnag pan gymharwyd y swydd ddisgrifiadau i'r copi generig o swydd ddisgrifiad ar gyfer athro/athrawes sy'n bodoli gan yr Adran Addysg gwelwyd bod lle i ychwanegu mwy o gymalau perthnasol i swydd ddisgrifiadau'r athrawon. Gellir dweud yr un fath pan gymharwyd swydd ddisgrifiad cyfredol y Pennaeth i swydd ddisgrifiad generig sydd gan yr Adran Addysg ar gyfer Penaethiaid. Byddai'n ymarfer da cymharu swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth ac athrawon yr ysgol yn erbyn y swydd ddisgrifiadau generig, er mwyn canfod os oes budd ychwanegu rhai cymalau newydd i swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth a'r athrawon.

Gwelwyd yn ôl y fformiwla cyllido ysgolion cynradd ar gyfer 2015/16 y byddai hawl gan Ysgol Llanbedr i gyllideb o £3,566 ar gyfer Staff Ategol: Clerigol. Defnyddir £625 o'r gyllideb i gyflogi Clerc Llywodraethol, ond fe drosglwyddir gweddill y gyllideb i benawdau cyllidol eraill er mwyn ei ddefnyddio i gynorthwyo i gyflogi athrawon a chymhorthyddion. Y cymhorthyddion sydd yn gyfrifol am wneud y gwaith llungopïo ar gyfer yr athrawon.

Hyd at 18/1/2016 dim ond ½ diwrnod oedd y Pennaeth yn ei dderbyn ar gyfer amser CPA a Rheoli ac Arwain yr ysgol. Golyga hyn bod y Pennaeth wedi bod yn cwblhau'r dasg rheoli ac arwain ar adegau yn ei hamser ei hun sydd ddim yn ffordd dda o reoli cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Y rheswm pennaf dros hyn oedd bod y Pennaeth yn teimlo ar y pryd bod gadael dosbarthiadau 3,4,5 a 6 gydag un athrawes yn annheg ar y plant gan fod 27 ohonynt a bod traean ohonynt gydag anghenion. Deëllir bod yr ysgol wedi gorfod dilyn y broses diswyddo oherwydd gormodedd yn 2014/15 oherwydd diffyg cyllideb staffio. Ers Medi 2015 mae trefniant ar adegau lle mae blynyddoedd 3,4,5 a 6 yn cael eu dysgu gyda'i gilydd. Mae'r Pennaeth yn cyflogi athro llanw ar foreau Llun ers 18/01/2016 er mwyn ei rhyddhau i wneud gwaith rheoli ac arwain.

Ar ddiwrnod yr archwiliad fe hysbyswyd yr archwiliwr bod cofnod ysgrifenedig o ddyletswyddau a hawliau'r Corff Llywodraethol a'r Pennaeth parthed penderfyniadau ariannol, gan gynnwys trothwyon priodol yn bodoli ond ei fod angen ei ddiweddaru, a'i fod yn fwriad gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol i wneud hyn yn y dyfodol agos.

<u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau modelu'r gweithlu yn Ysgol Llanbedr gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Byddai'n ymarfer da pe byddai'r Pennaeth yn derbyn copi gan yr Adran Addysg o swydd ddisgrifiad generig ar gyfer Pennaeth ac athro/athrawes, er mwyn eu cymharu â swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth ac athrawon yr ysgol, er mwyn adnabod cymalau ychwanegol y dylid ystyried eu hychwanegu i'r swydd ddisgrifiadau cyfredol.**
- **Dylid sicrhau fod cofnod ysgrifenedig o ddyletswyddau a hawliau'r Corff Llywodraethol a'r Pennaeth parthed penderfyniadau ariannol, gan gynnwys trothwyon priodol, yn cael ei ddiweddaru a'i fabwysiadu gan y Corff Llywodraethol cyn gynted â phosibl.**

Atodiad 12

**HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU**
**Cefnogaeth Gorfforaethol**

Cefndir

Yn ôl Adran 7 o'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau eu bod yn darparu hyfforddiant a chyfleoedd rhesymol i'w haelodau. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod roi'r cyfle i'w haelodau dderbyn adolygiad blynyddol o'u hanghenion hyfforddi a datblygu.

Cyhoeddwyd Fframwaith Datblygu Cynghorwyr Cymru ym mis Mai, 2015 sydd yn amlinellu'r medrau a'r wybodaeth sydd yn hanfodol i gynghorwyr awdurdodau lleol Cymru, yn ôl barn gyffredinol. Fe luniwyd y fframwaith fel rhan o raglen ddatblygu broffesiynol parhaus Cymru ar gyfer cynghorwyr ac mae'n cyd-fynd gyda Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y Gwasanaeth Democrataidd ynghyd â'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu wedi sefydlu trefn briodol ar gyfer anghenion hyfforddi a datblygiad aelodau'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd y drefn datblygu a hyfforddi aelodau i sicrhau eu bod yn gweithredu gwasanaeth o safon briodol, yn ateb i anghenion yr aelodau ac yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn nhrefniadau Hyfforddi a Datblygu Aelodau. Enillodd y Cyngor y Freinlen yn 2009, ac yn 2012/13 fe'i datblygwyd ar ei newydd wedd ac adeiladwyd ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 (Cymru). Adroddwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Mawrth, 2015 na fyddai modd i Gyngor Gwynedd ennill cymhwyster y Freinlen gan na fyddai neb ar gael i'w dyfarnu oherwydd lleihad yn grant Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi newid erbyn hyn ac mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn awyddus i barhau i geisio ennill y Freinlen. Eglurwyd bod trefniadau ar y gweill i wneud hyn.

Mabwysiadwyd yn y Cyngor Llawn ddisgrifiadau rôl ar gyfer yr Aelodau yn 2011 yn seiliedig ar ddogfennau CLlLC. Eglurwyd bod angen eu diweddaru i gyd-fynd gyda datblygiadau gan gynnwys Ffordd Gwynedd.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol Cymru, 2011 mae'n rhaid i bob Cyngor gynnig proses i Aelodau asesu eu hanghenion datblygu. Cynigwyd cyfweliadau datblygiad personol i'r Aelodau yn 2014, dangoswyd ychydig o ddiddordeb a chynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer 26 ohonynt. Bwriedir cynnal y cylch nesaf o gyfweliadau yn ystod 2016 ond mae'r gofyn yn isel ar hyn o bryd. Mae ymgais wedi bod i hybu'r Aelodau i dderbyn cyfweliad a bwriedir cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn esbonio'r broses i'r Aelodau a chodi ymwybyddiaeth o'r trefniadau.

Gofynnir i'r Aelodau gwblhau ffurflen adborth ar ddiwedd pob sesiwn hyfforddiant. Gwiriwyd y canran o adborth a dderbynnir ar gyfer sampl o 5 hyfforddiant a gwelwyd eu bod yn amrywio, derbyniwyd adborth gan 15% o'r Aelodau a fynychodd ar gyfer un hyfforddiant.

Gwelwyd bod 14 Aelod heb fynychu hyfforddiant yn ystod 2014/15. Nid oes modd gorfodi'r Aelodau i fynychu hyfforddiant, fodd bynnag, nodir yn 'Rôl a chyfrifoldebau Aelodau' y dylent 'Ymrwymo i hunanddatblygiad a hyfforddiant' er mwyn cynnal safonau.

Yn ogystal, gwelwyd nad yw Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn 2014-15 yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r hyfforddiant mae Aelodau o'r Pwyllgor Pensiynau wedi ei fynychu. Yn hytrach nodir bod y Pwyllgor wedi mabwysiadu'r datganiad polisi sgiliau a gwybodaeth yn ffurfiol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaethol Hyfforddi a Datblygu Aelodau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Sicrhau bod disgrifiadau rôl yr Aelodau yn cael eu diweddaru fel yr angen.**
- **Dylid annog yr Aelodau i lenwi ffurflenni adborth yn dilyn hyfforddiant.**
- **Dylid sicrhau bod y Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu o fewn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyfforddiant mae'r Aelodau penodol wedi ei dderbyn.**

Atodiad 13

**YSGOLION – IECHYD A DIOGELWCH YMWELIADAU ADDYSGOL**
**Cefnogaeth Gorfforaethol**

Cefndir

Mae trefniadau monitro Ymweliadau Addysgol wedi ei leoli o fewn yr Uned Iechyd a Diogelwch, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Gwelwyd bod gan ysgolion Gwynedd draddodiad cyfoethog ac sy'n cael ei werthfawrogi o ddarparu ymweliadau addysgol cyffrous mae pobl ifanc yn eu mwynhau. Bydd disgyblion addysgol Gwynedd yn elwa'n fawr iawn o gymryd rhan mewn ymweliadau. Ceir nifer o ymweliadau ar draws y Sir drwy'r flwyddyn gan gynnwys ymweliadau arferol, ymweliadau anarferol/dros nos (heb fod yn anturus), ymweliadau (yn cynnwys dros nos a Gwobr Dug Caeredin) ble ceir gweithgareddau antur neu amgylcheddau ymdrechgar a theithiau tramor.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau iechyd a diogelwch priodol yn cael eu dilyn wrth drefnu a chynllunio ymweliadau addysgol fel y gellir cymryd camau addas i liniaru'r risgiau a adnabyddir.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio cofnodion sampl o ysgolion uwchradd a chynradd i sicrhau eu bod wedi cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch wrth drefnu ymweliad addysgol. Gwirio bod gweithdrefnau yn cael eu dilyn a sicrhau bod manylion cyflawn yn cael eu cofnodi ar system bwrpasol Evolve a'u bod yn derbyn cymeradwyaeth cadarn gan swyddog awdurdodedig.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod enghreifftiau cryf iawn o ymarfer da a rheolaeth gadarn mewn lle yn nhrefniadau iechyd a diogelwch ymweliadau addysgol, er mwyn lliniaru ystod o risgiau a adnabyddir yn y maes hwn. Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai o'r meysydd a archwiliwyd angen sylw pellach.

Wrth wirio'r system Evolve, gwelwyd nad oedd nifer o ysgolion wedi uwch-lwytho copi o bolisi 'Ymweliadau Addysgol' eu hysgol ar y system (60 o 109) sydd yn cynyddu'r risg o ddiffyg ymwybyddiaeth staff o ofynion iechyd a diogelwch ar ymweliadau addysgol.

Gwiriwyd sampl o 9 ymweliad addysgol ar gyfer ymweliadau dros nos neu anarferol. Gwelwyd mewn 5 achos mae'r cyd-gysylltwyr oedd y Pennaeth ac felly roedd angen iddynt awdurdodi fel cyd-gysylltwr yn ogystal ac fel Pennaeth yr ysgol. Gwelwyd bod un ymweliad heb dderbyn cymeradwyaeth yr Awdurdod Lleol yn unol â'r polisi. Gwelwyd bod cynllun wedi cael ei fewnosod ar y system Evolve, ond nad oedd wedi ei gymeradwyo'n briodol gan y Cyd-gysylltydd Ymweliadau Addysgol (Pennaeth). Eglurodd y Pennaeth bod y daith wedi ei chymeradwyo ar lafar i'r staff. Fodd bynnag nid oedd y polisi wedi cael ei ddilyn, gan fod rhaid i ymweliadau preswyl gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol.

Archwiliwyd sampl o ymweliadau addysgol lle'r oedd gweithgareddau antur neu amgylcheddau ymdrechgar wedi cymryd lle. Hefyd, roedd teithiau tramor oedd ddim yn rai i wlad ddatblygol yn cynnwys hirdaith neu antur arall wedi eu cynnwys yn y sampl.

Gwelwyd bod y polisi 'Ymweliadau Addysgol' yn nodi bod rhaid cael cymeradwyaeth y Pennaeth ar y system Evolve o leiaf 28 diwrnod cyn dyddiad dechrau'r ymweliad a gwelwyd nad oedd hyn wedi digwydd gyda rhai o'r cynlluniau ymweliad.

Gwelwyd bod canllawiau clir wedi eu nodi yn y polisi 'Ymweliadau Addysgol' am ba gyfnod dylid cadw dogfennau/ffurflenni sydd yn ymwneud ag ymweliadau addysgol. Yn ystod yr archwiliad daethpwyd yn amlwg nad oedd rhai Cyd-gysylltwyr Ymweliadau Addysgol yn ymwybodol o'r angen i gadw dogfennau am gyfnodau penodol. Gwelwyd bod ffurflenni caniatâd yn cael eu cadw dan glo yn swyddfeydd gweinyddol yn yr ysgolion ac yn cael eu dinistrio unwaith maent wedi bod ar yr ymweliad neu o fewn y mis ar ôl y daith (sydd yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol ond nid y polisi 'Ymweliadau Addysgol'). Fodd bynnag, mae angen atgoffa Cyd-gysylltwyr Ymweliadau Addysgol/Penaethiaid o'r cyfnodau cadw sydd wedi ei nodi yn y polisi gan fod nifer ohonynt ddim yn ymwybodol o'r gofynion. Hefyd mae angen diweddaru rhan 9 'Cadw Cofnodion' yn y Polisi 'Ymweliadau Addysgol' erbyn Medi 2016.

<u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau iechyd a diogelwch ymweliadau addysgol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid atgoffa'r Cyd-gysylltwyr Ymweliadau Addysgol/Penaethiaid bod angen uwch-lwytho copi cyfredol o'r polisi 'Ymweliadau Addysgol' ar y system Evolve.**
- **Dylid sicrhau bod Penaethiaid yn cymeradwyo'r ymweliadau addysgol ar y system Evolve ac yn eu hanfon ymlaen at yr Awdurdod Lleol os yn berthnasol.**
- **Dylid sicrhau bod Penaethiaid yn cymeradwyo'r ymweliadau ysgol ar y system Evolve i o leiaf 28 diwrnod cyn dyddiad ymweliad anarferol/dros nos ac o leiaf 56 diwrnod cyn dyddiad ymweliad tramor yn unol â'r polisi 'Ymweliadau Addysgol'.**
- **Dylid sicrhau bod dogfennau/ffurflenni ymweliadau addysgol yn cael eu cadw am gyfnod penodol yn unol â'r polisi 'Ymweliadau Addysgol'. Dylid diweddaru rhan 9 o'r polisi 'Ymweliadau Addysgol' sef 'Cadw Cofnodion' ar gyfer polisi 2016-17.**

Atodiad 14

**SYSTEM DYLEDWYR - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**

**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**"fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."**

Caiff trefniant y system dyledwyr ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y ddyletswydd o godi anfonebau ar gwsmeriaid wedi eu dynodi i swyddogion awdurdodedig gyda'r wybodaeth yn ymddangos yn y cyfriflyfr yn gyflawn yn ogystal â'r incwm mae'r Cyngor yn ei dderbyn, gyda chysoniad yn cael ei gwblhau. Hefyd, sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle dros adennill a dileu dyledion gyda gwybodaeth yn cael ei ddarparu i reolwyr.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio pa swyddogion sydd gyda'r ddyletswydd o godi a dosbarthu anfonebau i gwsmeriaid gan ddethol sampl o'r anfonebau a gwirio bod y wybodaeth yn ymddangos yn y cyfriflyfr ariannol yn gywir. Gwirio fod unrhyw incwm mae'r Cyngor yn ei dderbyn yn cael ei bostio yn y cyfriflyfr a bod cysoniad yn cael ei gwblhau'n rheolaidd. Gwirio os yw'r trefniadau adennill wedi'i ddogfennu a bod monitro adennill yn cymryd lle gan wirio os yw'r trefniadau dileu dyledion yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Gwirio bod monitro incwm yn erbyn cyllidebau yn cymryd lle.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod prosesau, gweithdrefnau a gwahaniad dyletswyddau priodol mewn lle ar gyfer casglu dyledion. Mae'r broses o greu dyled ar y cyfan yn cael ei weithredu gan y gwasanaethau perthnasol, gyda'r adfer yn cael ei weithredu a'i gyd-gordio gan yr Uned Incwm.

Adolygwyd sampl o ddyledion oedd wedi eu dileu yn ystod 2015/16 a gwelwyd fod y camau priodol wedi eu cymryd.

Gwiriwyd y prosesau sydd mewn lle ar gyfer sicrhau bod yr anfonebau wedi eu postio'n gywir i'r cyfriflyfr drwy gymharu'r manylion a gwelwyd eu bod i gyd yn cysoni.

Cafwyd gwybod y canlynol gan y Rheolwr Incwm: Y staff sydd â'r hawl i godi anfonebau o fewn y Gwasanaeth Incwm, ac sy'n ei ddefnyddio, yw'r Rheolwr Incwm, y Swyddog Dyledwyr a'r Cymhorthydd Adennill (SI). Mae'r adroddiad hawliau a derbyniwyd gan Dechnegydd Sustem Ariannol y Gwasanaeth Cyllid yn cadarnhau hyn, ond yn nodi'n benodol fod ganddynt hawl i godi ac awdurdodi anfonebau â gwerth hyd at £1,000,000. Dywedodd efallai y byddai gan y Cymhorthyddion Adennill eraill (GR ac EWJ) a'r Swyddog Dyledwr arall (RCR) yr hawl i godi anfoneb hefyd, ond na fyddant hwy yn ei ddefnyddio'n aml, os o gwbl. Mae'r adroddiad hawliau yn nodi bod ganddynt hwythau hefyd hawl i godi ac awdurdodi anfonebau hyd at £1,000,000. Dywedodd mai'r Uwch Swyddog Adennill a'r Swyddog Incwm sydd yn agor y post yn ddyddiol, ac nad ydynt hwy yn codi anfonebau - er bod yr adroddiad hawliau yn nodi bod gan y naill hawl i godi anfoneb (ond nid awdurdodi), a'r llall yr hawl i godi ac awdurdodi anfonebau hyd at £1,000,000, a'u bod yn pasio unrhyw sieciau at yr Ariannwr (sydd â hawl 'darllen yn unig' / 'enquirer' ar gyfer Cedar yn ôl yr adroddiad hawliau). Yr Ariannwr fyddai'n derbyn unrhyw arian parod.

Dywedodd y Technegydd Sustem Ariannol ei fod yn cysylltu â'r gwahanol adrannau am wybodaeth yn flynyddol (tua mis Mai), er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu hawliau y swyddogion o fewn y system Cedar i sicrhau eu bod yn gyfredol.**

Atodiad 15

**SYSTEM TALIADAU - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**

**Cyllid**

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."**

Caiff y system taliadau ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer prosesu, gweithredu a chysoni taliadau.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu sampl o daliadau a wnaethpwyd i gredydwyr y Cyngor yn ystod 2015/16 ynghyd â rheolaethau dros ddata sefydlog credydwyr.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>

Darganfuwyd fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer prosesu a gweithredu taliadau. Gwelwyd fod prosesau ynghyd â'r defnydd o systemau cyfrifiadurol mewn lle er mwyn sicrhau bod anfonebau'n cael eu prosesu'n briodol a thaliadau cywir yn cael eu gwneud. Yn ogystal gwelwyd bod defnydd o swyddogaeth sydd yn adnabod dyblygiadau mewn manylion anfonebau ac yn eu hamlygu i'w hadolygu.

Gwelwyd bod mesurau atal twyll wedi eu hymgorffori yn y prosesau taliadau, gan sicrhau fod rolau wedi eu diffinio, a hawliau wedi eu gosod yn seiliedig ar hynny gan orfodi gwahaniad dyletswyddau rhwng y sawl sydd yn awdurdodi anfonebau, mewnbynnu data, goruchwylio'r mewnbwn, awdurdodi taliadau, a chysoni'r balansau. Gwelwyd bod taflenni pwrpasol ar gyfer cynnal gwiriadau priodol wrth sefydlu gwybodaeth am gredydwyr newydd, a bod gwiriadau priodol ar geisiadau i newid data sefydlog credydwyr yn cael eu cynnal cyn gweithredu arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn briodol. Gwelwyd bod trefniadau newydd wedi eu sefydlu yn 2015/16 ar gyfer gwirio newidiadau i ddata sefydlog credydwyr gyda'r swyddogion yn creu adroddiad o system Business Object i wirio pa newidiadau a oedd wedi cymryd lle'r diwrnod blaenorol. Hefyd gwelwyd bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r system Fiscal wrth i adroddiad gael ei chynhyrchu ar gyfer ei gwirio gan y Swyddogion Taliadau perthnasol yn foreol.

Darganfuwyd wrth gynnal archwiliadau drwy gydol 2015-16, nad oedd archeb yn bodoli i gyd-fynd â'r anfoneb neu y paratowyd yr archeb yn dilyn derbyn yr anfoneb; yn ogystal gwelwyd nifer o achosion o gam-godio gwariant. Cyfrifoldeb y gwasanaethau/unedau yw hyn ac **nid** cyfrifoldeb yr Uned Taliadau. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu'r angen i gyflwyno archeb (os yw hynny'n briodol) oherwydd mai dyma'r sail i'r cytundeb a'r amodau gyda'r cyflenwyr, a hefyd sicrhau cywirdeb codio gwariant oherwydd gall cam-godio aflunio adroddiadau ariannol neu ystadegol.

Gwelwyd wrth adolygu rhestrau swyddogion sydd â'r hawl i arwyddo, awdurdodi ac ardystio gwahanol ddogfennau bod enghreifftiau ble dynodwyd swyddog â hawl i ardystio anfonebau ynghyd â pharatoi ac awdurdodi ffurflen pennawd swp TR257 - mae'n hanfodol bod gwahaniad dyletswyddau yn bodoli yn y trefniant hwn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu rhestrau swyddogion sydd â'r hawl i arwyddo, awdurdodi ac ardystio dogfennau i sicrhau nad oes gan swyddogion sydd â'r hawl i ardystio anfonebau yr hawl i baratoi ffurflenni pennawd swp (TR257) yn ogystal, er mwyn sicrhau bod gwahaniad dyletswyddau yn y broses.**

**CYSONI BANC - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff trefniant cysoni banc ei ystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gweithdrefnau wedi eu sefydlu a'u dogfennu ar gyfer cynnal cysoniadau banc yn effeithiol, amserol, yn gyflawn a chywir a sicrhau bod trefniadau monitro digonol yn bodoli.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer cynnal cysoniadau banc a sicrhau bod canllawiau ar gael i swyddogion. Dethol sampl o gysoniadau banc yn 2015/16 a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau. Sicrhau bod cysoniadau banc yn cael eu hadolygu a'u harwyddo'n rheolaidd.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd ar y cyfan fod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yn y broses cysoni gydag ail swyddog wedi gwirio'r cysoniadau o fewn y sampl a ddetholwyd. Fodd bynnag, gwelwyd fod rhai taenlenni a ddefnyddir o fewn y broses cysoni incwm yn aneglur i'r darllenydd, a theimlir y gallai cynnwys eglurhad byr o'r ffigurau fod o gymorth i ddefnyddiwr newydd pe byddai'r angen yn codi; er enghraifft yn ystod absenoldeb y swyddogion cyfredol.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd wedi eu sefydlu, a'u bod wedi eu dilyn. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y papurau gwaith (taenlenni) sy'n cael eu defnyddio o fewn y broses cysoni incwm yn cynnwys manylion megis nodiadau neu benawdau ar golofnau fel eu bod yn fwy hunanesboniadol i'r darllenydd.**

Atodiad 17

**TREFNIADAU GWEINYDDU CYFLOGRESI - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol bwysig y Cyngor yn flynyddol,"***

Caiff y system gyflogau ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr adolygiad yma yn canolbwyntio ar reolaethau cynnal y system gyflogau ar gyfer y flwyddyn 2015/16.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau'r Uned Gyflogau wrth weinyddu'r cyflogresi. Serch hyn, amlygwyd gwendid wrth wirio'r ddogfen 'Payroll Checking Document'. Amlygwyd ar ddau achlysur nad oedd llofnod yn y rhan 'Payrun Reports checked by' a dim llofnod yn y rhan 'Journal checked by' ar un achlysur. Yn ogystal, wrth wirio'r daflen 'Payroll Staff Duties – Checklist', amlygwyd un achlysur lle nad oedd llofnod yn y rhan 'Checked by Supervisor'. Dengys llofnod yn y rhannau yma bod y gwiriadau perthnasol wedi eu cwblhau cyn rhyddhau'r cyflogresi i'w talu. Nid yw'r ddogfen 'Payroll Manual' sydd yn dangos y camau i'w cymryd mewn sefyllfaoedd gwahanol o fewn y system gyflogau wedi ei ddiweddaru ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, lle mae newidiadau i unai elfennau statudol, i'r system, neu i brosesau'r uned / Cyngor mae'r swyddogion yn derbyn Hysbysiad Cyflogau. Hefyd, nid yw Cynllun Parhad Gwasanaeth yr Uned ('Contingency Plans for Emergency Payment of Salaries') yn gyfredol ychwaith. Mae'r Rheolwr Cyflogau yn ymwybodol o hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Nhrefniadau Gweinyddu Cyflogresi'r Uned Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel y ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y taflenni "Payroll Checking Document" ac "Payroll Staff Duties - Checklist" yn cael eu harwyddo a'u dyddio i ddangos bod y gwiriadau perthnasol wedi cael eu cwblhau.**
- **Dylid diweddaru cynllun parhad Gwasanaeth yr Uned Gyflogau.**

Atodiad 18

**CRONFA BENSIWN GWYNEDD – ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**

**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol bwysig y Cyngor yn flynyddol,"***

Er bod gweinyddiaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd yn dibynnu'n helaeth ar systemau ariannol bwysig y Cyngor, caiff systemau gweinyddol y Gronfa eu hystyried yn "system ariannol bwysig" ynddi ei hunain yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygwyd y gweithdrefnau sydd mewn lle ar gyfer gweinyddu'r Gronfa Bensiwn ar gyfer 2015-16. Detholwyd sampl o daliadau a sicrhau eu bod wedi eu rhyddhau'n briodol yn ogystal sicrhawyd eu bod yn cael eu hadolygu a'u harwyddo'n briodol. Nid oedd yn fwriad i archwilio'r elfen buddsoddi.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, gwiriwyd Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd 2014-15 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Cynllun Pensiwn Lywodraeth Leol 2013 (Rhan 57), a darganfuwyd nad oedd datganiad cyfathrebu gydag aelodau a chyflogwyr wedi ei gynnwys.

Amlygwyd gwendid wrth wirio'r slipiau TR27b. Nid oedd y blychau 'côd', 'prisiau' ac 'unigryw' yn cael eu llenwi ar y ffurflenni TR27b ym mhob achos. Pwrpas y gwiriadau hyn yw sicrhau bod y gwiriadau perthnasol wedi eu cynnal:

- 'Côd' – i gadarnhau bod y côd gwariant yn gywir
- 'Prisiau' – i gadarnhau bod y prisiau'n gywir
- 'Unigryw' - sicrhau nad yw'r taliad wedi ei brosesu o'r blaen ac i osgoi taliad dyblyg.

Mae'r gwasanaeth pensiynau yn parhau i gael trafferth i dderbyn gwybodaeth gan gyflogwyr eraill. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar y Cyflogwyr i'w hysbysu o unrhyw newidiadau i ddata megis oriau gwaith, statws a.y.b. ond nid yw hyn yn digwydd. Gobeithir y bydd y ddogfen codau ymarfer a gynhyrchwyd gan "The Pensions Regulator" yn gymorth i gefnogi  ceisiadau am wybodaeth gan y Cyflogwyr.

Mae'r system i-Connect yn rhywbeth maent yn parhau i ddatblygu. Bellach mae Cyngor Conwy ac Ysgol Eirias wedi cytuno i fod yn rhan o'r trefniant. Drwy'r system yma bydd unrhyw wybodaeth a geir ei fewnbynnu i systemau'r cyflogwyr yn cael ei anfon ymlaen yn electronig ac wedi ei amgryptio i systemau'r gwasanaeth Bensiynau. Golyga hyn felly nad oes angen i'r cyflogwyr gyflawni gwaith ychwanegol o anfon y wybodaeth ymlaen. Maent yn parhau i sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyflawn cyn penderfynu mynd ymlaen â hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y fersiwn diweddaraf o ddatganiad cyfathrebu gydag aelodau a chyflogwyr yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd nesaf (2015-16).**
- **Dylid sicrhau bod y blychau gwirio ar y ffurflenni TR27b yn cael eu llenwi'n briodol h.y. yr angen i lofnodi'r blychau "Côd", "Prisiau" ac "Unigryw" i ddangos bod gwiriadau priodol wedi eu gwneud.**

**SYSTEM BUDD-DALIADAU – ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol bwysig y Cyngor yn flynyddol,"***

Caiff y System Fudd-dal ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16, archwiliwyd sampl o geisiadau budd-dal i sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal. Gwiriwyd bod cysoniadau yn cael eu cynnal a bod y taliadau budd-dal yn cael eu cyfrifo a'u talu mewn modd cywir ac yn amserol. Aseswyd statws perfformiad y gwasanaeth ynglŷn â gweithredu ar geisiadau a hysbysiadau budd-dal a gwiriwyd bod y system yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod yr holl ddata yn cael ei ddiogelu'n briodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau gweinyddu'r System Budd-daliadau. Mae'r swyddogion yn derbyn hyfforddiant fel bo'r angen ac yn cael eu hysbysu o unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth, yn ogystal ag unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau a ddaw i'r system. Detholwyd sampl ar hap o geisiadau newydd gan wirio bod sgôr risg wedi ei gofnodi a'u bod wedi eu cyfrifo'n gywir a'u talu'n amserol. Yn ogystal gwiriwyd sampl o daliadau estynedig a cheisiadau am ôl-ddyddio a gwelwyd eu bod yn unol â'r rheoliadau cyfredol. Gwelwyd eto eleni bod ystadegau perfformiad yr Uned mewn perthynas â'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu cais budd-dal newydd a phrosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau, yn dda wrth gymharu â pherfformiad ar draws Cymru a Phrydain.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 20

**TRETH CYNGOR - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**

**Cyllid**

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff y system Treth Cyngor ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod cyfansymiau biliau Treth Cyngor wedi cael eu gosod yn gywir ac yn unol â'r symiau a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ac awdurdodau perthnasol eraill. Roedd yr Archwiliad hefyd yn sicrhau fod y cyfansymiau eiddo yng Ngwynedd wedi cael eu cofnodi'n gywir ar y system ac yn cyd-fynd ag adroddiadau'r Swyddfa Brisio, yn ogystal â chadarnhau bod y cyfrif ariannol wedi cael ei ddiweddaru'n briodol a bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer adennill dyledion Treth Cyngor. Roedd yr archwiliad hefyd yn sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer monitro a rheoli perfformiad yr Uned.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>

Roedd yr Archwiliad yn cwmpasu adolygu a phrofi bod canllawiau, cofnodion a'r gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer rheoli, casglu a dosbarthu Treth Cyngor 2015-16.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>

Gwelwyd fod gweithdrefnau a phrosesau priodol mewn lle ar gyfer yr holl reolaethau allweddol a adolygwyd ar gyfer y system Treth Cyngor. Darganfuwyd bod cysoni priodol yn cael ei gynnal i sicrhau cywirdeb y biliau sydd yn cael eu creu, o ran eu nifer a'u gwerth a bod paramedrau y system yn cyd-fynd â gwerth y trethi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn rheolaethau allweddol y System Treth Cyngor ar gyfer 2015-16 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 21

**TRETHI BUSNES - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL**

**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff y system Trethi Busnes ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod biliau Trethi Busnes yn cael eu prosesu'n gywir ac yn unol â'r gwerthoedd trethiannol sydd wedi eu gosod gan y Swyddfa Brisio a bod prosesau priodol ar gyfer eu casglu, cofnodi a monitro'r taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr Archwiliad yn cwmpasu adolygu a phrofi bod canllawiau, cofnodion a gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer rheoli, casglu a chofnodi Trethi Busnes 2015-16.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gweithdrefnau a phrosesau priodol mewn lle ar gyfer yr holl reolaethau allweddol a adolygwyd ar gyfer y system Trethi Busnes.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn rheolaethau allweddol y System Trethi Busnes ar gyfer 2015-16 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 22

**SEIBERDDIOGELWCH (Cyber Security)**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Diben yr adroddiad hwn yw gwerthuso ac asesu lefel y seiberddiogelwch sydd yn ei le yng Nghyngor Gwynedd. Cynhaliwyd yr archwiliad gan Steve Rimell o Rimell Associates Ltd yn ystod y cyfnod rhwng 7-11 Mawrth 2016, ac roedd yn cynnwys cyfweliadau gyda staff TG dewisol, ac archwilio dogfennaeth ddiogelwch ac adroddiadau profion bregusrwydd.

Cwmpas yr Archwiliad

Diffinnir seiberddiogelwch gan eiriadur Merriam Webster fel "*mesurau a weithredir i amddiffyn cyfrifiadur neu system gyfrifiadurol (megis yr un ar y We) yn erbyn mynediad neu ymosodiad anawdurdodedig*". Mae gofyniad sylfaenol ar Gyngor Gwynedd i gadw'i systemau TG yn ddiogel yn erbyn y risgiau uchod, ond mae gofyn arno hefyd i arddangos ei gymhwysedd er mwyn cael bod yn aelod o'r Public Secure Network (PSN), sef rhwydwaith perfformiad uchel y llywodraeth sy'n cynorthwyo sefydliadau yn y sector cyhoeddus i gydweithio, lleihau dyblygiad a rhannu adnoddau.

Ym mis Tachwedd 2015, comisiynodd y gwasanaeth TG Sec-1, cwmni profi diogelwch adnabyddus ag iddo enw da, i gynnal cyfres o brofion bregusrwydd wedi'u rheoli yn erbyn y rhwydwaith. Mae'r adroddiad archwilio hwn yn gwerthuso canlyniadau'r profion hynny ac yn rhoi barn ar eu heffeithiolrwydd ac am y cynllun adfer a luniwyd gan yr Uwch Reolwr - TG a Thrawsnewid Busnes er mwyn ymdrin â'u darganfyddiadau. Mae hefyd yn ystyried materion eraill a oedd tu allan i gylch gorchwyl Sec-1 ond sy'n dal tu mewn i sgôp y term 'seiberddiogelwch'.

Prif Ddarganfyddiadau

Roedd y profion a gynhaliwyd gan Sec-1 yn effeithiol a chawsant eu gweithredu gyda'r lefel briodol o sgil a phrofiad. Yn dilyn y profion a'r mesurau adfer arfaethedig, mae rhwydwaith y Cyngor wedi cael ei ardystio fel un sy'n ddigon diogel i barhau â'i aelodaeth o'r PSN. Roedd safon a nifer y profion a gafodd eu gwneud yn gynhwysfawr a chawsant eu cynnal yn bennaf drwy ddefnyddio sganwyr meddalwedd awtomataidd a ddyluniwyd i adnabod gwendidau diogelwch rhwydwaith mor fuan ac mor effeithiol â phosib. Adnabuwyd nifer o broblemau, y rhan fwyaf yn y rhwydwaith mewnol sy'n cael ei amddiffyn gan furiau cadarn a dulliau amddiffyn perimedrau'r Cyngor, ond darganfuwyd pum mater diogelwch risg-uchel yn y profion allanol, h.y. profion a gynhaliwyd dros y Rhyngrwyd fel petai rhywun allanol yn ceisio hacio i gael mynediad. Wrth edrych yn fanwl ar y risgiau diogelwch allanol, roedd tri ohonynt yn gysylltiedig â'r systemau a weithredir gan Cynnal, a dau ohonynt yn gysylltiedig â system brawf ar gyfer tracio ceir fflyd a oedd yn cael ei ddatblygu ac nad oedd yn cynnwys data byw.

Mae'r Gwasanaeth TG wedi cynhyrchu cynllun adfer i gynnwys yr holl faterion a nodwyd yn adroddiadau Sec-1; a disgwylir y byddant wedi cael eu datrys erbyn diwedd Ebrill 2016.

**Barn Archwilio**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yn seiberddiogelwch Cyngor Gwynedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond y gellid cryfhau rhai agweddau ar weithdrefnau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Gwasanaeth TG gynnal profion bregusrwydd mewnol yn amlach, yn ogystal a'r profion blynyddol sydd eu hangen ar gyfer y dystysgrif PSN. Dylid cynnwys systemau Cynnal yn y profion hyn, er bod iddynt statws lled-annibynnol. Deellir bod TG wedi cychwyn ar brosiect yn barod i gaffael yr offer meddalwedd angenrheidiol.**
- **Ni ddylid gadael systemau sy'n agored i'r Rhyngrwyd gydag unrhyw osodiadau gweinyddol rhagosod, hyd yn oed os ydynt yn parhau i gael eu datblygu ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw ddata busnes.**
- **Yn unol â chyngor Sec-1, dylid diffodd NetBIOS dros TCP/IP drwy'r holl rwydwaith. Cyn gwneud hynny, dylid gweithredu archwiliad NTLM am gyfnod prawf ar y prif weinyddwyr a rheolyddion parth er mwyn adnabod pa systemau sy'n trosglwyddo'r hash NTLM ac i sicrhau fod ganddynt ddulliau dilysu eraill cyn cau NetBIOS.**
- **Dylid cynnal profion diogelwch ychwanegol er mwyn astudio'r risg o golli data yn fanylach.**

Atodiad 23

**TREFNIADAU WRTH GEFN A PHROSESAU ADFER TG**
**Cyllid**

Pwrpas yr Archwiliad

Diben yr adroddiad hwn yw gwerthuso'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd mewn lle i reoli trefniadau wrth gefn ac adfer systemau TG. Cynhaliwyd yr archwiliad gan Steve Rimell o Rimell Associates Ltd yn ystod y cyfnod rhwng 1-5 Chwefror 2016, ac roedd yn cynnwys cyfweliadau gyda staff TG dewisol, arsylwi gweithdrefnau a datblygu sgriptiau archwilio meddalwedd i echdynnu gwybodaeth o systemau wrth gefn allweddol TG.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cynnwys y trefniadau wrth gefn a phrosesau adfer data sydd wedi'i storio ar systemau TG Cyngor Gwynedd. Nid oedd systemau TG ysgolion a sefydliadau eraill a allai fod â mynediad i rwydwaith y Cyngor o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys ystyriaeth fanwl o'r gweithdrefnau parhad busnes ac adfer trychineb, dim ond y modd yr effeithir arnynt gan y gweithdrefnau ategu data wrthgefn.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae'r systemau meddalwedd wrth gefn ac adfer a ddefnyddir gan TG wedi'u awtomeiddio cyn belled â phosib ac maent yn gweithio'n effeithiol. Mae'r holl ffeiliau wrthgefn yn cael eu creu drwy ddefnyddio storfa disg ar y rhwydwaith - nid oes angen bellach am system dâp magnetig wrthgefn, sydd o ganlyniad yn gynt ac yn fwy dibynadwy. Mae Rheolwr Adfer Safleoedd (SRM) VMWare yn rheoli'r systemau busnes hanfodol, fel bod modd eu hadfer cyn gynted ag y bo modd petai colled yn y brif ganolfan ddata yn y Pencadlys. Mae cymwysiadau a oedd yn ddibynnol ar systemau lle nad oedd modd defnyddio SRM bellach wedi'u disodli neu wedi'u trosi, ac mae canolfan ddata wrthgefn eilaidd yn safle Penrallt yn darparu cyfleuster storio data ychwanegol, sy'n lleihau'r risg o golli data ymhellach.

Nodwyd rhai problemau yn ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer adnabod yr holl systemau y dylid eu hategu wrth-gefn yn gywir, ac nid yw'r Cynllun Parhad Busnes TG yn adlewyrchu'r newidiadau diweddar i'r Gwasanaeth TG nac ychwaith y meddalwedd wrth-gefn newydd gan Commvault sy'n cael ei ddefnyddio bellach.

Nid oes prawf cyflawn a ffurfiol wedi'i gynnal yn y flwyddyn ariannol gyfredol o allu'r SRM i drosglwyddo i'r ganolfan ddata amgen petai methiant yn y brif system, er llwyddwyd i drosglwyddo'r systemau pan fu'n rhaid datgysylltu'r pŵer yn y Pencadlys o ganlyniad i waith trydanol hanfodol.

Mae'n bosib y gellid gwella'r system ar gyfer ategu ac adfer cyfrineiriau gweinyddol lefel-uchel drwy gyflwyno system cell cyfrineiriau.

**<u>Barn Archwilio</u>**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yn y trefniadau wrth gefn a'r prosesau adfer gan fod rheolaethau mewn lle, ond y gellid cryfhau rhai agweddau ar weithdrefnau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru'r cynllun Parhad Busnes TG i adlewyrchu strwythur newydd y gwasanaeth TG, a defnyddio'r meddalwedd wrth-gefn IntelliSnap newydd, ynghyd â threfn flaenoriaethu'r system i'w ddefnyddio gan SRM wrth adfer systemau petai'n rhaid defnyddio'r gweithdrefnau adfer trychineb.**
- **Dylai'r Tîm Cwmwl newydd gwblhau'r prosiect cyfredol i sefydlu gweithdrefn i alluogi timau eraill yn y gwasanaeth i'w hysbysu pan fo system newydd yn cael ei chyflwyno ar-lein, er mwyn ei chynnwys yn yr amserlen wrth gefn awtomatig.**
- **Dylai'r Gwasanaeth TG ystyried defnyddio cell cyfrineiriau i storio'r holl gyfrineiriau sydd eu hangen ar staff cefnogol TG, gan y byddai'n gwella'r diogelwch ar gyfer y cyfrineiriau, ac yn darparu trywydd archwilio o'u defnydd.**
- **Dylid cynnal y prawf trosglwyddo blynyddol cyn gynted ag y bo modd, a'i gofnodi'n llawn, ac yn ddelfrydol ei gynnal fel petai aelod allweddol o'r tîm yn absennol, er mwyn profi gallu TG i oroesi methiant yn y system pan na fyddai rheolwyr arferol y system yn bresennol.**

Atodiad 24

**RHAGLENNI HYFFORDDIANT GWEITHWYR GOFAL**
**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Cefndir

Mae hyfforddiant gweithwyr gofal yn cael ei ariannu yn rhannol gan grant y Llywodraeth (The Social Care Workforce Development Programme - SCDWP) ac yn rhannol gan Lywodraeth Leol. Eglurwyd bod cais am y grant gan y Llywodraeth 2015-16 wedi ei gyflwyno'n rhanbarthol gan 6 awdurdod lleol (sef Cynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam) gyda phob awdurdod yn cyflwyno cynlluniau unigol i gyfarfod yr anghenion lleol.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer cwrdd ag anghenion hyfforddi gweithwyr gofal y Cyngor a bod y gweithwyr yn mynychu unrhyw hyfforddiant mandadol ynghyd â gwirio argaeledd cyrsiau perthnasol.

Cwmpas yr Archwiliad

Yn ystod yr archwiliad adolygwyd y trefniadau hyfforddi sydd mewn lle gan sicrhau bod hyfforddiant statudol yn cael ei gynnal i sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau deddfwriaethol ynghyd â hyfforddiant mandadol sy'n ofynnol gan y Cyngor i liniaru risgiau a sicrhau arferion gwaith diogel. Yn ogystal, detholwyd sampl o weithwyr gofal a sicrhau eu bod wedi mynychu sesiynau hyfforddi a bod yr hyfforddiant maent wedi ei dderbyn yn briodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn nhrefniadau Rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Gofal.

Gwiriwyd cofnodion hyfforddi sampl o weithwyr a sicrhawyd eu bod wedi derbyn anwythiad llawn o fewn y 12 wythnos gyntaf o ymuno â'r Cyngor. Mae'r anwythiad yn ofynnol ac yn cyfrannu tuag at bortffolio datblygu'r gweithwyr sydd yn rhan o'r fframwaith cenedlaethol 'Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru'.

Mae'r Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gosod cymwysterau mewn tri chategori, yn fras: cymwysterau gofynnol ar gyfer cofrestru; y rhai sydd eu hangen er mwyn bodloni Safonau Gofynnol Cenedlaethol; a chymwysterau a argymhellir ar gyfer swyddi eraill. Mae'r cymwysterau sydd yn ofynnol i wasanaeth fodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol perthnasol yn cael eu defnyddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC / CSSIW) i reoleiddio gwasanaethau. Er mwyn cyfarfod y gofynion yma disgwylir i 50% o'r holl weithwyr gofal feddu ar y cymwysterau priodol a phrofwyd hyn yn yr archwiliad.

Yn dilyn cyflwyniad 'Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)' y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n ofynnol erbyn 2020 bod gweithwyr gofal yn gofrestredig cyn y byddent yn cael gweithio yn y maes gofal. Bydd rhaglen datblygu tair blynedd i weithwyr gofal cartref yn cychwyn ym mis Ebrill 2016 a bydd y gofrestr yn agor ym mis Ebrill 2018. Yn ogystal, erbyn 2022 bydd angen i bob gweithiwr gofal preswyl fod yn gofrestredig.

Mae rhestr o gyrsiau hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal ar gael ar wefan gyhoeddus y Cyngor yn ogystal â ffurflen gais pwrpasol. Yn ystod yr archwiliad 'Gofal Cartref - Cyfathrebu â Gofalwyr Cymunedol' cynhaliwyd sgyrsiau gyda'r gofalwyr ynglŷn â threfniadau cyfathrebu gan gynnwys yr hyfforddiant oedd wedi ei dderbyn. Daeth i'r amlwg nad oedd rhai o'r gofalwyr yn ymwybodol bod rhestr hyfforddiant ar gael ar wefan y Cyngor ac mai trwy eu Goruchwyliwr yn unig a fuasent yn dod i wybod am gyrsiau.

Yn ogystal, nid oeddynt yn ymwybodol bod cyrsiau corfforaethol ar gael iddynt megis cyrsiau iaith. Fodd bynnag, gwelwyd bod taflen 'Datblygu Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg' yn cael ei gynnwys ym mhecyn anwytho'r gweithwyr sydd yn cynnig cefnogaeth i ddysgu Cymraeg a gwella sgiliau.

Mae rhai cyrsiau yn cael eu paratoi trwy'r system E-ddysgu ond nid yw'r system yn bwydo'r wybodaeth i'r Bas-data Dysgu a Datblygu felly nid yw'r uned yn ymwybodol o bwy sydd wedi gwneud beth heb fynd i'r ddwy system ar wahân. Mae'r uned wedi bod mewn cysylltiad â'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaethol Rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Gofal gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid hysbysu gweithwyr gofal bod modd iddynt wirio rhestr o hyfforddiant sydd ar gael iddynt ar wefan y Cyngor yn ogystal â'u hysbysu o gyrsiau corfforaethol e.e. datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, iaith Gymraeg a.y.b.**
- **Dylid symud ymlaen gyda cheisio cael datrysiad ar gyfer bwydo gwybodaeth hyfforddiant gweithwyr o'r system E-ddysgu i'r Bas-data Dysgu a Datblygu er mwyn cael cysoniad.**

Atodiad 25

**AROLYGIADAU FFYRDD**
**Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Cefndir

Mae priffyrdd Gwynedd yn cael eu harolygu'n rheolaidd i sicrhau bod eu cyflwr yn ddiogel. Mae'r drefn o arolygu'r priffyrdd hefyd yn fodd o adnabod diffygion cyn iddynt waethygu ac arwain at gostau atgyweirio ychwanegol. Fe allasai'r Cyngor orfod talu iawndal pe bai ymchwiliad yn canfod fod y Cyngor heb gwblhau'r gwaith arolygu ffyrdd perthnasol neu ymateb i ddiffygion yn unol â'r hyn sydd wedi ei nodi yn y Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd.

Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y gwiriadau perthnasol yn cael eu cynnal ar briffyrdd Gwynedd fel y gellid adnabod ac atgyweirio unrhyw ddiffygion yn ôl y gofyn a sicrhau diogelwch eu defnyddwyr. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau arolygu ffyrdd yr Adran, gan gynnwys sicrhau bod y ffyrdd yn cael eu gwirio yn rheolaidd a bod gweithrediad petai diffygion yn cael eu hamlygu gan yr arolygwyr neu aelodau'r cyhoedd, a bod dogfennaeth briodol yn cael ei gadw fel tystiolaeth. Nid yw'r Adran yn gyfrifol am gynnal arolygiadau ar lwybrau beic oddi ar y rhwydwaith priffordd gyhoeddus, oherwydd bod hyn yn gyfrifoldeb yr Adran Rheoleiddio, ond mae'r Adran ar hyn o bryd wedi eu comisiynu gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i gynnal rhannau o'r cefnffyrdd.

Prif Ddarganfyddiadau

Dengys yr archwiliad bod gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol drefniant priodol o gynnal gwiriadau ffyrdd rhagweithiol yn ogystal â threfn o ymateb i gwynion. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd ymateb i nifer o geisiadau am ddogfennau. Mae'r Adran yn wynebu newidiadau mawr o ganlyniad i'r toriadau ariannol o fewn y Cyngor, yn ogystal ag ymateb i'r newidiadau sy'n cymryd lle yn Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Bydd hyn yn gorfodi'r Adran i ymgymryd â'r gwaith arolygu, cynnal a chadw ac archwilio cwynion gyda llai o adnoddau. Y risg yw petai'r lleihad mewn adnoddau yn arwain at leihad mewn gwaith rhagweithiol, yna gall hyn arwain at gynnydd mewn hawliadau yswiriant. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Adolygiad Strategol Priffyrdd 2016 yn argymell cynnal adolygiad o'r gwasanaeth fel rhan o'r prosiect "Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith", gyda'r gobaith o fanteisio ar unrhyw gyfle am effeithlonrwydd drwy wella prosesau gweinyddol.

Mewn perthynas â'r her ariannol sy'n wynebu'r Adran, buasai'n fuddiol i ail-ymweld â'r maes 'Arolygiadau Ffyrdd' yn y dyfodol, yn enwedig ar ôl i'r Gwasanaeth gwblhau adolygiad fel rhan o'r prosiect "Ffordd Gwynedd".

Gwiriwyd y Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ar y 24ain o Fehefin 2010. Mae'r Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn cynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn symud pobl a nwyddau mewn modd diogel a chyfleus. Mae trefn gadarn o gynnal archwiliadau diogelwch amserol yn cefnogi amddiffyniad dan Adran 58 o Ddeddf Priffyrdd 1980, petai digwyddiad neu ddamwain ar y rhwydwaith. Detholwyd sampl o ffyrdd o gategorïau gwahanol yn y dair ardal er mwyn gwirio amlder yr arolygon.

Derbyniwyd adroddiadau ar gyfer ffyrdd Arfon oedd yn dangos eu bod yn cael eu harolygu fel y disgwyl, ond ni dderbyniwyd ymateb gan Ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd er mwyn gallu cynnal y profion archwilio. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Uned Yswiriant eu bod hwy yn derbyn yr adroddiadau arolygon yn amserol gan yr Ardaloedd, fel amddiffyniad pan mae achwynydd yn gwneud hawliad yn erbyn y Cyngor am golled sy'n deillio o ddiffyg ar y rhwydwaith.

Pan fo ffordd yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor, bydd yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn derbyn memorandwm a chynllun o leoliad y ffordd gan yr Adran Rheoleiddio. Derbyniwyd rhestr o ffyrdd sydd wedi eu mabwysiadu ers Ebrill 2014, a gwiriwyd i weld os ydynt wedi cael eu hychwanegu i'r rhwydwaith. Yn y sampl a ddetholwyd, gwelwyd nad oedd 'Turning Area, Eifion Terrace, Talysarn' a 'Gwel y Môr (Marine Parade), Tywyn', wedi eu cynnwys. Mynegodd y Cymhorthydd Technegol ei fod yn arfer derbyn rhestr fisol o ffyrdd sydd wedi cael eu mabwysiadu gan yr Adran Rheoleiddio, ond bod hyn heb ddigwydd ers peth amser. Fodd bynnag, ar ôl holi'r Peiriannydd Cynorthwyol, derbyniwyd copi o femorandwm anfonwyd at sylw'r Peiriannydd Ardal perthnasol yn hysbysu'r ffaith bod y ffyrdd wedi eu mabwysiadu. Gwelwyd felly mai gwendid cyfathrebu o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol arweiniodd at y ddwy ffordd yma i beidio ymddangos ar y rhwydwaith.

Mae modd i aelodau o'r cyhoedd ynghyd â mudiadau allanol gysylltu â'r Cyngor drwy Galw Gwynedd i hysbysu am unrhyw ddiffygion ar y ffyrdd. Unwaith y bydd galwad yn dod i mewn, bydd yn cael ei gofnodi ar y system Siebel a fydd yna'n cynhyrchu e-bost yn awtomatig i fewnflwch yr Ardal a'i anfon at yr Arolygwr perthnasol fydd yna'n ymweld â'r safle. Un gwendid yr adnabuwyd gyda'r drefn oedd bod hen alwadau'n cael eu hail agor pe bai yr un person yn cysylltu eto. Pan fo galwadau yn cael eu hail agor, nid yw'r weithred flaenorol yn cael ei ddangos ar y daflen. Byddai cynnwys hyn o gymorth i'r swyddog sydd yn ymdrin â'r mater ac i leihau amser wrth ymdrin â'r cais.

Derbyniwyd adroddiad Siebel sy'n cofnodi pob cwyn 'Potholes' a dderbyniwyd fesul ardal rhwng y 01/04/2014 a 31/03/2015. Gwelwyd fod 67 o gwynion Meirionnydd yn 'agored' a dim ond 31 'wedi cau', yn wahanol i'r Ardaloedd eraill oedd ond gyda canran isel iawn yn parhau'n 'agored'. Cyfrifoldeb yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yw cau'r ymholiad pan mae'r gwaith wedi ei wneud. Detholwyd sampl o 3 cwyn ymhob ardal er mwyn sicrhau eu bod wedi eu hanfon ymlaen at y swyddog priodol a bod y gwyn wedi ei gweithredu fel y disgwyl, ond ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth ardal Arfon.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb 'Arolygiadau Ffyrdd' gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Ar ôl mabwysiadu ffordd, argymhellir i'r Adran Rheoleiddio gynnwys y Cymhorthydd Technegol yn rhestr dosbarthiad y memorandwm hysbysu mabwysiadu.**
- **Os yw galwadau yn cael eu hail agor, dylid cynnwys y weithred flaenorol ar y daflen.**
- **Dylid cau ymholiad unwaith mae'r gwaith wedi cael ei gwneud.**

# INCWM MEYSYDD PARCIO
## Rheoleiddio

Cefndir

Mae cwmni diogelwch allanol yn gwacau’r peiriannau parcio, allbrintio adroddiadau a chyfri a thalu’r arian i mewn i gyfrif banc y Cyngor yn unol â’r cytundeb a osodwyd yn ystod 2015/16. Gofynnir i oruchwylwyr parcio ymweld â’r meysydd parcio yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y peiriannau casglu arian yn gweithio a’u bod yn cael eu gwacau.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol mewn lle ar gyfer casglu, bancio, cysoni a phrosesu'r incwm a gesglir o’r peiriannau yn y meysydd parcio a gwirio bod trefniadau priodol ar gyfer unrhyw ddirwyon a gaiff eu dyroddi.

Cwmpas yr Archwiliad

Yn ystod yr archwiliad adolygwyd y trefniadau cyfredol ar gyfer casglu, bancio a chysoni incwm o feysydd parcio Cyngor Gwynedd; bod unrhyw gytundeb gyda thrydydd parti yn nodi’n glir yr amodau a thelerau gan gynnwys ansawdd disgwyliedig a ffactorau megis amlder casgliadau a.y.b. Yn ogystal, cysoni incwm dirwyon parcio a gaiff eu prosesu gan Gyngor Sir Ddinbych sydd yn arwain ar y bartneriaeth Gorfodaeth Parcio gan gynnwys adolygu a chymharu proffil yr incwm a dderbynnir.

Prif Ddarganfyddiadau

Ers Awst 2015 mae cwmni G4S Cash Solutions (UK) Limited yn gyfrifol am gasglu a phrosesu’r arian o beiriannau meysydd parcio Cyngor Gwynedd.

Mae’r cwmni yn casglu’r arian ac yn cymryd darlleniadau archwilio o’r peiriannau yn unol â’r amserlen sydd wedi ei gynnwys yn y cytundeb. Mae trefniadau bancio’r cwmni hefyd wedi eu hamlinellu yn y cytundeb.

Mae Swyddogion Gorfodaeth Sifil yn ymweld â'r peiriannau ac yn gwirio'i defnydd h.y. faint o arian sydd wedi ei gymryd. Os yw'r defnydd ohonynt yn sylweddol llai mae modd gostwng nifer y casgliadau. Yn ogystal â lleihau ar y casgliadau mae modd cau rhai o'r peiriannau casglu arian i lawr oherwydd nad oes defnydd o rhai o'r meysydd parcio yn ystod tymhorau’r Gaeaf. Cymharwyd incwm sampl o feysydd parcio o dair ardal yng Ngwynedd a gwelwyd bod yr incwm yn lleihau yn sylweddol yn rhai o'r meysydd parcio yn enwedig yn chwarter 4.

Mae trefniadau mewn lle ar gyfer derbyn, gwirio a phrosesu’r incwm sydd wedi ei brosesu gan gwmni G4S. Mae swyddogion perthnasol yn derbyn e-bost gydag adroddiad 'Daily Cash Processing Report for ...' sydd yn nodi'r arian sydd wedi ei gredydu i'r Cyngor, o ba beiriant a pha ddyddiad. Gwiriwyd yr adroddiadau a dderbynnir gan G4S am gyfnod o 10 diwrnod a sicrhawyd bod yr hyn roeddynt yn honni sydd yn cael ei gredydu yn wirioneddol gael ei gredydu i gyfrif y Cyngor. Ni ddarganfuwyd unrhyw anghysondebau.

Mae adroddiadau G4S hefyd yn cynnwys cofnod o unrhyw anghysondebau rhwng yr adroddiadau o'r peiriannau a'r arian a gasglwyd. Eglurwyd bod anghysondebau yn digwydd oherwydd amryw resymau e.e. arian yn mynd yn sownd. Yn ddiweddar, roedd un achlysur difrifol wedi codi lle bu gwahaniaeth sylweddol rhwng y swm a gasglwyd a chyfanswm a nodwyd gan y peiriant. Dilynodd swyddogion yr Uned Parcio'r canllawiau priodol ar gyfer cychwyn y broses o gynnal ymchwiliad mewnol gan G4S ac o ganlyniad i hyn fe gafodd y camgymeriad ei gywiro gan y cwmni. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod gan yr Uned drefniadau eu hunain ar gyfer gwirio'r adroddiadau o'r peiriannau yn erbyn yr arian a dderbynnir i'r cyfrif banc neu'r cyfriflyfr er mwyn sicrhau bod yr holl arian yn cael ei fancio.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaethol Incwm Meysydd Parcio gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried creu adroddiadau 'trend analysis' yn chwarterol fel bod modd rhedeg y gwasanaeth yn fwy cost effeithiol h.y. lleihau casgliadau arian ar adegau distaw.**
- **Dylid sicrhau bod yna drefniadau mewn lle ar gyfer sicrhau bod yr arian a dderbynnir i'r cyfrif banc neu'r cyfriflyfr yn cyd-fynd gyda'r adroddiadau o'r peiriannau er mwyn sicrhau bod yr holl arian yn cael ei fancio.**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **5 MAI 2016** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

**1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL**

1.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio***

**2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS**

2.1 Mae Nodyn CIPFA sy'n cymhwyso Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i Lywodraeth Leol yn datgan:

*"Mae'r sefydliad yn gyfrifol am sefydlu a chynnal prosesau rheoli risg priodol, systemau rheoli, cofnodion cyfrifo a threfniadau llywodraethu. Mae Archwiliad Mewnol yn chwarae rhan hanfodol o ran cynghori'r sefydliad bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n briodol. Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol, sy'n gwybyddu'r datganiad llywodraethu, yn pwysleisio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd yr agwedd hon ar waith archwilio mewnol."*

2.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2015/16 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

**3. SICRWYDD CYFFREDINOL**

3.1 **Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2015/16, yn fy marn i, mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyfiawnhad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i gynnal a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.**

3.2 **Ystyriaethau**

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg.
- Ble canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, y Gweithgor Gwella Rheolaethau neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

## 4. GWAITH ARCHWILIO

### Cynllun Archwilio

4.1 Roedd 74 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2015/16. Cafodd 73 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2016, sy'n cynrychioli **98.65%** o'r cynllun. At bwrpasau'r dangosydd yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.

4.2 Mae'r perfformiad yma yn cymharu â perfformiad 2014/15 o 95.6%, yn erbyn targed o 95%.

4.3 Yr archwiliad o gynllun 2015/16 lle nad oedd yr adroddiad wedi ei ryddhau'n derfynol erbyn 31 Mawrth oedd:

- ***Modelu'r Gweithlu – Ysgol Llanllechid.*** Mae'r gwaith paratoi eisoes wedi ei gwblhau ar gyfer yr archwiliad ac fe drefnwyd i ymweld â'r ysgol i gynnal yr archwiliad. Fodd bynnag, eglurodd y Pennaeth eu bod yn destun arolygiad gan Estyn a gofynnwyd petai modd llithro ymweliad Archwilio Mewnol i fis Ebrill/Mai – cytunwyd i wneud hynny.

4.4 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2015/16 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

4.5 Ble'n berthnasol, caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio er mwyn rhoi barn archwilio gyffredinol ar amgylchedd reolaeth y system neu sefydliad benodol dan sylw.

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

| | |
|---|---|
| Barn “CH” | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. |

4.6 Cafodd pob argymhelliad a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau’r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol, ac i sefydlu ymarfer da.

4.7 O’r 73 aseiniad yng nghynllun archwilio 2015/16 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y categorïau barn canlynol:

| Categori Barn | Nifer Archwiliadau |
|---|---|
| A | 10 |
| B | 37 |
| C | 13 |
| CH | 0 |
| Dim Categori | 13 |
| **Cyfanswm** | **73** |

4.8 O’r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2015/16 a dderbyniodd gategori Barn ‘A’ i ‘Ch’, derbyniodd 78.33% ohonynt farn ‘A’ neu ‘B’. Mae’r ffigwr yn is na’r ffigwr cyfatebol o 82.4% ar gyfer 2014/15.

4.9 Ni dderbyniodd unrhyw archwiliad farn ‘Ch’.

4.10 Caiff crynodeb gweithredol adroddiadau llawn eu cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio ar ôl i’r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda’r cleiant a’i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori bran, mae’r Pwyllgor Archwilio yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau’r archwiliadau perthnasol ble’n briodol.

4.11 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2015/16. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| Dyddiad Rhyddhau’r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol | Dyddiad Adrodd i’r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|
| 1 Ebrill 2015 – 30 Mehefin 2015 | 16 Gorffennaf 2015 |
| 1 Gorffennaf 2015 – 11 Medi 2015 | 24 Medi 2015 |
| 14 Medi – 31 Hydref 2015 | 1 Rhagfyr 2015 |
| 1 Tachwedd 2015 – 31 Ionawr2016 | 11 Chwefror 2016 |
| 1 Chwefror 2016 – 31 Mawrth 2016 | 5 Mai 2016 |

**Addasiadau i’r Cynllun**

4.12 Adroddwyd yn rheolaidd i’r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i’r cynllun archwilio.

**Gwaith Dilyniant**

4.13 Rhyddhawyd memorandwm terfynol ar gyfer 9 o archwiliadau dilyniant yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016. Derbyniodd wyth o'r archwiliadau hyn farn “derbyniol” neu well. Mae hyn yn awgrymu fod trefniadau cadarn ar y cyfan o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

**Gweithgor Gwella Rheolaethau**

4.14 Parhaodd y Gweithgor Gwella Rheolaethau gyda’i waith o gryfhau trefniadau’r Cyngor i ymateb i adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae’r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) yn cwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac yn trafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i’r rhain mewn mwy o ddyfnder. Mae pob archwiliad sydd wedi derbyn barn ‘C’ neu ‘Ch’ yn cael sylw yno, gyda swyddogion yn cael eu gwahodd yno i egluro’r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella’r sefyllfa.

## 5. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

**Staffio a Chymwysterau**

5.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth “Pennaeth Archwilio Mewnol”. Mae’r Rheolwr Archwilio yn atebol i’r Uwch Reolwr Refeniw a Risg, sydd yn atebol i’r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio, un Arweinydd Archwilio ac Uwch Archwiliwr gymhwyster CIPFA llawn, ac mae gan Arweinydd Archwilio arall gymhwyster ‘Diploma CIPFA mewn Archwilio Cyhoeddus’. Mae un Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster CIPFA.

5.2 Ers 1 Ebrill 2015, 7 aelod llawn amser sydd i’r Tîm Archwilio Mewnol.

**Y defnydd a wneir o adnoddau staff**

5.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Tynnir sylw’r Pwyllgor i’r canlynol:

- Mae’r tabl yn arddangos lleihad yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i’w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd o ganlyniad i’r ail-strwythuro, o **1,587** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 i **1,117** diwrnod am yr un cyfnod yn 2015/16, lleihad sylweddol o **470** diwrnod sy’n adlewyrchu newid i’r strwythur.
- Yn ystod 2015/16, bu i Archwilio Mewnol symud o swyddfa Penrallt i adeilad Plas Llanwnda – bu i hyn gymryd 27 diwrnod.
- Roedd y nifer o ddyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 58 diwrnod, mae hyn yn sylweddol is na’r dyddiau yn 2014/15 a oedd yn 150 diwrnod ond yn eithaf cyfatebol i nifer y dyddiau yn 2013/14 a oedd yn 56 diwrnod.
- Bu gostyngiad yn y nifer o ddyddiau a ddefnyddiwyd i gyflawni archwiliadau dilyniant - 41 diwrnod yn 2015/16 o gymharu â 125 diwrnod yn 2014/15.

## 6. PERFFORMIAD ARCHWILIO

6.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2015/16 fel a ganlyn:

| Disgrifiad Mesurydd | Perfformiad 2014/15 | Uchelgais 2015/16 | Canlyniadau 2015/16 |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod unai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau | 95.6% | 95% | **98.63%** |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn 'B' neu well (mesur corfforaethol) | 82.4% | 65% | **78.33%** |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 80.95% | 90% | **88.88%** |

6.2 Llwyddwyd i gwrdd â'r uchelgais oni bai am y canlynol:

- ***Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol)*** – roedd 8 archwiliad allan o 9 wedi cyrraedd barn "Derbyniol" neu well, felly un archwiliad dilyniant oedd wedi methu dod i'r safon disgwyliedig.

**7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2016/17**

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2016/17 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2016. Mae'r cynllun diweddaraf, yn cynnwys addasiadau ers y Pwyllgor, wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

7.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Dengys fesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17 isod:

| Mesur | Uchelgais 2016/17 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod unai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau | 95% | Cynnal |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn 'B' neu well (mesur corfforaethol) | 65% | Cynnal |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 90% | Cynnal |

**8. ARGYMHELLIAD**

8.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2015/16.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2015/16

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Defnydd Ymgynghorwyr | **B** | 11 Chwefror 2016 |
| Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Gweithwyr Llaw | **B** | 11 Chwefror 2016 |
| Taliadau Cymorth Cyntaf | **C** | 16 Gorffennaf 2015 |
| Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Staff o'r Polisi | **B** | 5 Mai 2016 |
| Asesiad Corfforaethol | **Dim Categori** | |
| Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion - Gwasanaethau Risg Uchel | **B** | 5 Mai 2016 |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | **Dim Categori** | 5 Mai 2016 |
| Telerau Contractau - Trefniadau Diogelu | **B** | 5 Mai 2016 |
| Llywodraethu Gwybodaeth - Deddf Diogelu Data | **B** | 5 Mai 2016 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | **Dim Categori** | |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| Grant Addysg ôl-16 | **Dim Categori** | 11 Chwefror 2016 |
| Grant i Ysgolion Band 4 a 5 | **Dim Categori** | 11 Chwefror 2016 |
| Grant y Gymraeg mewn Addysg | **Dim Categori** | 11 Chwefror 2016 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | **Dim Categori** | 11 Chwefror 2016 |
| Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | **Dim Categori** | 11 Chwefror 2016 |
| Grant Llwybrau Dysgu 14-19 | **Dim Categori** | 11 Chwefror 2016 |
| Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | **B** | 5 Mai 2016 |
| Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn | **A** | 11 Chwefror 2016 |
| Cyfathrebu gydag Ysgolion | **B** | 24 Medi 2015 |
| **Arlwyo** | | |
| Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd- Ysgol Ardudwy | **C** | 5 Mai 2016 |
| Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd- Ysgol y Gader | **C** | 5 Mai 2016 |
| Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd- Ysgol y Moelwyn | **B** | 5 Mai 2016 |
| **Ysgolion** | | |
| Ysgol Gynradd Dolgellau | **B** | 16 Gorffennaf 2015 |
| Ysgolion Cyffredinol | **Dim Categori** | |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | **B** | 16 Gorffennaf 2015 |
| Modelu'r Gweithlu - Ysgol Treferthyr | **B** | 11 Chwefror 2016 |
| Modelu'r Gweithlu - Ysgol Llangybi | **B** | 5 Mai 2016 |
| Modelu'r Gweithlu - Ysgol Baladeulyn | **B** | 11 Chwefror 2016 |
| Modelu'r Gweithlu - Ysgol Gynradd Nebo | **B** | 11 Chwefror 2016 |
| Modelu'r Gweithlu - Ysgol Llanbedr | **B** | 5 Mai 2016 |
| Ysgolion - Llywodraethu | **B** | 1 Rhagfyr 2015 |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | **Dim Categori** | |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | |
| **Democratiaeth** | | |
| Hyfforddi a Datblygu Aelodau | **B** | 5 Mai 2016 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Cronfa'r Cadeirydd | **B** | 24 Medi 2015 |
| **Iechyd a Diogelwch** | | |
| Ysgolion - Iechyd a Diogelwch Ymweliadau Addysgol | **B** | 5 Mai 2016 |
| **CYLLID** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG | **C** | 24 Medi 2015 |
| **Ariannol** | | |
| System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 5 Mai 2016 |
| System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 5 Mai 2016 |
| **Cyfrifeg** | | |
| PSG - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 24 Medi 2015 |
| PSG gan gynnwys Dyledwyr a Taliadau - Cau i Lawr 2014-15 | **A** | 16 Gorffennaf 2015 |
| Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 5 Mai 2016 |
| Cysoni Banc - Cau i Lawr 2014-15 | **A** | 16 Gorffennaf 2015 |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 5 Mai 2016 |
| System Gyflogau - Cau i Lawr 2014-15 | **A** | 16 Gorffennaf 2015 |
| Cronfa Bensiwn - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 5 Mai 2016 |
| **Refeniw** | | |
| Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 5 Mai 2016 |
| Systemau Refeniw - Cau i Lawr 2014-15 | **B** | 24 Medi 2015 |
| Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 5 Mai 2016 |
| Trethi Busnes - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 5 Mai 2016 |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| Rhyngwyneb Siebel - eFinancials | **A** | 24 Medi 2015 |
| Cybersecurity | **B** | 5 Mai 2016 |
| Trefniadau Wrth Gefn a Phrosesau Adfer TG | **B** | 5 Mai 2016 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| Cronfa Degwm | **Dim Categori** | |
| **Hamdden** | | |
| Canolfan Hamdden Arfon | **C** | 11 Chwefror 2016 |
| Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | **C** | 1 Rhagfyr 2015 |
| Canolfan Hamdden Glaslyn | **B** | 1 Rhagfyr 2015 |
| Canolfan Hamdden Penllyn | **B** | 1 Rhagfyr 2015 |
| **Prosiectau Sylweddol** | | |
| Academi Hwylio | **B** | 11 Chwefror 2016 |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Gofal Cartref | **B** | 11 Chwefror 2016 |
| Llywodraethu trefniadau cydweithio gyda'r 3ydd Sector | **B** | 11 Chwefror 2016 |
| Rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Gofal | **B** | 5 Mai 2016 |
| **Gofal Cymunedol** | | |
| Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol | **C** | 16 Gorffennaf 2015 |
| **Oedolion** | | |
| Dilysrwydd Anfonebau Darparwyr Preifat | **B** | 24 Medi 2015 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **Preswyl a Dydd** | | |
| Plas y Don, Pwllheli | **C** | 11 Chwefror 2016 |
| Plas Hedd, Bangor | **C** | 11 Chwefror 2016 |
| Hafod Mawddach, Abermaw | **B** | 11 Chwefror 2016 |
| Cefn Rodyn, Dolgellau | **C** | 1 Rhagfyr 2015 |
| Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi | **C** | 24 Medi 2015 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| Cynnal a chadw adeiladau a safleoedd | **C** | 11 Chwefror 2016 |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| Arolygiadau | **B** | 5 Mai 2016 |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| Pont Briwet | **Dim Categori** | 11 Chwefror 2016 |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | **C** | 1 Rhagfyr 2015 |
| Incwm Meysydd Parcio | **B** | 5 Mai 2016 |

**Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob categori barn, Cynllun 2015/16:**

| | Nifer archwiliadau |
|---|---|
| A | **10** |
| B | **37** |
| C | **13** |
| Dim Categori | **13** |
| **Cyfanswm** | **73** |

**Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:**

| 2014/15 | | 2015/16 |
|---|---|---|
| **2,594** | **Cyfanswm Dyddiau** | **1,866** |
| 390 | Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol) | 315 |
| **2,204** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **1,551** |
| | Llai: | |
| 16 | Gwyliau Arbennig | 22 |
| 29 | Salwch | 24 |
| 10 | Hyfforddiant Proffesiynol | 3 |
| 106 | Hyfforddiant Swydd | 53 |
| **2,043** | **Dyddiau ar gael** | **1,449** |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| 8 | Adolygu Perfformiad (Gwerthuso) | 0 |
| 12 | Apwyntiadau Meddygol | 11 |
| 33 | Cofnodi a Rheoli Amser | 26 |
| 88 | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | 63 |
| 1 | Cyfarfodydd-Gwaith ar y cyd a SAC | 0 |
| 11 | Cyflwyno Hyfforddiant | 2 |
| 1 | Cynnal Cyfweliadau | 4 |
| 38 | Gwaith Cefndirol | 29 |
| 36 | Gweinyddiaeth ayb. | 23 |
| 13 | Pwyllgor Archwilio | 4 |
| 100 | Rheolaeth Archwilio Mewnol | 93 |
| 4 | Rheoli Absenoldebau | 2 |
| 0 | Symud Swyddfa | 27 |
| 1 | Tasgau Cydweithio Gogledd Cymru | 0 |
| 8 | Trafferthion TG | 7 |
| 33 | Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol | 9 |
| 1 | Ymarferiadau Tân | 0 |
| 27 | Llai: gwaith rheolaethol arall (Uwch Reolwr) | 0 |
| **1,628** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **1,149** |
| 30 | Gwaith APCE | 32 |
| 11 | Gwaith CTE | 0 |
| **1,587** | **Cyfanswm dyddiau cynhychiol, Cyngor Gwynedd** | **1,117** |

**Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:**

| 2014/15 | | 2015/16 |
|---|---|---|
| 1,258 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 983 |
| 5 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 1 |
| 8 | Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol | 0 |
| 41 | Cynghori | 34 |
| 125 | Gwaith dilyniant | 41 |
| 150 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 58 |
| **1,587** | | **1,117** |

# Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | **20.00** |
| | Trefniadau Rheoli Ymadawiadau Cynnar | **20.00** |
| | Trefniadau Diogelu - Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | **10.00** |
| | Iechyd a Diogelwch - Coed | **10.00** |
| | Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi | **10.00** |
| | Trefniadau Diogelu - y Strwythur Gweithredol | **20.00** |
| | Asesiad Corfforaethol | **10.00** |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | **20.00** |
| | Rheoli Gwybodaeth | **10.00** |
| | Defnydd o Gardiau Credyd | **20.00** |
| | Y Fenter Twyll Genedlaethol | **50.00** |
| **Cynllunio Argyfwng** | | |
| | Cyflenwadau Tanwydd - Cynlluniau Rhanbarthol a Lleol | **12.00** |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| | Grant Amddifadedd Disgyblion | **5.00** |
| | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | **20.00** |
| | Grant Addysg Ôl-16 | **2.00** |
| | Trefniadau Diogelu ac Amddiffyn Plant | **25.00** |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | **15.00** |
| **Ysgolion** | | |
| | Ystadegau a Chyfrifiadau - Uwchradd | **15.00** |
| | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgolion Cynradd | **25.00** |
| | Ysgolion - Cyffredinol | **10.00** |
| | Diogelwch Gwybodaeth mewn Ysgolion | **25.00** |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | |
| | System e-proc - Trothwyon Goddefiant | **10.00** |
| **CYLLID** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Diogelwch Systemau TG | **30.00** |
| **Ariannol** | | |
| | System Dyledwyr - Anfonebau gyda statws "Canslo" | **12.00** |
| | Trothwyon Gwirio | **10.00** |
| **Cyfrifeg** | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | Strwythur Codio | **8.00** |
| **Refeniw** | | |
| | Taliadau Tai Dewisol | **10.00** |
| | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **12.00** |
| | Treth Cyngor - Gostyngiadau ac Eithriadau (Pobl) | **12.00** |
| | System Treth Cyngor - Connect | **10.00** |
| | Trethi Busnes - Gostyngiadau Elusennau | **8.00** |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | |
| **Cofrestru** | | |
| | Gwasanaeth y Crwner | **10.00** |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| | Cronfa'r Degwm | **5.00** |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | |
| | Storiel - Trefniadau Llywodraethu a Rheoli | **15.00** |
| **Hamdden** | | |
| | Canolfannau Hamdden | **40.00** |
| **Llyfrgelloedd** | | |
| | Cyfrifon Clybiau Ieuenctid | **15.00** |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| | Hafan | **10.00** |
| | Gwerthiant Disel | **10.00** |
| | Traethau - Ymweliadau Dirybudd | **10.00** |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Trefniadau Parhad Busnes-Gwasanaeth | **20.00** |
| | Rheolaeth Gyllidebol - Darparu | **15.00** |
| | Diogelu Rhag Colli Rhyddid | **15.00** |
| | Gweithwyr Cefnogol - Oedolion | **15.00** |
| **Busnes** | | |
| | Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol | **15.00** |
| **Gofal Cymunedol** | | |
| | Gwyliau Gofalwyr Cymunedol | **10.00** |
| **Oedolion** | | |
| | Taliadau Uniongyrchol | **15.00** |
| | Taliadau Annibyniaeth Bersonol | **15.00** |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| | Plas Pengwaith, Llanberis | **12.00** |
| | Plas Gwilym, Penygroes | **12.00** |
| | Bryn Blodau, Blaenau Ffestiniog | **12.00** |
| | Llys Cadfan, Tywyn | **12.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | Tai Cefnogol | **15.00** |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| | Grantiau | **24.00** |
| | Prosiect Gyda'n Gilydd | **15.00** |
| | Gweithwyr Cefnogol | **15.00** |
| | Mabwysiadu | **20.00** |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| | Ffioedd MOT | **10.00** |
| | Rheolaeth Fflyd | **12.00** |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| | Gwastraff Masnachol | **15.00** |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| | System Flare | **15.00** |
| | Iechyd Anifeiliaid | **15.00** |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| | Cynlluniau Cyfalaf Eiddo'r Cyngor | **15.00** |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | |
| | Trefniadau Recriwtio a Phenodi | **10.00** |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Goramser | **15.00** |
| | Cynlluniau Prosiect | **15.00** |
| | | **970.00** |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **5 MAI 2016** |
| TEITL | **HAWLIADAU YSWIRIANT YN ERBYN Y CYNGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **RHOI CYFLE I'R PWYLLGOR ARCHWILIO GRAFFU TREFNIADAU'R CYNGOR AR GYFER DELIO Â HAWLIADAU YSWIRIANT** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod Chwefror o'r Pwyllgor Archwilio yn amlinellu'r hawliadau yswiriant a wnaed yn erbyn y Cyngor yn 2013/14 a 2014/15, gan ddangos y rhai y bu modd i'r Cyngor eu hamddiffyn yn llwyddiannus, a'r rhai ble bu costau gan y Cyngor a/neu y cwmni yswiriant.

1.2 Roedd yr adroddiad yn ymateb i erthyglau yn y wasg yn dilyn cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn y maes.

1.3 Mae'r adroddiad yma yn cynnig diweddariad i'r eitem hwnnw, gan gynnwys yr wybodaeth berthnasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

1.4 Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am ddelio â materion yn ymwneud â risg, ac mae ymdrin â hawliadau yswiriant yn rhan o hynny. Felly, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", mae angen i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Dderbyn yr adroddiad yma sy'n egluro'r trefniadau o fewn Cyngor Gwynedd er mwyn delio gyda hawliadau yswiriant.**
- **Craffu'r drefn sydd yn ei le, er mwyn bod yn glir fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau fod taliadau yswiriant yn briodol.**

## 2. TREFNIADAU CYNGOR GWYNEDD O DDELIO Â HAWLADAU YSWIRIANT

2.1 Pwrpas yr Uned Yswiriant a Risg yw:

***Cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau***

2.2 Mae dau swyddog yn gweithio yn yr Uned, sef y Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant, a Swyddog Yswiriant

2.3 Mae'r tabl sydd wedi ei gynnwys y Atodiad 1 yn cynnwys manylion yr holl hawliadau yswiriant a setlwyd yn 2015/16.

2.4 O gofio pwrpas yr Uned, prif fesur perfformiad ein bod yn cyflawni ein pwrpas yw **Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0)**.

2.5 Mae dadansoddiad o'r holl hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr at setlwyd yn 2013/14, 2014/15 a 2015/16 yn dangos y canlynol:

**Atebolrwydd Cyhoeddus**

| | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** |
|---|---|---|---|
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi eu cau, gyda costau | 33 **(26%)** | 26 **(22.2%)** | 18 **(21.2%)** |
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi cau, heb gostau | 94 **(74%)** | 91 **(77.8%)** | 67 **(78.8%)** |
| Cyfanswm nifer yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi eu cau | 127 | 117 | 85 |

**Atebolrwydd Cyflogwr**

| | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** |
|---|---|---|---|
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyflogwr wedi eu cau, gyda costau | 5 **(55.6%)** | 3 **(43%)** | 2 **(25%)** |
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyflogwr wedi cau, heb gostau | 4 **(44.4%)** | 4 **(57%)** | 6 **(75%)** |
| Cyfanswm nifer yr hawliadau Atebolrwydd Cyflogwr wedi eu cau | 9 | 7 | 8 |

**Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr gyda'i gilydd**

| | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** |
|---|---|---|---|
| Nifer hawliadau Atebolrwydd wedi eu cau, gyda costau | 38 **(28%)** | 29 **(23.4%)** | 20 **(21.5%)** |
| Nifer hawliadau Atebolrwydd wedi cau, heb gostau | 98 **(72%)** | 95 **(76.6%)** | 73 **(78.5%)** |
| Cyfanswm nifer yr hawliadau Atebolrwydd wedi eu cau | 136 | 124 | 93 |

2.6 **Hynny yw, yn 2013/14 setlwyd 72%, yn 2014/15 setlwyd 76.6%, ac 2015/16 setlwyd 78.5% o hawliadau atebolrwydd yn erbyn Cyngor Gwynedd heb gostau.**

## 3. RÔL Y CWMNI YSWIRIANT

3.1 Roedd pob un o’r achosion sydd wedi eu rhestru yn yr Atodiad yn destun “excess” o £25,000 (ag eithrio dau achos yn dyddio cyn 1 Ebrill 2006, lle roedd yr “excess” yn £10,000). Cyngor Gwynedd oedd yn talu unrhyw gostau ar yr hawliadau unigol hyd at y trothwy yma, a’n cwmni yswiriant yn talu unrhyw symiau uwchben hynny.

3.2 Adroddwyd i’r Pwyllgor Archwilio yn Chwefror y bydd “excesses” ein polisïau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr yn cynyddu i £50,000 o fis Ebrill 2016 ymlaen. Ar sail dadansoddiad fanwl o’n hawliadau yn y gorffennol, daeth yr Adran Gyllid i’r casgliad y byddai’n gam resymol i gynyddu’r “excesses” yn y ffordd yma er mwyn manteisio ar y premiwm llawer is a fyddai’n deillio o hynny er fod posibilrwydd, wrth gwrs, y gallai ein costau gynyddu petai nifer yr hawliadau llwyddiannus yn ein herbyn yn cynyddu.

3.3 Bydd felly yn her barhaus, ar y cyd â holl wasanaethau’r Cyngor, i reoli ein risgiau yswiriadwy er mwyn lleihau damweiniau a chyhuddiadau o esgeulustod, nid yn unig am resymau ariannol, ond er lles ein cydweithwyr a’r cyhoedd.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio:

- **Dderbyn yr adroddiad yma sy’n egluro’r trefniadau ar gyfer delio gyda hawliadau yswiriant.**
- **Craffu’r drefn sydd yn ei le, er mwyn bod yn glir fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau fod taliadau yswiriant yn briodol.**

## Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a gaewyd yn 2015/16

Atodiad 1

| Rhif | Dyddiad y Digwyddiad | Manylion | Canlyniad | Iawndal | Uned Adfer Iawndal (CRU) | Costau Cyfreithiol y Cyngor | Costau Cyfreithiol yr Hawlydd | Ffioedd Eraill | Cyfanswm Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 14/03/2010 | Honiad fod yr hawlydd wedi llithro a derbyn anaf | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 2 | 21/11/2008 | Honiad fod hawlydd wedi anafu wrth gymeryd rhan mewn gwers gymnasteg | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 3 | 30/12/2015 | Gyrru dros arwydd 30 mya oedd disgyn oddi ar bolyn | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 4 | 26/01/2016 | Bin gwyrdd ysbwriel wedi chwythu fewn i gerbyd gan achosi difrod | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 5 | 03/01/2016 | Difrod i deiar cerbyd gan dwll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 6 | 23/12/2015 | Difrod i deiar cerbyd gan gerrig ar y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 7 | 04/12/2015 | Difrod i deiar cerbyd gan gwrb oedd wedi codi | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 8 | 10/11/2015 | Difrod i deiar cerbyd gan pan darodd styd plastig yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 9 | 22/10/2015 | Difrod i deiar ag aloi cerbyd gan polten 100mm oedd ar y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 10 | 25/08/2015 | Crafiadau i gerbyd gan gordyfiant ar ochr ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 11 | 29/08/2015 | Difrod i gerbyd pan fethodd 'jac' oedd yn cael ei ddefnyddio i godi'r cerbyd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 12 | 26/08/2015 | Difrod i sgrîn wynt cerbyd gan ddefnyddiwr gwasanaeth | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 13 | 18/07/2015 | Difrod i gerbyd oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 14 | 23/07/2015 | Difrod i gerbyd gan ffens oedd yn ymwthio i'r ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 15 | 03/08/2015 | Cadair olwyn wedi dod i stop mewn gwli ar balmant | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 16 | 07/08/2015 | Difrod i gerbyd gan dawelydd traffig | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 17 | 08/07/2015 | Difrod i deiar cerbyd gan gerrig ar ochr y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 18 | 01/07/2015 | Difrod i gerbyd gan dwll archwilio oedd wedi suddo | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 19 | 10/06/2015 | Hawlydd wedi baglu oherwydd fod bloc ar goll ar bafin | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 20 | 03/06/2015 | Difrod i feic modur ac anaf pan lithrodd ar dywod ar y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 21 | 23/05/2015 | Honiad fod hawlydd wedi baglu oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 22 | 01/06/2015 | Honiad difrod dŵr i siop oherwydd nad oedd 2 gwli yn gallu derbyn dŵr | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 23 | 20/05/2015 | Difrod i gerbyd pan roddodd ddefnyddiwr gwasanaeth 'hand brêc' lawr | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | 23/04/2015 | Baglodd yr hawlydd ar cwrb gan ddod a dynes lawr ag ef | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 25 | 17/04/2015 | Difrod i deiar ag aloi cerbyd gan garreg wrth ymyl y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 26 | 09/04/2015 | Baglodd yr hawlydd ar gerrig | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 27 | 15/02/2015 | Difrod i gerbyd oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 28 | 20/03/2015 | Difrod i gerbyd ar ol gyrru fewn i dyllau yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 29 | 01/10/2014 | Colli rheolaeth ar gerbyd gan danwydd oedd wedi gollwng ar y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 30 | 23/03/2015 | Difrod i gerbyd oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 31 | 28/02/2015 | Difrod i gerbyd oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 32 | 01/02/2015 | Difrod i sgrîn wynt cerbyd gan sbarcs wrth dorri arwydd i lawr | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 33 | 21/02/2015 | Difrod i gerbyd oherwydd cyflwr y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 34 | 29/01/2015 | Teiar wedi byrstio wrth yrru dros dwll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 35 | 05/02/2015 | Difrod i gerbyd oherywdd cerrig yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 36 | 14/01/2015 | Bocs glas ailgylchu wedi ei chwythu fewn i gerbyd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 37 | 03/01/2015 | Baglodd yr hawlydd mewn darn o'r ffordd wedi ei agor gan waith i osod ceblau | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 38 | 30/01/2015 | Honiad fod hawlydd wedi baglu ar cwrb ddiffygol | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 39 | 28/11/2014 | Baglodd yr hawlydd ar slab oedd wedi codi | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 40 | 19/09/2014 | Tarodd feiciwr dwll yn ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 41 | 29/11/2014 | Colli rheolaeth ar gerbyd oherwydd cyflwr y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 42 | 19/09/2014 | Colled eilliwr | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 43 | 13/09/2014 | Honiad fod hawlydd wedi baglu ar cwrb ddiffygol | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 44 | 30/05/2014 | Honiad fod hawlydd wedi baglu ar balmant diffygiol | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 45 | 06/10/2014 | Honiad fod hawlydd wedi baglu dros orchudd Dŵr Cymru oedd wedi agor ar balmant | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 46 | 04/11/2014 | Llithrodd gerbyd ar ddail gwlyb ac achosi difrod i'r cerbyd ac anaf | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 47 | 12/10/2014 | Difrod i gerbyd oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 48 | 29/09/2014 | Baglodd yr hawlydd mewn pant yn y palmant | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 49 | 30/07/2014 | Baglodd yr hawlydd ar ochr twll archwilio oedd wedi malu | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 50 | 07/09/2014 | Cerddodd yr hawlydd dros wydr ar balmant | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 51 | 22/07/2014 | Llithrodd yr hawlydd neu cafodd ei wthio yn erbyn drws toiled anabl | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 52 | 13/06/2014 | Hawlydd yn ddall. Baglodd dros ochr palmant oedd wedi codi | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 53 | 22/04/2014 | Anafodd yr hawlydd ei fawd tra yn gwaredu teledu mewn sgip | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 54 | 01/04/2014 | Honiad fod yr hawlydd wedi disgyn oherwydd safle anwastad | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 55 | 06/04/2014 | Baglodd yr hawlydd ar grid storm | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 56 | 12/02/2014 | Difrod llifogydd i eiddo | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 57 | 13/02/2014 | Honiad fod yr hawlydd wedi sefyll ar slab rhydd a achosodd iddi ddisgyn | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 58 | 09/01/2014 | Honiad fod yr hawlydd wedi baglu dros goncrîd oedd wedi codi | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 59 | 27/02/2014 | Aeth bys yr hawlydd yn sownd rhwng dau ddrws wrth chwarae peldroed 5 bob ochr | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 60 | 18/08/2013 | Honiad fod yr hawlydd wedi troi ei ffer pan yn sefyll ar safle anwastad | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 61 | 28/04/2013 | Anaf gan ddarn o fetel oedd yn ymwthio allan o sleid | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 62 | 21/01/2014 | Honiad fod yr hawlydd wedi ei daflu oddi ar ei feic wrth deithio dros twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 63 | 01/04/2013 | Tir lithirad o graig tu ôl i eiddo wedi difrodi tŷ | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 64 | 24/07/2013 | Difrod i gerbyd gan gangen coeden oedd wedi ei daro gan gerbyd arall | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 65 | 07/08/2012 | Baglodd yr hawlydd ar dwll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 66 | 07/10/2012 | Gwrthdrawiad rhwng beic a cerddwr oedd yn mynd run ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 67 | 23/08/2011 | Baglodd yr hawlydd ar stepiau anwastad | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 68 | 05/10/2014 | Difrod i eiddo gan ddiffyg yn y ffordd | Setlwyd | 220.91 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 220.91 |
| 69 | 01/06/2015 | Honiad fod bin 1100 litr wedi ei adael heb frec ac wedi chwythu fewn i gerbyd | Setlwyd | 378.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 378.00 |
| 70 | 08/06/2015 | Difrod i deiar 2 gerbyd gan dwll ar ochr y ffordd | Setlwyd | 387.72 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 387.72 |
| 71 | 13/07/2015 | Difrod i eiddo SP Manweb gan waith cloddio ffordd | Setlwyd | 1,245.89 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1,245.89 |
| 72 | 28/07/2015 | Difrod i gerbyd gan giât a chwythodd yn y gwynt | Setlwyd | 1,402.78 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1,402.78 |
| 73 | 26/05/2015 | Difrod i eiddo SP Manweb gan waith cloddio ffordd | Setlwyd | 2,554.56 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2,554.56 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 74 | 06/08/2013 | Honiad fod hawlydd wedi baglu oherwydd safle anwastad | Setlwyd | 0.00 | 0.00 | 1,672.00 | 0.00 | 1,283.00 | 2,955.00 |
| 75 | 24/07/2014 | Trodd yr hawlydd ei ffer mewn twll yn y ffordd | Setlwyd | 1,300.00 | 637.00 | 0.00 | 1,771.00 | 0.00 | 3,708.00 |
| 76 | 10/08/2013 | Anaf i droed ar lithrfa | Setlwyd | 3,000.00 | 1,732.92 | 0.00 | 2,642.45 | 0.00 | 7,375.37 |
| 77 | 07/11/2014 | Difrod i gwch pan yn cael ei symud efo hoist | Setlwyd | 8,758.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8,758.20 |
| 78 | 15/04/2011 | Honiad o anaf a difrod i gerbyd pan yn gyrru dros twll yn y ffordd | Setlwyd | 1,750.00 | 0.00 | 298.00 | 12,000.00 | 0.00 | 14,048.00 |
| 79 | 19/12/2012 | Mynediad anghyfeithlon i gompownd pysgota a gwaredu eiddo | Setlwyd | 15,000.00 | 0.00 | 13,537.00 | 10,000.00 | 6,096.00 | 44,633.00 |
| 80 | 06/09/2012 | Baglodd yr hawlydd ar bafin oedd wedi codi | Setlwyd | 6,000.00 | 615.00 | 900.00 | 13,898.72 | 5,101.28 | 26,515.00 |
| 81 | 02/11/2011 | Anafwyd yr hawlydd oherwydd fod twll archwilio ar goll | Setlwyd | 20,000.00 | 0.00 | 5,663.50 | 19,305.00 | 4,455.40 | 49,423.90 |
| 82 | 02/01/2011 | Anafwyd yr hawlydd oherwydd bwlch rhwng dau gwrb | Setlwyd | 10,000.00 | 6,255.38 | 1,631.00 | 20,250.00 | 5,250.00 | 43,386.38 |
| 83 | 07/02/2011 | Anafwyd yr hawlydd oherwydd twll yn yr ardal o gwmpas gwli | Setlwyd | 5,000.00 | 762.00 | 5,027.40 | 11,421.50 | 5,215.53 | 27,426.43 |
| 84 | 19/12/2010 | Anafwyd yr hawlydd oherwydd eira a rhew ar y ffordd | Setlwyd | 10,000.00 | 1,615.00 | 1,812.00 | 11,778.18 | 6,702.54 | 31,907.72 |
| 85 | 18/09/2010 | Marwolaeth oherwydd cymhlethdodau meddygol ar ôl llithro ar slab | Setlwyd | 25,000.00 | 1,615.00 | 4,623.00 | 22,649.00 | 5,157.15 | 59,044.15 |
| | | | | **111,998.06** | **13,232.30** | **35,163.90** | **125,715.85** | **39,260.90** | **325,371.01** |



**Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwr a gaewyd yn 2015/16**

| Rhif | Dyddiad y Digwyddiad | Manylion | Canlyniad | Iawndal | Uned Adfer Iawndal (CRU) | Costau Cyfreithiol y Cyngor | Costau Cyfreithiol yr Hawlydd | Ffioedd Eraill | Cyfanswm Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 86 | 09/02/2012 | Llithrodd yr hawlydd ar rew oedd wedi casglu ar stepiau eiddo personol defnyddiwr gwasanaeth | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 87 | 04/09/2012 | Anafwyd yr hawlydd pan yn codi bocs | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 88 | 31/03/2000 | Colled clyw | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 89 | 01/04/2013 | Colled clyw | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 90 | 28/12/2013 | Anaf i fawd yr hawlydd pan oedd rhy agos i fecanwaith lori codi biniau | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 91 | 01/04/2003 | Dirgryniad braich a llaw | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 92 | 24/02/2014 | Anaf i gefn yr hawlydd pan yn ceisio symud defnyddiwr gwasanaeth oedd yn gwrthod symud o'r gawod | Setlwyd | 4,748.48 | 0.00 | 244.80 | 4,770.62 | 0.00 | 9,763.90 |
| 93 | 22/10/2013 | Anafwyd yr hawlydd pan sbonciodd gwifren BT yn nol tra yn torri coed | Setlwyd | 21,626.97 | 2,674.89 | 0.00 | 2,974.00 | 0.00 | 27,275.86 |
| | | | | **26,375.45** | **2,674.89** | **244.80** | **7,744.62** | **0.00** | **37,039.76** |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **5 MAI 2016** |
| TEITL | **HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DULL AWGRYMEDIG AR GYFER ASESU EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO, AC YSTYRIED DULL PRIODOL O'I ROI AR WAITH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **YSTYRIED Y CYNNWYS, CYNNWYS SYLWADAU ARNO, A PENDERFYNU OS AM GYNNAL HUNANASESIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan y Pwyllgor Archwilio rôl allweddol o fewn trefniadau llywodraethu'r awdurdod – hwn yw'r Pwyllgor sydd wedi ei ddynodi fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu". Golyga hyn fod ganddo'r dasg o sicrhau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gadarn.

1.2 Fel canlyniad, mae'r Pwyllgor hefyd yn un o'r 33 elfen yn Fframwaith Lywodraethu y Cyngor. Yn y matrics ddiweddaraf (a gyflwynir i'r cyfarfod yma fel eitem ar wahân), nodir sgôr Impact o 2 allan o 5, a sgôr effeithiolrwydd o 3 allan o 5, i'r Pwyllgor Archwilio.

1.3 Er fod y sgoriau hyn yn cael eu hasesu yn rheolaidd gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, ac yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio, yr ymarfer orau fyddai i'r Pwyllgor ei hun gynnal hunanasesiad achlysurol.

## 2. CYNNAL HUNANASESIAD

2.1 Yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011 (Mehefin 2012), nodir fod y Llywodraeth eisoes wedi cymeradwyo cyhoeddiad CIPFA, "*Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities*", ei fod yn parhau i wneud hynny, a'i fod yn cynghori awdurdodau lleol i fwrw golwg ar y dogfennau hyn fel rhai atodol i'r canllawiau statudol.

2.2 Roedd cyhoeddiad CIPFA wedi ei gyhoeddi yn wreiddiol yn 2005, a nodir yn y canllawiau statudol eu hunain eu bod wedi dyddio erbyn 2012. Cyhoeddwyd fersiwn newydd o "*Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities*" yn 2013.

2.3 Mae'r canllaw yma yn cynnwys arf er mwyn cynorthwyo aelodau pwyllgorau archwilio i asesu lle mae eu Pwyllgor yn gweithredu yn y ffordd mwyaf effeithiol, a lle mae sgôp i wneud mwy. Mae canllawiau asesu CIPFA wedi eu cynnwys yn yr Atodiad.

2.4 Fel y gwelir, nid yw'r ddogfen asesu yn faith nac yn gymhleth, ond os am fanteisio ohono bydd angen neilltuo amser penodol i ymgymryd â'r gwaith – nid yw cyfarfod pwyllgor ffurfiol yn fforwm addas.

2.5 Gofynnir, felly, i'r Pwyllgor Archwilio ystyried cynnal gweithdy o'i aelodau gyda hwylusydd yn ystod Mai / Mehefin 2016, er mwyn gwneud ei asesiad ei hun o'i effeithiolrwydd.

2.6 Nid yn unig byddai canlyniad yr asesiad yn bwydo i mewn i'r Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu, ac i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ond bydd hefyd yn cyfrannu i waith pellach y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei gynnal ar ein trefniadau llywodraethu yn ystod 2016/17.

## 3. ARGYMHELLIAD

**3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried os am drefnu gweithdy yn ystod Mai / Mehefin 2016 er mwyn cynnal hunanasesiad o'r effeithiolrwydd, ac os yw'n gytûn, i benderfynu ar leoliad.**

# Gwerthuso Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio

## Allwedd i'r Asesiad

5 Mae tystiolaeth glir ar gael o nifer o ffynonellau fod y Pwyllgor yn weithredol wrth gefnogi gwelliannau ar draws pob agwedd o'r maes hwn. Mae modd adnabod y gwelliannau a wnaed yn hawdd.

4 Tystiolaeth glir o rai ffynonellau fod y Pwyllgor yn weithredol ac yn effeithiol wrth gefnogi gwelliannau ar draws rhai agweddau o'r maes hwn.

3 Mae'r Pwyllgor wedi cael profiad gymysg wrth gefnogi gwelliant yn y maes hwn. Ceir peth tystiolaeth sy'n dangos eu heffaith ond mae bylchau sylweddol hefyd.

2 Ceir rhywfaint o dystiolaeth fod y Pwyllgor wedi cefnogi'r gwelliannau, ond mae effaith y cymorth hwn yn gyfyngedig.

1 Ni ellir gweld unrhyw dystiolaeth fod y Pwyllgor Archwilio wedi cefnogi'r gwelliannau yn y maes hwn.

| Meysydd lle y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth drwy gefnogi gwelliant | Enghreifftiau o sut y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth a darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd | Hunanwerthuso, enghreifftiau, meysydd o gryfder a gwendid | Asesiad cyffredinol: 5 – 1 gweler yr allwedd uchod |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo egwyddorion llywodraethu da a'u cymhwyso i'r drefn o wneud penderfyniadau. | Darparu adolygiad cadarn o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r sicrwydd sy'n ei ategu.<br>Gweithio gydag aelodau/llywodraethwyr allweddol i wella eu dealltwriaeth o'r DLlB a'u cyfraniad iddo.<br>Yn cefnogi adolygiadau/archwiliadau o'r trefniadau llywodraethu.<br>Cymryd rhan mewn hunanasesiadau o drefniadau llywodraethu.<br>Gweithio gyda pwyllgorau archwilio partneriaid i adolygu trefniadau llywodraethu mewn partneriaethau. | | |
| Cyfrannu at ddatblygu amgylchedd rheolaeth effeithiol. | Monitro gweithredu argymhellion archwilwyr.<br>Annog perchnogaeth y fframwaith rheoli mewnol gan reolwyr priodol.<br>Codi pryderon sylweddol dros reolaethau gydag uwch reolwyr priodol. | | |
| Cefnogi sefydlu trefniadau ar gyfer llywodraethu risg ac ar gyfer trefniadau effeithiol i reoli risgiau. | Adolygu trefniadau rheoli risg a'u heffeithiolrwydd, e.e. meincnodi rheolaeth risg.<br>Monitro gwelliannau.<br>Dal perchenogion risg i gyfrif am risgiau strategol/mawr. | | |
| Rhoi cyngor ar ddigonolrwydd y fframwaith sicrwydd ac ystyried p'un ai yw sicrwydd yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. | Wedi pennu ei anghenion sicrwydd, gan nodi bylchau neu gorgyffwrdd mewn sicrwydd.<br>Yn ceisio symleiddio'r drefn o gasglu ac adrodd ar sicrwydd.<br>Adolygu effeithiolrwydd darparwyr sicrwydd, e.e. archwilio mewnol, rheoli risg, archwilio allanol. | | |
| Cefnogi ansawdd weithgaredd archwilio mewnol, yn arbennig wrth gefnogi ei annibyniaeth sefydliadol | Adolygu'r siarter archwilio a'r trefniadau adrodd swyddogaethol.<br>Asesu effeithiolrwydd y trefniadau archwilio mewnol a cefnogi gwelliannau | | |

| Meysydd lle y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth drwy gefnogi gwelliant | Enghreifftiau o sut y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth a darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd | Hunanwerthuso, enghreifftiau, meysydd o gryfder a gwendid | Asesiad cyffredinol: 5 – 1 gweler yr allwedd uchod |
|---|---|---|---|
| Helpu i gyflawni nodau ac amcanion yr awdurdod drwy helpu i sicrhau trefniadau llywodraethu, risg, rheolaeth a sicrwydd priodol. | Adolygu prosiectau a rhaglenni mawr er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar waith.<br>Adolygu effeithiolrwydd y trefniadau rheoli perfformiad. | | |
| Cefnogi datblygiad trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau gwerth am arian. | Gwneud yn siŵr bod sicrwydd o ran trefniadau gwerth am arian wedi eu cynnwys yn y sicrwydd a dderbynnir gan y Pwyllgor Archwilio.<br>Ystyried sut y bydd perfformiad o ran gwerth am arian yn cael ei werthuso fel rhan o'r DLlB. | | |
| Helpu'r awdurdod i weithredu gwerthoedd llywodraethu da, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â risgiau twyll a llygredd. | Adolygu'r trefniadau yn erbyn y safonau sydd wedi eu gosod allan yng nghyhoeddiad CIPFA *Managing the Risk of Fraud ("Red Book 2").*<br>Adolygu risgiau twyll ac effeithiolrwydd strategaeth y sefydliad i fynd i'r afael â'r risgiau hynny.<br>Asesu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu moesegol ar gyfer staff a llywodraethwyr. | | |
| Hyrwyddo adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol a mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd. | Gwella sut y mae'r awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer adrodd cyhoeddus; er enghraifft, gwell targedu ar y gynulleidfa, iaith blaen.<br>Adolygu os yw penderfyniadau a wneir drwy sefydliadau partneriaeth yn parhau i fod yn dryloyw a hygyrch i'r cyhoedd ac yn annog mwy o dryloywder. | | |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **5 MAI 2016** |
| TEITL | **HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO MATRICS ADDASIEDIG I ARDDANGOS CANOLYNIAD YR HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU'R CYNGOR AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **YSTYRIED Y CYNNWYS, CYNNWYS SYLWADAU ARNO, A CHYMERADWYO'R MATRCS** |

---

**1. CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO EI WNEUD?**

1.1 Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", mae angen i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am y matrics newydd (5 x 5) a ddefnyddir i arddangos yr hunanasesiad o'r 33 elfen yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor (yn yr Atodiad) ac yn arbennig y sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi.**

**2. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU**

2.1 Er peth amser, mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cynnal adolygiad parhaus o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Aelodau'r Grŵp yw y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, dau Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol, yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg a'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad.

2.2 Cyflwynwyd adroddiad ar Hunanasesiad Trefniadau Llywodraethu i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod olaf, ym mis Chwefror. Roedd yr adroddiad hwnnw yn cynnwys diweddariad ar y trefniadau, gan gynnwys canlyniad adolygiad oedd wedi ei gynnal yn Rhagfyr a Ionawr.

2.3 Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo sylwadau'r Grŵp Rheoli (y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Adran) fod angen gwella sgôr effeithiolrwydd 'Diwylliant y Cyngor' a sgôr effeithiolrwydd 'Y Drefn Craffu', a rhoi'r ddau yn yr oren. Canlyniad hynny oedd nad oes unrhyw elfen bellach yn y coch.

**3. NEWIDIADAU ERS CYFARFOD DIWETHAF Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

3.1 Ers cyflwyno adroddiad i gyfarfod Chwefror, bu addasiadau i'r hunan arfarniad:

- Yn nghyfarfod y Grŵp Rheoli yn Ionawr, awgrymwyd i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu ystyried defnyddio matrics Impact / Effeithiolrwydd 5 x 5 yn hytrach na 10 x 10, fel modd o wella'r ardrawiad weledol. Ar ôl ystyried manteision ac anfanteision y ddau fatrics, penderfynodd y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu fod matrics 5 x 5 yn rhagori o ychydig; mae'r matrics newydd yn ymddangos yn yr Atodiad.
- Wrth gymharu Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor yn erbyn rhestr wirio a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, roedd y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu o'r farn fod dau elfen pellach angen eu hychwanegu, sef **Defnydd o Dechnoleg** a **Rheolaeth Asedau**.
- Cytunwyd y dylid newid y teitl "Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff" i "**Cynllunio'r Gweithlu**".

3.2 Gan fod y diagram sy'n cynnwys y sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd wedi ei addasu, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio fodloni ei hun ei fod yn parhau yn adlewyrchiad teg o'r Cyngor cyn belled â'i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

3.3 Nodir, er fod ffurf y matrics wedi newid, nad yw lleoliad cymharol y gwahanol elfennau wedi eu haddasu, ar wahân i ychwanegu y ddau elfen newydd.

**4. AMSERLEN**

4.1 Mae'r hunanasesiad a gyflwynir yma yn gam allweddol wrth ddatblygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016, sef y datganiad sy'n adrodd yn ffurfiol ar ganlyniadau'r gwaith o hunanasesu trefniadau llywodraethu yr Awdurdod.

4.2 Mae'r ffaith fod y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2015/16, ac fod y Pwyllgor Archwilio wedi derbyn adroddiadau a chael cyfle i herio gwaith y Grŵp, yn rhoi sylfaen gadarn i adolygu ein llywodraethu ac wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu.

4.3 Bydd y Datganiad Llywodraethu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Mehefin, er cymeradwyaeth.

**5. ARGYMHELLIAD**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:

- Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am y matrics newydd (5 x 5) a ddefnyddir i arddangos yr hunanasesiad o'r 33 elfen yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor (yn yr Atodiad) ac yn arbennig y sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi.

| Impact: Pa mor gymharol fawr yw'r effaith wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus ar gyfer pobl Gwynedd? | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | | | Diwylliant y Cyngor | | |
| 4 | | | Cynllun Strategol y Cyngor<br>Cynllunio'r Gweithlu<br>Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig<br>Llywodraethu Gwybodaeth<br>Ymgysylltu | Rhaglen Arweinyddiaeth<br>Strategaeth ariannol | |
| 3 | | Y Drefn Craffu<br>Rheoli Perfformiad | Trefniadau Rheoli Risg<br>Defnydd o Dechnoleg | Côd Llywodraethu Lleol<br>Rheolaeth Asedau | Y Cyfansoddiad |
| 2 | | | Ymateb i Adroddiad Blynyddol yr Archwiliwr Allanol<br>Pwyllgor Archwilio<br>Archwilio Mewnol<br>Strategaeth Gaffael<br>Cydraddoldeb | Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd<br>Perthynas Aelod/Swyddog<br>Côd Ymddygiad Aelodau | Côd Ymddygiad Swyddogion<br>Polisi Gwrth-dwyll a Gwrthlygredd |
| 1 | | Cydberthynas Aelodau | Hyfforddi a Datblygu Aelodau<br>Y Drefn Gwynion | Côd Ymarfer Canu'r Gloch<br>Y Pwyllgor Safonau | Protocolau Swyddogion Statudol<br>Taflenni Penderfyniad<br>Datganiad o'r Cyfrifon |

**Effeithiolrwydd: Pa mor dda mae'r trefniadau presennol yn ein cynorthwyo i gyflawni i bobl Gwynedd?**